Home Office
Swyddfa Gartref

Cydbwyso'r system cyfiawnder troseddol o blaid y mwyafrif sy'n ufudd i'r gyfraith

Gostwng troseddu, lleihau aildroseddu a diogelu'r cyhoedd

Y Swyddfa Gartref Gorffennaf 2006

SYSTEM CYFIAWNDER TROSEDDOL CJS

Cynnwys

Rhagair gan y Prif Weinidog **2**

Rhagair gan yr Ysgrifennydd Cartref **3**

Crynodeb gweithredol **4**
Rhoi pobl a chymunedau sy'n ufudd i'r gyfraith yn gyntaf 4
Mynd i'r afael â throseddwyr er mwyn gostwng troseddu, lleihau aildroseddu, a diogelu'r cyhoedd 6
System symlach, cyflymach a thecach i ategu'r gwaith cydbwyso o'r newydd 8

Pennod 1: Cyflwyniad **9**
Cyd-destun sy'n newid 9
Llwyddiannau 10
Cydbwyso'r system cyfiawnder troseddol gyfan o'r newydd, o un pen i'r llall 12
Y ddogfen hon – camau gweithredu ac ymgynghori 13

Pennod 2: Rhoi pobl a chymunedau sy'n ufudd i'r gyfraith yn gyntaf **14**
Trin dioddefwyr a thystion yn well 14
Rheolau nad ydynt yn rhoi mantais i'r troseddwr dros y dioddefwr 16
Dedfrydu tecach, gan ddiwallu anghenion y gymuned 17
Cydymffurfio a gorfodi 20
Cyfiawnder cymunedol 22
Plismona gweladwy, ymatebol ac atebol 24

Pennod 3: Mynd i'r afael â throseddwyr er mwyn gostwng troseddu, lleihau aildroseddu, a diogelu'r cyhoedd **26**
Atal troseddu 26
Troseddu lefel isel, anhrefn cyhoeddus ac ymddygiad gwrthgymdeithasol 26
Lleihau aildroseddu, a mynd i'r afael â phobl sy'n troseddu dro ar ôl tro a phobl sy'n defnyddio cyffuriau 29
Diogelu'r cyhoedd rhag troseddwyr difrifol, treisgar a pheryglus 31

Pennod 4: System symlach, cyflymach a thecach â gorfodi cryf er mwyn ategu'r gwaith cydbwyso o'r newydd **40**
Biwrocratiaeth yr heddlu 40
Gwella ein prosesau drwy ddysgu o'r rheng flaen 41
Syml, Cyflym, Diannod 42
Technoleg well i helpu i gydgysylltu pethau 46

Pennod 5: Cynllun gweithredu: beth a wneir erbyn pryd **48**

Pennod 6: Ymgynghori **50**

Rhagair gan y Prif Weinidog

Mewn rhai ffyrdd, rwyf yn unigolyn annhebygol i hyrwyddo'r angen i drawsnewid ein system cyfiawnder troseddol er mwyn ateb heriau'r ganrif newydd. Wedi'r cyfan, rwyf yn dod o deulu o gyfreithwyr, bûm yn astudio ac yn ymarfer y gyfraith ac etifeddais farn y cyfreithiwr traddodiadol ar y cydbwysedd rhwng troseddu a rhyddid sifil.

Fodd bynnag, yn sgîl y gwrthdaro rhwng yr hyn a ddysgais a'r hyn a welais – realiti bywyd modern yn Llundain lle yr oeddwn yn byw ac yn fy etholaeth yn y Gogledd-ddwyrain – cwestiynais a oedd y cydbwysedd hwn yn diogelu ein cymdeithas yn briodol. Gallwn weld newidiadau cymdeithasol a diwylliannol sylweddol ym mhobman, ac nad oedd ein system cyfiawnder troseddol wedi ymateb i'r newidiadau hyn.

Cynyddodd troseddu yn y ganrif ddiwethaf bron ddengwaith ar hugain, ond nid oedd ein cyfreithiau, ein prosesau llys ac, yn anad dim, diwylliant y sefydliad cyfreithiol a gwleidyddol wedi ymaddasu. Roedd gennym system cyfiawnder troseddol a meddylfryd o hyd a oedd wedi'u llywio gan yr angen yn oes Fictoria i wrthsefyll annhegwch mawr y gorffennol drwy ddiogelu hawliau'r cyhuddedig, heb bryder gwirioneddol am y dioddefwr.

Roedd hefyd yn gynyddol amlwg i mi mai'r cymdogaethau hynny yr oedd angen eu diogelu gan y gyfraith fwyaf a oedd wedi dioddef fwyaf yn sgîl y methiant hwn. Oherwydd, er bod diffyg parch ein cymdeithas a'r effaith y mae hynny wedi'i chael ar droseddu ac ymddygiad yn effeithio ar bob un ohonom, ar y rhai yn y cymunedau mwyaf difreintiedig y mae'n effeithio fwyaf.

O gofio'r cefndir hwn, mae'n gamp wirioneddol bod troseddu fel y'i mesurir gan Arolwg Troseddu Prydain wedi gostwng yn sylweddol ers 1997. Rydym wedi dechrau cydbwyso'r system cyfiawnder troseddol o'r newydd. Mae buddsoddi yn y nifer fwyaf erioed o blismyn a chyflwyno amrywiaeth o fesurau newydd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi chwarae eu rhan.

Ond, er gwaethaf y cynnydd hwn, erys llawer mwy i'w wneud. Efallai fod y tebygolrwydd o ddioddef trosedd yn is nag ers dros 20 mlynedd ond mae lefelau troseddu yn parhau i fod yn rhy uchel. Rydym wedi cyflymu cyfiawnder ieuenctid ond erys gormod o oedi yn system y llysoedd. Yn anad dim, mae bwlch sy'n peri pryder rhwng yr hyn y mae'r mwyafrif parchus yn ei ddisgwyl o ran system cyfiawnder troseddol a'r hyn y maent yn ei gweld yn ei gyflawni. Mae'r cyhoedd yn credu bod y system yn pryderu mwy am ddiogelu'r rhai sy'n torri neu'n anwybyddu'r gyfraith na'r rhai sy'n ei chadw.

Rydym wedi dechrau unioni hyn. Bu llawer o'r camau yr ydym wedi'u cymryd, megis y camau yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn ddadleuol ymhlith rhai carfanau ond prin yn y cymunedau lle y maent wedi cael eu defnyddio.

Ond erys y diffyg cydbwysedd ac felly hefyd pryder y cyhoedd. Mae hyder y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol nid yn unig yn ddymunol ond yn gwbl hanfodol er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn effeithiol.

Ni allwn osgoi'r heriau hyn. Nid yw'n golygu troi'r cloc yn ôl hyd yn oed pe bai hynny'n bosibl. Nid yw'n golygu dileu rhyddid a enillwyd drwy fawr ymdrech ychwaith. Ond mae'n rhaid i ni sicrhau mewn byd modern heb rwymau'r gorffennol, gyda chyfleoedd newydd i droseddu, fod y sefydliadau cyfiawnder troseddol yn cyflawni eu dyletswydd i ddiogelu hawliau dioddefwyr a chymunedau. Mae'n rhaid i ni ddatblygu system cyfiawnder troseddol sydd â'r gwaith o ddiogelu'r mwyafrif sy'n ufudd i'r gyfraith wrth ei gwraidd. Mae'r adolygiad hwn yn nodi sut y bwriadwn gyflymu'r broses hon.



Tony Blair
Prif Weinidog

Rhagair gan yr Ysgrifennydd Cartref

Mae cyfiawnder yn gonglfaen cymdeithas ddemocrataidd, rhydd a gwâr. Ac mae ar ei mwyaf pwerus pan fydd y bobl yn gwbl hyderus ynddi. Heb hyder y cyhoedd bod y system cyfiawnder yn adlewyrchu realiti, yn diogelu pobl ddiniwed ac yn cosbi'r rhai sy'n torri'r gyfraith, peryglir ei chyfreithlondeb a'i heffeithiolrwydd. Enillir yr hyder hwn drwy fawr ymdrech ac ni ellir ei gymryd yn ganiataol.

Caiff ein system cyfiawnder troseddol, sydd wedi datblygu dros y canrifoedd, ei hedmygu'n eang a'i hefelychu. Ers 1997 rydym wedi adeiladu ar ei chryfderau niferus. Rydym wedi buddsoddi er mwyn recriwtio'r nifer fwyaf erioed o swyddogion yr heddlu ac rydym wedi cyflwyno amrywiaeth o fesurau newydd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac anhrefn. Mae ein system cyfiawnder ieuenctid wedi'i thrawsnewid ac mae dedfrydau ar gyfer troseddau difrifol wedi'u gwneud yn llymach.

Mae'r newidiadau hyn wedi helpu i ostwng troseddu yn gyffredinol draean ers 1997. Ond mae troseddu ac, yn hollbwysig, ofn troseddu, yn parhau i fod yn rhy uchel. Mae'r bygythiad newydd gan derfysgwyr, ansicrwydd byd-eang cynyddol, ymfudo ar raddfa fawr a newid cymdeithasol cyflym hefyd yn creu heriau newydd i'n system cyfiawnder troseddol. Ac mae pryder cynyddol ymhlith y cyhoedd ei bod yn diogelu'r rhai sy'n troseddu yn well na'r rhai sy'n ufudd i'r gyfraith.

Mae ein system cyfiawnder troseddol, sef canlyniad hanes a newid fesul tipyn, wedi datblygu mewn ffordd anghyson. Yn sgîl ei hannhegwch a'i chreulondeb yn oes Fictoria, er enghraifft, rhoddwyd blaenoriaeth ar gamau diogelu ychwanegol ar gyfer y rhai a gyhuddwyd. Mae'r hawliau hyn yn hollbwysig. Ond ar adegau ymddengys bellach eu bod yn bwysicach na hawliau dioddefwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Mae'r gwelliannau yr ydym wedi'u rhoi ar waith ar unwaith wedi rhoi'r lle angenrheidiol i ni gynnal archwiliad sylfaenol o'r ffordd y mae'r system cyfiawnder troseddol yn gweithio ac, yn arbennig, pa un a oes cydbwysedd cywir rhwng hawliau'r rhai a gyhuddir a hawliau dioddefwyr a'r gymuned.

Mae'r diwygiadau a'r newidiadau gweithredol yn y ddogfen hon yn deillio o'r archwiliad trylwyr hwn o'r system gyfan er mwyn sicrhau bod y cydbwysedd hwn yn gywir. Mae'n ystyried dedfrydu a rhoi llais cryfach i ddioddefwyr ym mhroses y llysoedd, yn ogystal â sut y gallwn weithio mewn ffyrdd doethach i ostwng troseddu – gan fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gyflym ac yn gadarn, ac anelu ein hymdrechion yn fwy effeithiol at y rhai sy'n troseddu dro ar ôl tro fwyaf, a'r troseddau a'r troseddwyr mwyaf difrifol.

Mae rhai o'r diwygiadau hyn yn syml. Bydd angen ymgynghori ar rai ohonynt o ran y ffordd orau o'u cyflawni. Ein bwriad yw ysgogi trafodaeth gyhoeddus ehangach ar y ffordd ymlaen, ym maes dedfrydu er enghraifft. Nid oes a wnelo cyfiawnder â'r Swyddfa Gartref neu'r Llywodraeth yn unig ond â'n cymdeithas gyfan.

Rydym yn ffodus ein bod yn byw yn y wlad hon, un o'r gwledydd mwyaf ffyniannus, tecaf a mwyaf diogel yn y byd. Mae'r mwyafrif helaeth o bobl yn barchus ac yn ufudd i'r gyfraith. Mae cyfraddau troseddu a'r tebygolrwydd o ddioddef trosedd ar eu lefel isaf ers cenhedlaeth. Ond mae'n rhaid i ni wneud mwy i roi system cyfiawnder troseddol y mae'n ei haeddu i'n gwlad. Mae'r ddogfen hon yn nodi sut y bwriadwn sicrhau hynny. Mae'r newidiadau hyn yn golygu newid sylweddol yn y ffordd y mae ein system cyfiawnder troseddol yn ein diogelu – fel unigolion ac fel cymdeithas.

John Reid

Crynodeb gweithredol

System cyfiawnder troseddol effeithiol yw sail cymdeithas wâr a ffyniannus. Edmygir ein system gyfreithiol a'n gwasanaethau'r heddlu ledled y byd yn haeddiannol. Ond, yn yr un modd ag y mae'r bygythiadau i'n ffordd o fyw yn datblygu'n gyflymach byth, mae angen i ni sicrhau bod newid yn cyflymu yn y system sy'n diogelu pob un ohonom.

Mae'r adolygiad hwn yn nodi cynlluniau'r Llywodraeth i gydbwyso ein system cyfiawnder troseddol ymhellach o blaid dioddefwyr a'r mwyafrif sy'n ufudd i'r gyfraith. Mae'n nodi rhaglen newid uchelgeisiol ond ymarferol a fydd o fudd i bawb ac eithrio'r bobl sy'n ceisio tanseilio a dinistrio ein ffordd o fyw. Mae gennym sylfaen gynnydd gadarn i adeiladu arni.

- Mae troseddu wedi gostwng 35 y cant ers 1997 ac mae troseddu treisgar wedi gostwng yn sylweddol yn ystod yr un cyfnod hefyd (Arolwg Troseddu Prydain 2005/06).
- Mae'r risg o ddioddef trosedd ar ei lefel isaf ers i Arolwg Troseddu Prydain ddechrau, yn 1981.
- Caiff 250,000 yn fwy o droseddau eu dwyn gerbron y llys bob blwyddyn nag yn 2001.

Cyflawnwyd hyn drwy newid deddfwriaethol llym, drwy gydweithio gwell ar draws yr holl asiantaethau rheng flaen ond, yn anad dim, drwy wrthod â derbyn nad oes dim byd y gallwn ei wneud o ran troseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac achosion o gamfanteisio ar y system.

1.30pm, Dydd Gwener 7 Gorffennaf, Barwnes Scotland, y Gweinidog dros Gyfiawnder Troseddol a Rheoli Troseddwyr, yn cyfarfod â rhanddeiliaid a staff yn achlysur lansio Gwasanaeth Trin Alcohol a Chyffuriau Brighton a Hove

Mae'r adolygiad yn nodi'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud, ond mae'n cydnabod bod mwy i'w wneud i ddarparu'r gwasanaeth y mae teuluoedd cyffredin sy'n ufudd i'r gyfraith yn disgwyl i ni ei ddarparu.

Rhoi pobl a chymunedau sy'n ufudd i'r gyfraith yn gyntaf

Mae angen i ni gydbwyso'r system o'r newydd mewn ffordd sy'n golygu bod y cyhoedd sy'n ufudd i'r gyfraith yn chwarae rhan lawer mwy yn y gwasanaethau cyfiawnder troseddol a gânt. Mae hynny'n dechrau drwy sicrhau bod **anghenion dioddefwyr wrth wraidd yr hyn a wna'r system cyfiawnder troseddol**. Mae'r Llywodraeth wedi gwneud llawer eisoes drwy gyflwyno gwasanaethau newydd i ddioddefwyr a thystion (er enghraifft hawliau newydd a gwybodaeth well, rhoi llais a mwy o gymorth emosiynol ac ymarferol i ddioddefwyr a thystion) ond mae'n rhaid ehangu'r mentrau hyn ymhellach. Byddwn yn gwneud hynny drwy:

- sicrhau bod gan bob aelod o fyrddau parôl sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch troseddwr treisgar neu ryw difrifol brofiad uniongyrchol neu anuniongyrchol o fod yn ddioddefwr neu y gall ddangos dealltwriaeth gadarn o faterion o ran dioddefwyr;
- cyflwyno Llais y Dioddefwr yn yr achosion mwyaf difrifol a wrandewir gan y bwrdd parôl;
- ei gwneud yn ofynnol i bob erlynydd ddilyn addewid newydd i ystyried a diogelu buddiannau dioddefwyr;
- cynyddu'r iawndal y mae troseddwyr yn ei dalu, gan ei gwneud yn ofynnol i droseddwyr treisgar dalu treuliau meddygol dioddefwyr, a phwerau newydd i ganiatáu i'r llys ailagor achosion ar ôl cyfnodau cyfyngiadau presennol, gan ganiatáu i ddioddefwyr ddwyn achos, er enghraifft pe bai'r troseddwr yn cael arian annisgwyl yn ddiweddarach. Byddwn yn ymgynghori ar y cynigion.

Rydym wedi edrych ar y **Ddeddf Hawliau Dynol** a pha un a yw'n atal cymhwyso **cydbwysedd synnwyr cyffredin rhwng hawliau unigolion (troseddwyr yn arbennig) a hawliau dioddefwyr a**

chymunedau i gael eu diogelu rhag niwed. Yn ein barn ni, mae'r Ddeddf ei hun yn fframwaith pwerus ar gyfer cyflawni hyn, ac ni fydd diddymu na diwygio'r Ddeddf yn helpu i gydbwyso'r system o'r newydd. Mae enghreifftiau o ddyfarniadau llys (yn arbennig, dyfarniad Chahal yn Llys Hawliau Dynol Ewrop) sy'n ein hatal rhag cymhwyso cydbwysedd priodol yn effeithiol. Yn ogystal, nododd yr adolygiad enghreifftiau o unigolion neu sefydliadau yn ymddwyn yn rhy ofalus wrth iddynt ddehongli hawliau croes. Er mwyn ymdrin â hyn, byddwn yn:

- herio dyfarniadau (yn enwedig dyfarniad Chahal) sy'n ein hatal rhag cydbwyso hawliau unigol â diogelu'r cyhoedd yn briodol;
- esbonio bod gan bob asiantaeth cyfiawnder troseddol berthnasol ddyletswydd i ddiogelu'r cyhoedd wedi'i thanlinellu gan ddeddfwriaeth, os bydd angen;
- cyfyngu ar allu'r rhai sy'n amlwg yn euog i gael eu collfarnau wedi'u dileu oherwydd afreoleidd-dra gweithdrefnol, a byddwn yn ymgynghori ar y ffordd orau o gyflawni hyn yn ymarferol;
- rhoi cyngor cadarn, ymarferol sy'n chwalu mythau i ymarferwyr ar sut y dylid cydbwyso hawliau rhwng troseddwyr a'r gymuned ehangach;
- sefydlu gwasanaeth cynghori er mwyn i staff rheng flaen (megis yr heddlu) gael cyngor clir ar gymhwyso hawliau dynol.

Mae angen i ni gael **fframwaith dedfrydu y mae gan y cyhoedd hyder ynddo**. Rydym wedi cymryd camau mawr eisoes i sicrhau'r broses ddedfrydu gadarn a chyson y mae'r cyhoedd yn ei disgwyl, gan gynnwys cyflwyno dedfrydau diderfyn newydd ar gyfer troseddwyr difrifol sy'n peri risg i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r adolygiad wedi datgelu, er gwaethaf y cynnydd hwn, a pharodrwydd y farnwriaeth i ddefnyddio'r dedfrydau newydd hyn, nad ydyn wedi argyhoeddi'r cyhoedd eto bod y broses ddedfrydu yn cyflawni'r hyn y mae'n rhaid iddi ei gyflawni.

Yn yr adolygiad hwn, rydym yn cyhoeddi camau gweithredu clir i ymdrin â rhai materion sy'n peri pryder ar unwaith. Ond mae'r Ysgrifennydd Cartref, yr Arglwydd Ganghellor a'r Twrnai Cyffredinol yn credu bod cyfres ehangach o faterion y mae angen eu trafod yn fanylach hefyd. Felly bydd y tri Gweinidog yn cynnal ymgynghoriad ar amrywiaeth o faterion o ran dedfrydu a materion cysylltiedig maes o law. Yn y tymor byrrach, ac mewn ymgynghoriad â'r Cyngor Canllawiau Dedfrydu ac eraill, byddwn yn cymryd camau er mwyn:

- rhoi disgresiwn i farnwyr derfynu'r gostyngiad awtomatig o draean ar hyd dedfryd a roddir os bydd person yn pledio'n euog yn gynnar;
- atal troseddwyr a ailddedfrydir ar ôl apêl yn erbyn dedfrydau ysgafn rhag cael gostyngiad mewn dedfryd oherwydd y trallod o gael eu dedfrydu eto;
- newid y ffordd y mae'r Cyngor Canllawiau Dedfrydu yn gweithio fel mai'r Ysgrifennydd Cartref a Gweinidogion cyfiawnder troseddol yw'r olaf i roi cyngor ar ganllawiau;
- terfynu'r gofyniad, wrth bennu'r dyddiad rhyddhau cynharaf, y dylai barnwyr haneru'r ddedfryd yn awtomatig ar gyfer dedfrydau diderfyn. Bydd hefyd yn cynnwys opsiynau o ran sut y dylent bennu'r dyddiad posibl cyntaf ar gyfer parôl.

Efallai yn bwysicaf, er mwyn i'r system cyfiawnder troseddol gael ei pharchu gan y mwyafrif sy'n ufudd i'r gyfraith a throseddwyr, mae'n **rhaid iddi ymdrin yn effeithiol â'r rhai sy'n torri'r rheolau**. Er enghraifft, mae'n rhaid iddi ymdrin â'r rhai sy'n gwrthod cydymffurfio â gorchmynion cymunedol a mechnïaeth yn llym. Rydym yn cyflawni hyn yn llawer gwell eisoes ond mae'r adolygiad wedi datgelu bod mwy y gallwn ei wneud i sicrhau bod troseddwyr yn **cydymffurfio** â'u dedfrydau ac i roi mwy o bŵer i staff rheng flaen ymdrin â'r rhai sy'n eu torri. Byddwn yn:

- cyflwyno gwasanaeth gorfodi integredig yn genedlaethol erbyn 2007/08;
- ymgynghori ar dargedau newydd ar gyfer dychwelyd y rhai sy'n torri mechnïaeth i'r llys yn gyflymach, a defnyddio cysylltiadau teledu byw rhwng yr heddlu a'r llys i wneud hynny'n haws;

- dechrau proses weithredu genedlaethol fesul cam o bwerau newydd er mwyn sicrhau bod y llysoedd yn gweithredu yn ôl rhagdybiaeth newydd y caiff troseddwyr sy'n torri mechnïaeth ac sy'n troseddu tra eu bod ar fechnïaeth eu cadw yn y ddalfa. Byddwn yn dechrau gyda'r rhai sy'n cyflawni troseddau mwy difrifol;
- cyflymu'r broses o ddychwelyd diffynyddion ar fechnïaeth nad ydynt yn ymddangos i'r llys drwy gyfyngu ar y defnydd o 'warantau â mechnïaeth'. Byddwn yn ymgynghori ar sut i wneud hynny;
- cyflymu'r broses o ddychwelyd troseddwyr sy'n torri amodau eu trwydded i'r carchar, gan gynnwys targed llym newydd ar gyfer troseddwyr difrifol;
- ymgynghori ar roi'r pŵer i staff prawf amrywio'r gosb y mae troseddwr yn ei chael, yn dibynnu ar ei ymddygiad, heb orfod dychwelyd i'r llys.

Mae'r broses gydbwyso o'r newydd yn golygu na ddylai ein llysoedd fod yn anghysbell ac yn anhygyrch i'r cyhoedd. Canfyddir nad yw'r system cyfiawnder troseddol yn cyd-fynd â realiti bywyd modern mwyach. Y ffordd o ymdrin â hyn yw drwy sicrhau bod **cyfiawnder yn fater cymunedol** lle y mae'r cyhoedd yn ymwneud yn fwy â gweld y broses a chymryd rhan ynddi. Dyna pam y byddwn yn:

- cyflwyno'r ymagwedd cyfiawnder cymunedol mewn mwy o ardaloedd, a fydd yn creu cysylltiadau cryfach rhwng y farnwriaeth, ynadon, erlynwyr a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu;
- ehangu'r cynllun Ad-dalu Cymunedol, sy'n rhoi'r cyfle i gymunedau ddewis pa waith di-dâl y mae troseddwyr yn ei wneud;
- diwygio'r ffordd y dygir y system cyfiawnder troseddol i gyfrif am y ffordd y mae'n trin pobl o bob cymuned ethnig, gyda rhaglen waith i wella'r ymateb i droseddau a ysgogir gan gasineb hiliol a chasineb crefyddol.

Rydym am gael **Gwasanaeth yr Heddlu sy'n fwy lleol** ac sy'n cyrraedd y safonau proffesiynol uchaf.

Rydym wedi gwneud llawer eisoes i wneud i hynny ddigwydd ond mae'r adolygiad wedi cadarnhau'r angen i wneud mwy i sicrhau bod yr heddlu yn wirioneddol weladwy ac yn ymateb i bobl, gan ymdrin yn effeithiol â'r troseddu a'r ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n eu pryderu ac a all ddifetha bywydau pobl. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn:

- rhoi tîm plismona cymdogaeth penodedig ym mhob ardal erbyn mis Ebrill 2008;
- rhoi safonau gwasanaeth gwell ar waith ym mhob heddlu erbyn mis Tachwedd 2006 (er enghraifft bydd yn haws cysylltu â'r heddlu);
- cyflwyno galwad gymunedol i weithredu, er mwyn ysgogi ymateb gan yr heddlu (neu asiantaethau eraill) lle nad yw cymunedau o'r farn yr ymdrinnir â'u pryderon.

Mynd i'r afael â throseddwyr er mwyn gostwng troseddu, lleihau aildroseddu, a diogelu'r cyhoedd

Mae'r adolygiad wedi cadarnhau mai'r nod canolog o hyd, wrth i ni gydbwyso'r system o'r newydd, fydd **gostwng troseddu** ond bod angen i ni **wneud hynny mewn ffordd ddoethach**. Gallwn fynd i'r afael â phob math o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a dylem wneud hynny; ond dylem fynd i'r afael â mân droseddau yn gyflym ac yn effeithlon fel y gallwn neilltuo mwy o amser ac ymdrech i ymdrin â phobl sy'n troseddu dro ar ôl tro, ac â throseddu difrifol a threisgar.

Er bod troseddu wedi gostwng ar y cyfan, a'n bod yn dwyn mwy o droseddau gerbron y llys, nid yw troseddu treisgar wedi gostwng mor gyflym â throseddu cyffredin megis bwrgleriaeth neu droseddau'n ymwneud â cherbydau. Er mwyn canolbwyntio fwy ar droseddau **difrifol** a diogelu'r cyhoedd rhag troseddwyr peryglus a threisgar, byddwn yn:

- adeiladu 8,000 o leoedd ychwanegol mewn carchardai ac yn parhau i ystyried a oes angen rhagor yn fanwl;
- cynyddu'r gosb fwyaf am gario cyllell heb reswm da i bedair blynedd;

- cyflwyno Gorchmynion Troseddwyr Treisgar er mwyn rhoi pwerau llym newydd i'r llysoedd reoli troseddwyr treisgar peryglus ar ôl i gyfnod eu dedfryd ddod i ben gyda chosbau o hyd at bum mlynedd am dorri amodau;
- cymryd camau llymach newydd ar alcohol, gyda phwerau newydd i swyddogion safonau masnach gymryd camau yn erbyn y rhai sy'n gwerthu alcohol i blant neu'r rhai sy'n feddw, a 'rhaglen ymyriadau alcohol' newydd;
- newid y rheolau ar gyfer penderfyniadau parôl, er mwyn sicrhau bod yn rhaid i unrhyw benderfyniad i ryddhau troseddwr i'r gymuned fod yn unfrydol;
- ymgynghori ar fesurau i sicrhau bod cost penderfyniadau remand a dedfrydu yn fwy tryloyw i lysoedd lleol;
- gweithredu mesurau llym newydd i atal troseddwyr rhag parhau â'u gweithgareddau anghyfreithlon yn y carchar;
- ymgynghori ar darged newydd uchelgeisiol ar gyfer atafaelu asedau troseddwyr a chynyddu cyfranogiad y sector preifat wrth atafaelu asedau.

Gall troseddu lefel isel dirwystr arwain at droseddu mwy difrifol ac achosi llawer o ddifrod, niwsans a niwed. O ran **troseddu lefel isel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol**, mae'r cyhoedd yn disgwyl y caiff camau effeithiol, cyflym eu cymryd i ymdrin â phroblemau lleol a chosbi troseddwyr. Er mwyn sicrhau hynny, byddwn yn:

- cynyddu'r graddau y manteisir ar bwerau ymddygiad gwrthgymdeithasol, a lleihau'r amrywiadau o ran perfformiad lleol, gan gael dangosyddion ymddygiad gwrthgymdeithasol a Pharch ym mhob ardal leol;
- cyflwyno Gorchmynion Iawndal Rhieni mewn deg ardal o haf 2006 ymlaen er mwyn sicrhau bod rhieni yn cymryd cyfrifoldeb dros y difrod y mae eu plant yn ei achosi;
- cyhoeddi cynigion o ran pa bwerau newydd a allai ein helpu i ostwng troseddu lefel isel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhellach byth;
- ei gwneud yn haws casglu dirwyon yn uniongyrchol o incwm neu fudd-daliadau gan gynnwys ymgynghori ar ddidyniadau gorfodol yn ogystal â didyniadau gwirfoddol wrth ddedfrydu troseddwr.

Mae angen parhaus i fynd i'r afael â'r **troseddwyr mwyaf cyson**, gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio cyffuriau. Mae lleiafrif bach o droseddwyr yng Nghymru a Lloegr yn gyfrifol am nifer anghymesur o droseddau. Fel rhan o'n hymagwedd ddoethach tuag at droseddu, mae angen i ni sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y grŵp sy'n achosi'r niwed mwyaf, gan roi dewisiadau anodd iddynt, ond gan anelu bob amser at eu hatal rhag aildroseddu. Er mwyn gwneud hynny, byddwn yn:

- cyfuno ein rhaglen troseddwyr cyson a throseddwyr â blaenoriaeth â'n Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau, a gwella ein hymagwedd tuag at y rhai sy'n defnyddio cyffuriau sy'n achosi llawer o niwed, drwy gael amodau llymach, gorfodi llymach ac asesiadau dilynol newydd.
- gweithio gyda'r Arglwydd Brif Ustus a dedfrydwyr i sicrhau y caiff adnoddau prawf eu hanelu at y troseddwyr hynny sydd eu hangen mwyaf;
- manteisio ar arbenigedd gan y sector preifat a'r sector gwirfoddol er mwyn gwella ansawdd a pherfformiad cosbau cymunedol;
- ymgynghori ar bŵer newydd er mwyn i'r llysoedd osod dedfrydau estynedig gydag amodau llym ar y troseddwyr mwyaf mynych, er mwyn eu hatal rhag achosi mwy o niwed yn y dyfodol.

System symlach, cyflymach a thecach i ategu'r gwaith cydbwyso o'r newydd

Mae angen i'r system sy'n ategu hyn oll fod yn llai biwrocrataidd ac yn gyflymach. Mae angen atebion yr 21ain ganrif i droseddau'r 21ain ganrif. Er mwyn sicrhau hynny, byddwn yn:

- cyflwyno fframwaith perfformiad symlach, newydd ar gyfer troseddu, cyffuriau a phlismona erbyn 2007/08 fel y gallwn symleiddio dulliau i olrhain perfformiad yr heddlu a'u hatal rhag dod yn rhy lafurus;
- cyhoeddi papur ymgynghori yn ystod haf 2006 i geisio barn ar welliannau i Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol, er mwyn gwella arferion a lleihau biwrocratiaeth;
- dechrau a chefnogi nifer gynyddol o brosiectau gwella â ffocws lleol gan ddysgu o'r rheng flaen a meithrin sgiliau newydd.

Yn y llysoedd, rydym wedi sicrhau bod y gwaith o reoli achosion yn fwy effeithiol ond gall prosesau fod yn hir o hyd ac mae adnoddau gwerthfawr llysoedd yn parhau i gael eu defnyddio i ymdrin â miloedd o droseddau lefel isel lle y mae'r troseddwr yn pledio'n euog eisoes. Dyna pam y bu'r Arglwydd Ganghellor a'r Twrnai Cyffredinol yn datblygu cynigion i symleiddio, rhesymoli a chyflymu'r systemau erlyn a systemau'r llysoedd, gan gynnwys er mwyn:

- ehangu'r defnydd o Rybuddiadau Amodol – caiff darpariaethau, gan gynnwys rhai ar alluogi amodau cosbol, eu datblygu ym Mesur yr Heddlu a Chyfiawnder;
- datblygu 'swmpbrosesu' gan y llys ar gyfer achosion na chânt eu herio am droseddau rheoleiddio megis trwyddedau teledu, er mwyn rhyddhau adnoddau llysoedd lleol;
- gweithio gyda'r farnwriaeth i gyflwyno mesurau ymarferol i gyflymu prosesau llysoedd ynadon a Llys y Goron, gan gynnwys mwy o ddefnydd o gysylltiadau teledu byw a mesurau i gyflawni 'cyfiawnder drannoeth';
- gweithio gyda'r farnwriaeth i roi cynnig ar amrywiaeth o ymagweddau i sicrhau bod llysoedd yn agosach at gymunedau lleol;
- gweithio gyda'r farnwriaeth i gymryd camau i leihau hyd a chostau'r achosion costus iawn yn Llys y Goron, ac rydym yn ymgynghori ar gosbau i ymdrin ag achosion lle nad yw'r amddiffyniad yn dilyn gorchmynion llys.

Rydym yn defnyddio technoleg fodern i chwyldroi profiad y rhai sy'n gweithio ym maes cyfiawnder troseddol a'r rhai sy'n defnyddio ei wasanaethau. Byddwn yn parhau i fanteisio ar yr holl gyfleoedd y mae hyn yn eu darparu, gan gynnwys drwy:

- datblygu'r defnydd o Gyfnewidfa'r System Cyfiawnder Troseddol ymhellach er mwyn datblygu ffyrdd arloesol o rannu gwybodaeth am droseddwyr ar draws y system cyfiawnder troseddol gyfan;
- cynyddu'r defnydd o gysylltiadau teledu byw er mwyn gwella effeithlonrwydd a lleihau straen i ddioddefwyr a thystion sy'n rhoi tystiolaeth yn y llys;
- gwella'r defnydd o dechnoleg DNA wrth ddatrys troseddau.

Pennod 1:
Cyflwyniad

1.1 System cyfiawnder troseddol sy'n gweithredu'n briodol yw sylfaen cymdeithas wâr. Heb blismona effeithiol, byddai system llysoedd effeithlon, a dulliau ar gyfer cosbi ac adsefydlu troseddwyr, sy'n rhan hanfodol o gontract y llywodraeth â dinasyddion yn cael eu gwrthdroi, a byddem yn dychwelyd at fyd cyntefig llawn o ddial a gwarcheidwadaeth.

1.2 Rydym yn wlad arloesol ym maes cyfiawnder troseddol. Mae ein system llysoedd yn un o'r systemau hynaf ac uchaf eu parch yn y byd. Gwnaethom arloesi ym maes plismona, ac ystyrir bod ein heddluoedd ymhlith y rhai gorau yn y byd. Ac roeddem hefyd wrth flaen y gad ym maes diwygio carchardai ac wrth ddatblygu gwasanaethau prawf, gan sicrhau bod a wnelo ein system gosbi ag adsefydlu yn ogystal â chosbi, fel ei bod yn diogelu'r cyhoedd yn yr hirdymor yn ogystal ag yn y byrdymor.

1.3 Dyma hanes clodwiw. Ond mae'n rhaid i ni sicrhau, yn ogystal â'n llwyddiant yn y gorffennol, fod ein system yn addas ar gyfer y byd sydd ohoni, a'n bod yn ei herio'n barhaus er mwyn sicrhau ei bod yn ategu ei diben sylfaenol, sef cyflawni cyfiawnder sy'n cadw dinasyddion yn ddiogel.

Cyd-destun sy'n newid

1.4 Mewn sawl ffordd, rydym yn fwy diogel yn y byd modern nag y buom erioed o'r blaen; ac mae braich hir y gyfraith yn ymestyn ymhellach. Ond mae heriau newydd wedi cymryd eu lle.

1.5 Ni ellir ateb yr heriau hyn drwy newid blaenoriaeth a pholisi fesul tipyn. Dyma arwyddion y newidiadau seismig sydd wedi deillio o globaleiddio. Mae ansicrwydd y Rhyfel Oer wedi newid yn heriau newydd niferus – gan gynnwys ymfudo ar raddfa fawr, terfysgaeth ryngwladol, a throseddu cyfundrefnol. Mae technoleg – gan gynnwys y rhyngrwyd – yn cynnig cyfleoedd newydd i droseddu, yn ogystal â ffyrdd newydd o frwydro yn ei erbyn. Mae angen i'n system ateb yr heriau hyn er mwyn i ni allu cadw pobl yn ddiogel.

1.6 Yn ogystal, mae strwythurau teuluoedd wedi newid, gyda chyfraddau ysgaru uwch, mwy o deuluoedd un rhiant, a llai o deuluoedd estynedig yn byw gyda'i gilydd. Mae cymunedau daearyddol clòs yn newid yn gymunedau buddiannau, y gellir eu taenu ledled y byd. Mae hyn yn golygu bod bywyd yn fwy cyfoethog i'r rhan fwyaf ohonom; ond mae hefyd yn lleihau ein hymdeimlad o gynefindra a diogelwch yn ein cymuned leol; ac mae'n lleihau lefelau'r hyn a elwir yn 'rheolaeth gymdeithasol anffurfiol', lle y mae pobl ag awdurdod mewn cymuned yn cadw ymddygiad pobl eraill o dan reolaeth. Mae hyn wrth wraidd pryderon ynghylch lefelau parch ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

1.7 Yn drydydd, fel cymdeithas, rydym wedi dod yn gynyddol gyfoethog; ac mae nifer gynyddol ohonom bellach yn disgwyl safon byw uchel fel hawl. Mae dyheadau yn codi'n gynt nag incwm. Rydym yn berchen ar lawer mwy, ond rydym am gael llawer mwy hefyd ac, yn ogystal, rydym yn berchen ar nifer fawr o eitemau gwerthfawr, cludadwy, bach y mae'n gymharol hawdd eu dwyn a'u gwerthu. Mae rhyw 78 y cant o gartrefi'r DU bellach yn berchen ar ffôn symudol (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, *Arolwg Gwariant a Bwyd, Gwariant Teuluol*, 2004). A chaiff troseddu meddiangar ei lywio gan gaethiwed i gyffuriau hefyd, gyda chyfran uchel iawn o'r rhai sy'n ymwneud â lladrata o siopau a mathau eraill o ladrata yn gwneud hynny er mwyn bwydo arfer.

1.8 Ar yr un pryd, mae ein disgwyliadau o'r system cyfiawnder troseddol wedi cynyddu. Rydym yn gwybod llawer mwy am droseddu nag yr ydym wedi'i wybod erioed – nid dim ond o ran yr ystadegau yr ydym yn eu casglu, ond o ran yr hyn yr ydym yn ei weld a'i glywed o'n hamgylch yn y cyfryngau. Mae cysylltiad gwell rhwng yr heddlu a'r cyhoedd yn golygu ein bod yn hysbysu'r heddlu am lawer mwy o

droseddau. Dengys Arolwg Troseddu Prydain, sy'n gofyn i ddioddefwyr troseddau pa un a ydynt wedi hysbysu'r heddlu o'r digwyddiadau ai peidio, fod cyfran y troseddau yr hysbysir yr heddlu amdanynt wedi codi'n sylweddol yn ystod y 25 mlynedd ers dechrau cynnal yr arolwg. Mae troseddau a oedd yn gudd gynt bellach yn fwy gweladwy. Ni allwn wybod, er enghraifft, pa un a oes mwy o ymosodiadau ar blant nag a gafwyd yn y gorffennol – ni allwn ond gwybod ein bod yn ymwybodol o fwy o ymosodiadau, a'u bod yn dal i fod yn gwbl annerbyniol i ni.

1.9 Felly, yn gywir ddigon, wrth i ni ddod yn ymwybodol o fwy o droseddu, rydym yn disgwyl i fwy gael ei wneud i ymdrin ag ef. Rydym yn disgwyl i'r system weithio o blaid y mwyafrif sy'n ufudd i'r gyfraith. Mae'n amlwg bod hyn y golygu y dylid diogelu'r cyhoedd rhag troseddu difrifol a pheryglus; ond mae'n golygu hefyd na ddylai neb allu torri'r gyfraith heb gael ei gosbi. Dylai gwobrwyon ddod yn sgîl chwarae'n deg. Dylai peidio â chwarae'n deg arwain at gosb. Yn gynyddol, rydym yn disgwyl i'n system allu ymdrin â'r amrywiaeth lawn o droseddau, o'r troseddau mwyaf difrifol i fân droseddau.

1.10 Felly nid yw'r dasg o foderneiddio'r system cyfiawnder troseddol wedi'i chwblhau eto. Mae'r system wedi'i gwella'n fawr yn ystod y degawd diwethaf ond nid yw'n ddigon da o hyd. Canlyniad y llwyddiant a gawsom yw y gallwn ymdrin â'r methiannau eraill bellach. Yn 1997, gwnaethom etifeddu system a ariannwyd yn wael ac a oedd yn perfformio'n wael. Yn rhannol o ganlyniad i fethiant gweinyddol ac yn rhannol o ganlyniad i ddiwylliant cyfreithiol, nid oedd buddiannau dioddefwyr troseddau wedi'u cymryd yn ddigon o ddifrif. Nid oedd ailasesiad sylfaenol yn bosibl tra roedd y system mor wael.

1.11 Mae'r ddogfen hon yn ystyried y system gyfan – o blismona a'r llysoedd i garchardai a gwasanaethau prawf – ac mae'n nodi camau clir ar gyfer diwygio. Mae'n ystyried dedfrydu a hawliau dynol, sut i roi llais cryfach i ddioddefwyr, sut y gallwn weithio mewn ffyrdd doethach i ostwng troseddu, a sut y gallwn ganolbwyntio ein hymdrechion ar y bobl sy'n troseddu dro ar ôl tro waethaf. Ond, yn gyntaf, mae'n werth myfyrio ar faint rydym wedi'i gyflawni.

Llwyddiannau

1.12 Yn 1997, etifeddodd y Llywodraeth system nad oedd â'r adnoddau priodol i wneud pethau sylfaenol hyd yn oed. Roedd niferoedd yr heddlu yn gostwng, ac roedd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cael anawsterau ac yn cael ei danariannu, roedd hyfforddiant prawf wedi'i ohirio'n gyfan gwbl rhwng 1995 a 1998 ac yn ystod y cyfnod hwnnw, nid ymunodd yr un swyddog prawf newydd gymhwyso â'r system o gwbl. Ers hynny, rydym wedi cyflwyno diwygiadau mawr sydd wedi sicrhau cynnydd gwirioneddol wrth wella ein hasiantaethau cyfiawnder troseddol, cydgysylltu gwasanaethau, gostwng troseddu a dwyn troseddau gerbron y llys yn well, gwella'r ffordd y caiff dioddefwyr a thystion eu trin, gorfodi ein system cyfiawnder yn well a sicrhau bod ein cyfreithiau yn fwy addas ar gyfer yr 21ain ganrif.

- Mae troseddu wedi gostwng 35 y cant ers 1997 ac mae troseddu treisgar wedi gostwng yn sylweddol yn ystod yr un cyfnod hefyd (Arolwg Troseddu Prydain 2005/06).
- Mae'r risg o ddioddef trosedd ar ei lefel isaf ers i Arolwg Troseddu Prydain ddechrau yn 1981.
- Ar ôl lleihau am sawl blwyddyn, mae hyder y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol bellach yn gwella (Arolwg Troseddu Prydain 2005/06).
- Mae pryder ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi lleihau bron chwarter ers cyflwyno ein rhaglen Parch (Arolwg Troseddu Prydain 2005/06).

1.13 Rydym wedi **rhoi mwy o adnoddau a mwy o bwerau i asiantaethau cyfiawnder troseddol unigol**. Mae gennym bellach 141,270 o swyddogion yr heddlu yng Nghymru a Lloegr, sef y nifer fwyaf erioed, a thros 6,300 o Swyddogion Cymorth Cymunedol (*Police Service Strength* – Bwletin Ystadegol y Swyddfa Gartref, Ionawr 2006) yn gweithio gyda hwy fel presenoldeb gweladwy ar y strydoedd. Rydym wedi gwella perfformiad Gwasanaeth Erlyn y Goron, a gaiff ei ariannu'n briodol bellach ac sy'n cyflogi dros 2,800 o erlynwyr, gan chwarae rhan lawer mwy gweithredol drwy gydol achos. Ers 1996, nid oes un carcharor Categori A wedi dianc, mae adnoddau carchardai wedi codi 35 y cant mewn termau real, mae 19,000 mwy o leoedd mewn carchardai, a bu cynnydd sylweddol yn nifer y staff prawf rheng flaen.

1.14 Ond mae moderneiddio ein systemau wedi ymwneud yn fwy na gwella perfformiad asiantaethau unigol yn unig, mae'n ymwneud â **chydgysylltu gwasanaethau** hefyd. Yn y gorffennol, ceisiodd yr heddlu, erlynwyr, y llysoedd, carchardai a gwasanaethau prawf oll wella perfformiad ar eu pen eu hunain. Arweiniodd hyn at rai llwyddiannau mawr; ond yn rhy aml ni throsglwyddwyd y gwelliannau a wnaed mewn un asiantaeth i asiantaethau eraill; ac, ar eu gwaethaf, roedd ymgais i wella cyflymder neu ansawdd mewn un lle yn lleihau perfformiad mewn man arall.

1.15 Mae'r Llywodraeth hon wedi dod â'r asiantaethau sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol at ei gilydd yn llawer agosach. Mae hyn yn dechrau gydag arweinyddiaeth ar y cyd gan yr Ysgrifennydd Cartref, yr Arglwydd Ganghellor a'r Twrnai Cyffredinol, gan gynnwys drwy greu'r Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol, ac fe'i hategir gan y Byrddau Cyfiawnder Troseddol cenedlaethol a lleol sy'n dod â'r holl bartneriaid allweddol at ei gilydd. Rydym wedi rhoi trefniadau rheoli a monitro aml-asiantaeth llym ar waith ar gyfer rheoli troseddwyr difrifol a pheryglus risg uchel yn y gymuned. Caiff targedau eu rhannu'n gynyddol bellach yn hytrach na bod yn rhai unigol. Er enghraifft, mae'r holl asiantaethau cyfiawnder troseddol wedi cydweithio **i ddwyn mwy o droseddau gerbron y llys**. Rydym wedi rhagori ar ein targed, gyda 1,272,000 o droseddau yn cael eu dwyn gerbron y llys yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2005 o gymharu â'r 1,002,000 yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2002 – mwy nag erioed o'r blaen.

1.16 Ni chaiff **dioddefwyr a thystion** eu hymyleiddio gan y system mwyach. Rydym wedi treblu'r arian ar gyfer Cymorth i Ddioddefwyr bron ers 1997 ac wedi cyflwyno cod ymarfer i ddioddefwyr troseddau. Rydym wedi cyflwyno datganiadau personol dioddefwyr – fel y gall dioddefwyr ddweud eu dweud yn y llys o ran sut y mae trosedd wedi effeithio arnynt – ac wedi newid y rheolau er mwyn caniatáu i erlynwyr siarad â dioddefwyr a thystion cyn treial. Rydym hefyd wedi cyflwyno Unedau Gofal i Dystion, gan roi cymorth i ddioddefwyr a thystion drwy gydol y broses gyfreithiol ac rydym yn cynnal cynlluniau eiriolwyr dioddefwyr peilot mewn pum ardal.

1.17 Caiff **gorchmynion y llys eu gorfodi'n well**. Mae'r gyfradd talu dirwyon wedi gwella o 55 y cant yn 2002/03 i 83 y cant yn 2005/06.

1.18 Rydym wedi **dechrau moderneiddio** ein cyfreithiau er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu realiti yn briodol ac yn gadael i ni gymryd camau rhagataliol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwael cyn y collir rheolaeth. Rydym wedi cyflwyno pwerau a chosbau newydd sy'n gadael i ni ymdrin ag anhrefn lefel isel yn gyflym ac yn syml – gan gynnwys Rhybuddion Cosbau am Anhrefn, y gellir eu rhoi oherwydd ymddygiad iobaidd ar y strydoedd. Am y tro cyntaf mewn dros ganrif, rydym wedi diwygio'r ddeddfwriaeth ym maes troseddau rhyw er mwyn sicrhau bod gennym y pwerau sydd eu hangen arnom i fonitro'r rhai a gollfarnwyd. Mae deddfwriaeth arall wedi caniatáu i ni atafaelu'r arian y mae troseddwyr yn ei ennill yn

sgîl eu troseddau oni bai y gallant brofi eu bod wedi'i gael mewn ffordd onest; yn ei gwneud yn ofynnol i droseddwyr cyffuriau difrifol a chyson fynychu asesiadau cyffuriau; yn ei gwneud yn haws i'r llysoedd glywed am ymddygiad gwael blaenorol; a dileu'r rheol erlyniad dwbl am achosion difrifol, gan olygu y gall y diffynnydd sefyll ei brawf eto lle y canfyddir tystiolaeth newydd gymhellol. Rydym wedi gwella'r broses ddedfrydu drwy Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003, a gyflwynodd ddedfrydau diderfyn i droseddwyr treisgar a throseddwyr rhyw y bernir eu bod yn peri risg i'r cyhoedd. Mae'r llysoedd yn defnyddio'r dedfrydau newydd. Rydym hefyd wedi creu 19,000 yn fwy o leoedd mewn carchardai ers 1997 er mwyn sicrhau y gallwn ddiogelu'r cyhoedd rhag pobl beryglus.

1.19 Rydym wedi cyflawni llawer y dylem ymfalchïo ynddo – ac mae ein cyflawniadau wedi newid ac achub bywydau – ond mae mwy y gallwn ei wneud ac y dylem fod yn ei wneud. Ar ôl cloriannu'r sefyllfa, rydym wedi dod i'r casgliad bod angen cydbwyso'r system yn well a bod angen gwaith gorfodi llawer gwell, ynghyd ag ymgais i sicrhau y ceir cyfreithiau o'r 21ain ganrif i gyd-fynd â throseddau'r 21ain ganrif. Dyna gasgliad y cyhoedd hefyd; maent yn disgwyl safonau gwasanaeth uchel gan bob sefydliad cyhoeddus, yn gywir ddigon, ac nid yw'r system cyfiawnder troseddol yn wahanol.

Cydbwyso'r system cyfiawnder troseddol gyfan o'r newydd, o un pen i'r llall

1.20 Er gwaethaf popeth sydd wedi'i gyflawni, mae pobl yn parhau i gredu bod y system yn trin y rhai a gyhuddir o droseddu yn deg. Yn Arolwg Troseddu Prydain diweddaraf (2005/06), roedd 80 y cant o ymatebwyr o'r farn bod ein system yn trin y rhai a gyhuddir yn deg; dim ond 36 y cant oedd yn hyderus ei bod yn diwallu anghenion dioddefwyr.

1.21 Er gwaethaf cynnydd sylweddol, erys mwy y gallem ei wneud i wella'r ffordd y caiff dioddefwyr a thystion eu trin a chydbwyso'r system o'r newydd.

1.22 Mae achosion o hyd, er enghraifft, lle y canfyddir bod rheolau a rheoliadau yn rhwystro cyfiawnder synnwyr cyffredin. Er enghraifft, mae achosion lle y mae'n amlwg y caiff troseddwyr euog eu rhyddhau oherwydd pwyntiau technegol, neu lle y caiff dedfrydau troseddwyr eu lleihau'n sylweddol am eu bod wedi pledio'n euog, er eu bod wedi'u dal yn y weithred. Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol – sy'n fesurau diogelu hanfodol i bob un ohonom – wedi'u camddeall a'u camddyfynnu, gan atal y cyhoedd rhag cael eu diogelu'n briodol weithiau. Er gwaethaf diwygiadau mawr, mae ein system ddedfrydu yn dal yn rhy gymhleth ac astrus – felly, er bod llawer mwy o droseddwyr yn mynd i'r carchar yn awr na deng mlynedd yn ôl a bod dedfrydau yn y carchar yn mynd yn hwy, canfyddir ymhlith y cyhoedd bod dedfrydu yn ysgafn ac yn mynd yn ysgafnach. Gall enghreifftiau proffil uchel o ddedfrydau sy'n ymddangos yn ysgafn niweidio hyder hefyd.

1.23 Mae gennym system o hyd lle y mae'r rhai o grwpiau ethnig penodol yn fwy tebygol o gael eu harestio, o gael eu collfarnu o drosedd difrifol, ac o gael eu carcharu, a hynny'n anghymesur. Mae angen cydbwyso'r system o'r newydd o blaid y rhai sy'n ufudd i'r gyfraith; ond ni allwn oddef system cyfiawnder ychwaith sy'n cynnwys unrhyw annhegwch annatod yn seiliedig ar hil, credo neu liw.

1.24 Nid ydym yn defnyddio'r carchar yn ddigon da. Dylem egluro'n well y mathau o droseddwyr a ddylai fod yn y carchar, a'r mathau o droseddwyr y dylid eu cosbi yn y gymuned, a chyflawni gwaith asesu a lleihau risg llawer gwell.

1.25 Ar y cyfan, mae angen i ni wneud mwy i fynd i'r afael â'r troseddau y mae pobl yn pryderu amdanynt fwyaf, yn y ffordd fwyaf priodol. Mae'r cyhoedd yn gwybod beth y maent yn ei ddisgwyl gan system cyfiawnder troseddol yn yr 21ain ganrif. Mae pobl am i ni ganolbwyntio ar

droseddu difrifol a threisgar yn fwy; ond maent am i ni ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol lefel isel. Mae'r staff sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol am i ni ddarparu system fodern, syml ac effeithiol heb ormod o fiwrocratiaeth a rheoleiddio. Gallwn wneud yr holl bethau hyn a dylem fod yn eu gwneud, ond yn amlwg nid yn yr un ffordd ar gyfer pob trosedd. Mae angen i ni wneud llawer mwy i deilwra ein hymagweddau at droseddwyr a throseddau gwahanol, gan sicrhau'r ymateb priodol i gyd-fynd â'r trosedd – 'cyfiawnder doethach'.

1.26 Er mwyn gwneud hyn, mae angen i ni adeiladu ar y sylfeini yr ydym wedi'u gosod – ac ystyried sut y gallwn wneud mwy i wasanaethu'r rhai sy'n ufudd i'r gyfraith, arwain troseddwyr yn gadarn drwy bob rhan o'r broses, a symleiddio a gwella ein systemau i ategu hyn. Dim ond drwy barhau i ystyried y system gyfan gyda'n gilydd y gallwn gydbwyso'r system cyfiawnder troseddol o'r newydd o blaid y mwyafrif sy'n ufudd i'r gyfraith a dioddefwyr ac, fel rhan o hynny, gwneud mwy i ostwng troseddu, lleihau aildroseddu, a diogelu'r cyhoedd.

Y ddogfen hon – camau gweithredu ac ymgynghori

1.27 Mae'r ddogfen hon yn deillio o adolygiad a gynhaliwyd y tu mewn i'r llywodraeth, wedi'i lywio gan brofiad ac ymchwil, a chan raglen o ymweliadau gweinidogol i gasglu syniadau o'r rheng flaen. Mewn sawl maes, rydym yn hyderus ein bod yn gwybod pa gamau sydd angen eu cymryd er mwyn cydbwyso ein system o'r newydd ymhellach, ac rydym yn nodi cynigion clir ar gyfer newid yn y penodau sy'n dilyn, ynghyd ag amserlenni a cherrig milltir. Mewn meysydd eraill, rydym yn defnyddio'r ddogfen hon i ddechrau proses ymgynghori eang, ac rydym yn gwahodd sylwadau ar y cynigion rydym yn eu nodi.

1.28 Rydym wedi gwneud penderfyniad ymwybodol i gynllunio'r ddogfen hon yn ôl yr hyn y mae angen i ni ei wneud drwy'r system gyfan, o un pen i'r llall.

- Mae'r bennod nesaf, **Pennod 2, yn dechrau drwy nodi sut y byddwn yn ymateb i'r hyn y mae dioddefwyr a'r rhai sy'n ufudd i'r gyfraith am ei gael gan ein system mewn gwirionedd** – triniaeth well a llais cryfach i ddioddefwyr a thystion; dedfrydu tecach; gorfodi gwell; a phlismona mwy ymatebol.
- **Mae Pennod 3 yn ystyried sut y byddwn yn mynd i'r afael â throseddwyr** er mwyn gostwng troseddu, lleihau aildroseddu, a diogelu'r cyhoedd. Mae'n ystyried yr amrywiaeth o droseddau a throseddwyr, o fân droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a throseddwyr cyson, i droseddwyr difrifol a pheryglus y mae angen diogelu'r cyhoedd rhagddynt.
- **Mae Pennod 4 yn ystyried sut y mae angen i'n system newid** – sut y gallwn ei chydgysylltu'n fwy effeithiol, atal pwyntiau technegol a biwrocratiaeth rhag rhwystro'r broses, a gwneud y defnydd orau o dechnoleg.
- **Mae Pennod 5 yn nodi ein cynlluniau ar gyfer gweithredu, gydag amserlenni a cherrig milltir clir.**
- **Mae Pennod 6 yn dod â'r ddogfen i ben ac yn gwahodd sylwadau ar y pwyntiau ar gyfer ymgynghori.**

1.29 Mae'n amlwg mai dechrau'r cam hollbwysig hwn o'n gwaith i gydbwyso'r system o'r newydd yw'r ddogfen hon yn hytrach na diwedd y cam hwnnw. Ond credwn ei fod yn nodi cyfeiriad clir ar gyfer system 'cyfiawnder doethach' sy'n wirioneddol deg ac sy'n cyflawni ei diben o fod yn un o gonglfeini democratiaeth.

Pennod 2:

Rhoi pobl a chymunedau sy'n ufudd i'r gyfraith yn gyntaf

2.1 Os ydym o ddifrif o ran rhoi pobl sy'n ufudd i'r gyfraith yn gyntaf, mae angen i ni ddeall yr hyn y maent am ei gael fwyaf gan y system cyfiawnder troseddol. Mae Arolwg Troseddu Prydain 2004/05 yn dweud wrthym mai gostwng troseddu, dwyn pobl sy'n cyflawni troseddau gerbron y llys ac ymdrin ag achosion yn gyflym ac yn effeithlon yw'r materion pwysicaf i'r cyhoedd.

2.2 Rydym yn gwybod bod pobl am gael eu trin yn briodol os byddant yn dioddef trosedd, neu os byddant yn dyst i drosedd, maent am gael help, cefnogaeth, cyngor a chyfle i'w llais gael ei glywed. Maent am roi tystiolaeth heb ofn dial. Maent am wybod y byddent yn cael eu trin yn deg, pe baent yn cael eu harestio a'u collfarnu. Ond, yn bwysicaf, maent am weld y system yn cyflawni cyfiawnder – gyda phroses ddedfrydu decach a llai o achosion lle yr ymddengys nad yw'r troseddwr wedi'i gosbi.

2.3 Yn ogystal, rydym yn gwybod bod y cyhoedd am gael plismona cymunedol sy'n weladwy ac yn ymatebol, ac sy'n eu galluogi i fyw a gweithio heb ofn troseddu.

2.4 Byddwn yn rhoi mesurau hyder y cyhoedd wrth wraidd ein cynlluniau diwygio, gyda thargedau clir ar gyfer cynyddu hyder yn yr hyn a wnawn drwy'r system gyfan.

Trin dioddefwyr a thystion yn well

2.5 Mae'n rhaid sicrhau bod anghenion dioddefwyr wrth wraidd yr hyn y mae'r system cyfiawnder troseddol yn ei wneud o hyd. Mae'n rhaid iddynt gael eu **trin yn briodol drwy'r system gyfan** – gyda help, cefnogaeth, cyngor a chyfle i'w llais gael ei glywed. Ym mis Rhagfyr 2005, cyhoeddodd y Llywodraeth gynigion eang i wella'r gefnogaeth rydym yn ei rhoi i ddioddefwyr.

Yr hyn rydym wedi'i wneud i gefnogi dioddefwyr a thystion

Cymorth emosiynol ac ymarferol gwell

Rydym bellach yn gwario dros £230 miliwn y flwyddyn i gefnogi a digolledu dioddefwyr troseddau. Mae arian Cymorth i Ddioddefwyr wedi cynyddu i £30 miliwn yn 2005/06 – bron dair gwaith lefel 1997. Un o'r pethau y mae hyn wedi galluogi Cymorth i Ddioddefwyr i'w wneud yw sefydlu gwasanaeth i dystion ym mhob llys troseddol er mwyn rhoi cymorth i dystion ar y dydd. Rydym hefyd yn gwella gwasanaethau i dystion cyn iddynt fynd i'r llys: mae 165 o Unedau Gofal i Dystion bellach wedi'u sefydlu, wedi'u rhedeg ar y cyd gan yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron, er mwyn rhoi cyngor a chymorth i ddioddefwyr a thystion drwy'r broses gyfan – o gyhuddo i benderfyniad y llys.

Bydd ystafelloedd aros ar wahân ar gyfer diffynyddion a thystion mewn 90 y cant o lysoedd ynadon erbyn 2008. Mae gan 90 y cant o Ganolfannau Llys y Goron gysylltiadau teledu bellach i helpu dioddefwyr i roi tystiolaeth – gan leihau pwysau rhoi tystiolaeth ac ymdrin ag achosion o fygwth tystion.

Hawliau newydd a gwybodaeth well

Daeth y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau i rym ym mis Ebrill 2006 ac mae'n rhoi hawliau cyfreithiol i ddioddefwyr am y tro cyntaf. Mae'n diffinio isafswm lefel gwasanaeth y gellir ei fesur ac mae'n nodi hawl i gwyno i'r Ombwdsmon Seneddol. Rydym yn bwriadu cyflwyno Siarter y Tyst anstatudol a fydd yn nodi'r lefelau gwasanaeth y gall tystion yr erlyniad a'r amddiffyniad ddisgwyl eu cael gan asiantaethau ac ymarferwyr cyfreithiol.

Mae'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob asiantaeth cyfiawnder troseddol roi gwybodaeth well i dystion am bob pwynt allweddol o ddatblygiad eu hachos. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Gwasanaeth Prawf wedi newid eu harferion i sicrhau eu bod yn gwneud hyn, ac maent wedi cyflwyno gwasanaethau newydd i gynnig cymorth ymarferol.

Rhoi llais i ddioddefwyr a thystion

Rydym wedi cyflwyno datganiadau personol dioddefwyr – fel y gall dioddefwyr ddweud eu dweud yn y llys o ran sut y mae trosedd wedi effeithio arnynt – ac wedi newid y rheolau er mwyn caniatáu i erlynwyr siarad â dioddefwyr a thystion cyn treial. Rydym wedi sefydlu'r Panel Cynghori Dioddefwyr – grŵp o ddioddefwyr troseddau sy'n cynnig argymhellion i Weinidogion ar sut i wella'r system cyfiawnder troseddol.

Rydym yn recriwtio Comisiynydd Dioddefwyr a Thystion i hyrwyddo eu buddiannau. Bydd y Comisiynydd yn hyrwyddo buddiannau dioddefwyr ar lefelau uchaf y llywodraeth a'r cyfryngau, a bydd hefyd yn gyfrifol am adolygu'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr. Rydym hefyd yn cyflwyno cynlluniau eiriolwyr tystion peilot mewn pum lleoliad, a fydd yn rhoi cymorth gwell i berthnasau dioddefwyr lladdiad cyn treial, cymorth cyfreithiol am ddim, a'r dewis o annerch y llys yn bersonol am yr effaith y mae'r trosedd wedi'i chael arnynt (ar ôl i'r troseddwr gael ei gollfarnu, ond cyn iddo gael ei ddedfrydu).

2.6 Bwriadwn y bydd gan bob aelod newydd a gaiff ei recriwtio i'r bwrdd parôl brofiad uniongyrchol neu anuniongyrchol o ddioddef trosedd, neu bydd yn gallu dangos ymwybyddiaeth gadarn o faterion o ran dioddefwyr. Byddwn hefyd yn gwella hyfforddiant i bob aelod o fyrddau parôl mewn materion o ran dioddefwyr. Bwriadwn gyflwyno Llais y Tyst, a fydd yn golygu y gall pryderon dioddefwyr yn yr achosion rhyw a threisgar mwyaf difrifol gael eu cyflwyno'n bwerus i'r panel sy'n gwrando'r achos, yn ogystal ag ymdrin â materion o ran diogelwch y cyhoedd.

2.7 Bydd y Twrnai Cyffredinol yn nodi addewid erlynydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob erlynydd ystyried a diogelu buddiannau dioddefwyr ar bob adeg yn yr achos o gyhuddo i apêl ym mhob math o achos.

2.8 Credwn hefyd y dylai troseddwyr gyfrannu mwy i wneud iawn am eu troseddau. Rydym yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i droseddwyr treisgar dalu costau treuliau meddygol eu dioddefwyr, yn yr un ffordd ag y mae gyrrwr sydd wedi achosi damwain ar y ffordd yn talu tuag at gost unrhyw anafiadau y mae'n eu hachosi. Er mwyn ei gwneud yn haws i ddioddefwyr ddwyn achos yn erbyn troseddwyr yn y llysoedd sifil, bwriadwn ddiwygio'r gyfraith cyfyngiadau bresennol. Byddai hyn yn rhoi'r disgresiwn i'r llys ailagor achosion ar ôl cyfnodau cyfyngiadau presennol, gan ganiatáu i ddioddefwyr ddwyn achos os bydd y troseddwyr yn cael arian annisgwyl yn ddiweddarach, er enghraifft. Byddwn yn ymgynghori ar yr holl gynigion hyn.

Byddwn yn:

- sicrhau bod gan bob aelod o banelau byrddau parôl sy'n gwneud penderfyniad o ran troseddwr rhyw neu dreisgar difrifol brofiad uniongyrchol neu anuniongyrchol o ddioddef trosedd neu y gall ddangos dealltwriaeth gadarn o faterion o ran dioddefwyr;
- cyflwyno Llais y Dioddefwr yn yr achosion mwyaf difrifol a ddaw gerbron y bwrdd parôl;
- ei gwneud yn ofynnol i erlynwyr ddilyn addewid newydd i ystyried a diogelu buddiannau dioddefwyr;
- cynyddu'r iawndal y mae troseddwyr yn ei dalu, gan ei gwneud yn ofynnol i droseddwyr treisgar dalu treuliau meddygol dioddefwyr, a phwerau newydd i ganiatáu i'r llys ailagor achosion ar ôl cyfnodau cyfyngiadau presennol, gan ganiatáu i ddioddefwyr ddwyn achos, er enghraifft pe bai'r troseddwr yn cael arian annisgwyl yn ddiweddarach. Byddwn yn ymgynghori ar sut i wneud hyn.

Rheolau nad ydynt yn rhoi mantais i'r troseddwr dros y dioddefwr

2.9 Mae'n hanfodol bod gennym system cyfiawnder troseddol sy'n trin pob unigolyn mewn ffordd deg. Mae hynny'n cynnwys y rhai yr amheuir eu bod wedi cyflawni troseddau neu'r rhai a gollfarnwyd o droseddau. Mae'n rhaid trin pobl yn deg, ac mae'n rhaid dileu gwahaniaethu. Ond mae'n rhaid sicrhau nad yw hynny yn cyfyngu ar ein gallu i ddiogelu'r cyhoedd rhag niwed ac i roi'r cymorth sydd ei angen arnynt i ddioddefwyr troseddau. Mae hynny'n golygu cael y cydbwysedd cywir rhwng hawliau unigolyn a hawliau'r mwyafrif sy'n ufudd i'r gyfraith ac, yn arbennig, dioddefwyr.

2.10 Mae hawliau dynol yn polareiddio'r drafodaeth. Ar y naill law, fe'u nodweddir fel siarter y troseddwr sy'n caniatáu i'r sawl nad yw'n ei haeddu ddiystyru'r system drwy hawlio hawliau na ddylent fod yn gymwys i'w hawlio, a hynny mewn ffordd dwyllodrus. Ar y llaw arall, fe'i hystyrir yn rhestr annhoradwy o hawliau y mae'n rhaid i'r wladwriaeth eu bodloni am byth waeth pa un a ydynt yn gwrthdaro â hawliau diogelwch y cyhoedd neu nad ydynt yn adlewyrchu'r realiti byd-eang mwyach. Nid yw'r naill farn na'r llall yn ein helpu. Mae angen i ni gael trafodaeth resymol sy'n cydnabod bod yn rhaid i ni fabwysiadu ymagwedd gadarn tuag at sicrhau hawliau ond sydd hefyd yn cydnabod, lle y bo'r rhain yn gwrthdaro, bod yn rhaid cymhwyso cydbwysedd sydd yn briodol yn sicrhau diogelwch y mwyafrif sy'n ufudd i'r gyfraith mewn cyd-destun byd-eang newidiol.

2.11 Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn rhoi fframwaith pwerus i gyflawni hyn. Rydym wedi adolygu'r Ddeddf Hawliau Dynol, gan edrych yn arbennig ar y ffordd y mae'n effeithio ar y system cyfiawnder troseddol.

2.12 Nid yw'r Llywodraeth yn derbyn y ddadl y dylem ddiddymu'r Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn rhoi grym i ddarpariaethau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yng nghyfraith y DU, yr ydym wedi ymrwymo iddynt am dros hanner canrif. Mae hyn yn nodi'r hawliau sy'n cynrychioli egwyddorion sylfaenol gwedduster dynol, ond mae hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n caniatáu'r union fath o ymagwedd gytbwys sy'n caniatáu i'r llysoedd bwyso a mesur rhyddid yr unigolyn yn erbyn hawl aelodau'r cyhoedd i gael eu diogelu.

2.13 Ond byddwn yn mynd ati'n gadarn i ymdrin â'r meysydd lle y mae Llys Hawliau Dynol Ewrop yn Strasbourg yn dehongli'r Confensiwn mewn ffordd sy'n ein hatal rhag cymhwyso cydbwysedd priodol yn effeithiol. Yn achos Chahal yn 1996, canfu'r Llys (o fwyafrif bach iawn) na allai Llywodraeth y DU ystyried diogelu'r cyhoedd fel ffactor cydbwyso wrth ddadlau'r achos dros alltudio person peryglus. Credwn fod hyn yn groes i'r egwyddor sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol y gellir cydbwyso hawliau unigol a hawliau ar y cyd â'i gilydd ac y dylid gwneud hynny. Dyna pam, yng nghyd-destun y bygythiad presennol a gaiff ei beri i'r wlad hon a'i phobl gan derfysgaeth ryngwladol, yr ydym yn gweithio gyda'n partneriaid yn Ewrop i herio hyn mewn ffordd mor gadarn â phosibl.

2.14 Yn ogystal, mae angen i ni wneud mwy i sicrhau na chaiff y Ddeddf Hawliau Dynol ei chamddehongli er mwyn atal camau rhag cael eu cymryd i ddiogelu'r cyhoedd. Yng ngoleuni achosion diweddar megis llofruddiaeth drasig Naomi Bryant, rydym yn cynnal adolygiad trylwyr o'r ffordd y mae'r heddlu, gwasanaethau prawf a pharôl a'r gwasanaeth carchardai yn cydbwyso diogelu'r cyhoedd a hawliau'r unigolyn a hawliau ar y cyd. Os bydd angen, byddwn yn deddfu er mwyn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu'r cyhoedd. Gallai hyn gynnwys gofyniad i asiantaethau rannu data i ddiogelu'r cyhoedd – er mwyn egluro na ddylai'r Ddeddf Diogelu Data rwystro hyn.

2.15 Byddwn yn cyfyngu ar allu'r rhai y mae'r llysoedd yn cytuno eu bod yn euog i gael eu collfarnau wedi'u dileu oherwydd pwynt

technegol, a byddwn yn ymgynghori ar sut i wneud hyn.

2.16 Mewn achosion eraill, mae sefydliadau neu unigolion yn rhy ofalus wrth ddehongli hawliau croes. Weithiau, mae achosion a gaiff eu camadrodd yn cael eu credu ac yn dod yn fythau trefol, gan feithrin syniad o system sydd wedi'i gwyro o blaid y troseddwr mewn ffordd sydd y tu hwnt i synnwyr cyffredin. Er mwyn gwrthsefyll hyn, byddwn yn rhoi cyngor ac arweiniad 'chwalu mythau' ymarferol gwell i'r rhai sy'n gweithio ar y rheng flaen – a fyddai, er enghraifft, yn ymdrin â materion megis cytuno â heddluoedd ar yr amgylchiadau lle y gellid cyhoeddi lluniau o bobl.

2.17 Byddwn yn creu gwasanaeth cynghori i ganiatáu i ymarferwyr rheng flaen gael mynediad ar-lein cyflym i adnoddau cyfreithiol perthnasol – fel y gallant gadarnhau'n gyflym os byddant yn pryderu y gallai rhywbeth y maent am ei wneud wrthdaro â'r Ddeddf Hawliau Dynol a yw hynny'n wir ai peidio. Byddwn hefyd yn sefydlu proses adolygu arferol drwy banel craffu (yn cynnwys ymarferwyr a chyfreithwyr) gan fod yn atebol i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol, a fydd yn craffu ar y ffordd y cymhwysir hawliau ac yn sicrhau bod yr ymagwedd tuag at weinyddu yn gadarn ac yn deg. Bydd yn cynnig newidiadau pellach i'r gyfraith a chanllawiau lle y mae'n canfod problemau neu ddiffyg cydbwysedd.

Byddwn yn:

- herio dyfarniadau (yn enwedig dyfarniad Chahal) sy'n ein hatal rhag cydbwyso hawliau unigol â diogelu'r cyhoedd yn briodol;
- esbonio bod gan bob asiantaeth cyfiawnder troseddol berthnasol ddyletswydd i ddiogelu'r cyhoedd ac efallai y byddwn yn deddfu i danlinellu hyn;
- cyfyngu ar allu'r rhai sy'n amlwg yn euog i gael eu collfarnau wedi'u dileu oherwydd afreoleidd-dra gweithdrefnol a byddwn yn ymgynghori ar y ffordd orau o gyflawni hyn yn ymarferol;
- rhoi cyngor cadarn, ymarferol, sy'n chwalu mythau i ymarferwyr ar sut y dylid cydbwyso hawliau rhwng troseddwyr a'r gymuned ehangach;
- sefydlu gwasanaeth cynghori er mwyn i staff rheng flaen (megis yr heddlu) gael cyngor clir ar gymhwyso hawliau croes.

Dedfrydu tecach, gan ddiwallu anghenion y gymuned

2.18 Mae'n rhaid i'r llysoedd gyhoeddi dedfrydau sy'n diogelu'r cyhoedd ac yn gostwng troseddu. Mae enghreifftiau proffil uchel o ddedfrydau ysgafn a chymhlethdod amlwg y broses wedi peri pryder ymhlith y cyhoedd nad yw hyn yn digwydd.

2.19 Mae'r Llywodraeth wedi cymryd camau eisoes i sicrhau'r dedfrydau cadarn a chyson y mae'r cyhoedd yn eu disgwyl, yn gywir ddigon. Cyflwynwyd y Cyngor Canllawiau Dedfrydu gennym i hyrwyddo mwy o gysondeb wrth ddedfrydu. Newidiwyd y system gan Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, a gyflwynwyd yn 1991, a olygodd fod carcharorion a oedd wedi cyflawni troseddau difrifol iawn yn cael eu rhyddhau'n awtomatig ar ôl bwrw dwy ran o dair o'u dedfryd waeth beth fo'r perygl yr oeddent yn ei beri i'r cyhoedd.

2.20 O ran troseddwyr difrifol y bernir eu bod yn peri risg i'r cyhoedd, rydym bellach wedi darparu dedfrydau anghyfyngedig (dedfrydau penagored i ddiogelu'r cyhoedd), sy'n golygu mai dim ond ar ôl i'r bwrdd parôl farnu nad yw troseddwyr yn fygythiad i'r cyhoedd mwyach y gellir eu rhyddhau. Mewn rhai achosion, ni fydd hyn byth yn wir – felly bydd carchar am oes yn golygu carchar am oes. Mae'r dedfrydau hyn yn cael eu defnyddio gan ddedfrydwyr eisoes. Rhwng mis Ebrill 2005 a mis Gorffennaf 2006, rhoddwyd y dedfrydau anghyfyngedig hyn i tua 1,120 o droseddwyr.

2.21 Ond, er gwaethaf y cynnydd hwn a pharodrwydd y llysoedd i ddefnyddio'r dedfrydau newydd, nid ydym wedi argyhoeddi'r cyhoedd bod y broses ddedfrydu yn ddigon llym i'r troseddwyr mwyaf peryglus. Felly rydym wedi edrych o'r newydd ar y system. Mae'r adolygiad hwn wedi nodi nifer o faterion y mae angen ymdrin â hwy.

Gostyngiadau oherwydd pledion euog

2.22 Mae'n amlwg bod rhesymau synhwyrol dros roi dedfryd fyrrach i droseddwyr os byddant yn pledio'n euog ar yr adeg gynharaf bosibl. Heb hyn, byddai troseddwyr yn cael eu cymell bob amser i bledio'n ddieuog, gan obeithio osgoi cael eu collfarnu. Mae pledio'n euog hefyd yn golygu nad oes yn rhaid i'r dioddefwr a'i deulu wynebu achosion llys hir. Ond mae'r rheolau presennol yn rhy gyfyngol, yn enwedig lle y mae troseddwr wedi'i ddal yn y weithred. Rydym am roi mwy o ddisgresiwn i farnwyr, fel nad oes yn rhaid iddynt leihau'r ddedfryd leiaf y byddant yn ei rhoi mwyach o draean, waeth beth fo'r amgylchiadau. Yn y dyfodol, dylai barnwyr fod yn gallu lleihau neu ddileu'r gostyngiad am ble euog cynnar yn gyfan gwbl lle y mae tystiolaeth ddiwrthdro yn erbyn y diffynnydd.

2.23 Byddwn hefyd yn newid y rheolau o ran yr hyn sy'n digwydd pan fydd y Twrnai Cyffredinol yn cyfeirio achos at y Llys Apêl am fod yn rhy ysgafn. Ar hyn o bryd, mae'r Llys yn rhoi gostyngiad i'r troseddwr pan gaiff ei ailddedfrydu er mwyn adlewyrchu'r pryder yr honnir eu bod yn teimlo yn sgîl wynebu ail wrandawiad dedfrydu. Rydym wedi diddymu'r arfer hwn eisoes ym mhob achos llofruddiaeth a byddwn bellach yn ei ddiddymu ar gyfer pob dedfryd o garchar am oes a phob dedfryd anghyfyngedig a byddwn yn cyfyngu arno ar gyfer dedfrydau eraill.

Dyddiadau parôl ar gyfer y rhai sydd wedi cael dedfryd o garchar am oes neu ddedfrydau anghyfyngedig

2.24 Ar hyn o bryd, pan fydd barnwyr yn rhoi dedfryd anghyfyngedig, gan gynnwys dedfryd o garchar am oes, maent yn egluro'r **cyfnod lleiaf** y mae'n rhaid i'r troseddwr ei fwrw yn y carchar. Er mwyn cyfrifo hyn, maent yn penderfynu ar dariff at ddibenion cosbi ac wedyn yn pennu'r dyddiad rhyddhau posibl cyntaf hanner ffordd drwy'r tariff hwn.

2.25 Mewn gwirionedd, ychydig iawn o droseddwyr sydd wedi cael dedfrydau anghyfyngedig a ryddheir hanner ffordd drwy eu dedfryd – dyna'r pwynt cynharaf y gall y bwrdd parôl ystyried eu rhyddhau. Ond mae'n rhoi'r argraff i'r cyhoedd y gallai pobl beryglus gael eu rhyddhau ar ôl cyfnod byr iawn; a chredwn ei bod yn anghywir cymhwyso'r egwyddor hon yn awtomatig er mwyn 'haneru' tariffau dedfrydau troseddwyr peryglus. Byddwn yn ymgynghori ar amrywiaeth o opsiynau ar gyfer dod â'r arfer hwn i ben a byddwn yn rhoi'r disgresiwn i'r llysoedd fynnu bod troseddwyr peryglus yn bwrw cyfran uwch o'u tariff.

Dyddiadau rhyddhau ar gyfer dedfrydau penderfynedig

2.26 O dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003, mae troseddwyr sy'n cael dedfrydau penderfynedig (â therfyn amser) am droseddau di-drais neu droseddau treisgar llai difrifol yn awtomatig yn bwrw hanner eu dedfrydau yn y carchar a hanner yn y gymuned, o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf.

2.27 Byddwn yn ystyried yn ofalus pa un a ddylid rhoi **mwy o ddisgresiwn i farnwyr** nodi nifer fach o droseddwyr â dedfrydau penderfynedig nad yw eu troseddau yn ddigon difrifol iddynt gael troseddau anghyfyngedig, ond na ddylid eu rhyddhau serch hynny hanner ffordd drwy eu dedfryd yn awtomatig, oherwydd pryderon difrifol ynghylch y risgiau y maent yn eu peri.

2.28 Wrth i ni ymdrin â'r materion hyn, byddwn yn dechrau ymgynghoriad ehangach â'r cyhoedd ar sut y gallwn ddiwygio trefniadau dedfrydu a rhyddhau er mwyn adfer hyder y cyhoedd, a sicrhau bod dedfrydu yn gliriach ac yn haws ei ddeall.

Cyngor Canllawiau Dedfrydu

2.29 Byddwn yn gweithio gyda'r Cyngor Canllawiau Dedfrydu i symleiddio'r broses ar gyfer datblygu a chyhoeddi canllawiau dedfrydu, a'i gwneud yn gliriach i'r cyhoedd. Ar hyn o bryd, cyhoeddir cynigion o ran yr un canllaw sawl gwaith – ceir canllaw drafft, wedyn ymateb gan y Llywodraeth, wedyn ymateb gan y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref, ac yn olaf y canllaw terfynol. Gall hyn arwain at ddryswch a dyblygu gwaith. Byddwn yn archwilio ar y cyd â'r Cyngor pa un a ellir symleiddio hyn.

2.30 Credwn hefyd y byddai'n gwneud mwy o synnwyr pe ceid barn y Senedd wedi'i mynegi drwy'r Pwyllgor Dethol cyn barn y Llywodraeth, fel y gall yr Ysgrifennydd Cartref a'r Gweinidogion cyfiawnder troseddol fyfyrio ar y canllaw drafft a barn y Pwyllgor Dethol, ymateb i'r canllaw drafft a nodi a yw'r canllaw drafft yn gyson â'r ddeddfwriaeth berthnasol, yn eu barn hwy.

Ymgynghori pellach

2.31 Yn yr adolygiad hwn, rydym yn cymryd camau clir i ymdrin â rhai materion sy'n peri pryder ar unwaith. Ond mae'r Ysgrifennydd Cartref, yr Arglwydd Ganghellor a'r Twrnai Cyffredinol yn credu bod cyfres ehangach o faterion y mae angen eu trafod yn fanylach hefyd. Felly bydd y tri Gweinidog yn cynnal ymgynghoriad ar amrywiaeth o faterion o ran dedfrydu a materion cysylltiedig maes o law. Bydd hyn yn cynnwys cynigion ar sut i wneud penderfyniadau dedfrydu yn gliriach a pha un a ddylid rhoi mwy o ddisgresiwn i farnwyr ynghylch cadw carcharorion yn y carchar ar ôl hanner ffordd drwy eu dedfryd os yw'n amlwg eu bod yn peri risg ddifrifol i'r cyhoedd, er nad yw'r trosedd yn ddigon difrifol i gyfiawnhau dedfryd anghyfyngedig.

Byddwn yn:

- rhoi disgresiwn i farnwyr derfynu'r gostyngiad awtomatig o draean os bydd person yn pledio'n euog yn gynnar;
- atal troseddwyr a ailddedfrydir ar ôl apêl yn erbyn dedfryd ysgafn rhag cael gostyngiad mewn dedfryd oherwydd y trallod o gael eu dedfrydu eto;
- newid y ffordd y mae'r Cyngor Canllawiau Dedfrydu yn gweithio fel mai'r Ysgrifennydd Cartref a Gweinidogion cyfiawnder troseddol yw'r olaf i roi cyngor ar ganllawiau;
- ymgynghori'n eang ar sut y gallwn wneud y broses ddedfrydu yn gliriach;
- terfynu'r gofyniad y dylai barnwyr bennu'r dyddiad rhyddhau posibl cynharaf yn awtomatig hanner ffordd drwy'r tariff cosbi i'r rhai sy'n bwrw dedfrydau anghyfyngedig, ac ymgynghori ar opsiynau eraill ar gyfer pennu'r dyddiad posibl cyntaf ar gyfer parôl;
- ymgynghori ymhellach ar ba un a ddylid rhoi mwy o ddisgresiwn i'r llysoedd gadw rhai carcharorion sy'n bwrw dedfrydau cyfnod penodedig yn y carchar ar ôl hanner ffordd drwy eu dedfryd, lle y ceir risgiau clir ac arwyddocaol i'r cyhoedd.

Cydymffurfio a gorfodi

2.32 Yn ogystal â sicrhau y caiff dedfrydau priodol eu rhoi, mae'r cyhoedd yn disgwyl i'r system eu gorfodi'n effeithiol gan weithredu mesurau cadarn er mwyn sicrhau bod pobl yn cydymffurfio â gorchmynion llys. Heb hynny, ni fydd y cyhoedd – a'r troseddwr, a hynny'n bwysig – yn parchu'r system. Mae perfformiad wedi gwella eisoes. Rydym wedi cynyddu faint o ddirwyon a orfodir, a gostyngwyd nifer y gwarantau 'heb ymddangos' nas ymdriniwyd â hwy 28 y cant yn 2005/06. Ond mae'n rhaid i ni wneud mwy. Lle nad yw troseddwyr yn cydymffurfio, mae'n rhaid i ni sicrhau bod cosbau difrifol am dorri amodau.

2.33 Gyda phartneriaid ar draws y Llywodraeth, byddwn yn cyflwyno Gwasanaeth Gorfodi Cenedlaethol i fynd i'r afael â'r rhai nad ydynt yn talu dirwyon neu nad ydynt yn cydymffurfio â gorchmynion y llys. Erbyn 2007/08, bydd y Gwasanaeth yn bartneriaeth rhwng asiantaethau cyfiawnder troseddol (gan gynnwys yr heddlu) yng Nghymru a Lloegr, gan gynnig:

- proses rhannu cudd-wybodaeth a data lawer gwell;
- cydweithredu gwell rhwng asiantaethau er mwyn prosesu gwarantau yn gyflymach a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon;
- targedu'r rhai nad ydynt yn cydymffurfio mewn ffordd ddoethach, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y rhai nad ydynt yn talu dirwyon yn fwriadol, y rhai sy'n ffoi dan fechnïaeth ac sy'n torri amodau cosbau cymunedol;
- gweithredu arferion gorau mewn ffordd systematig gan gynnwys y gwersi a ddysgwyd o Operation Payback a Turn-Up;
- corff mwy proffesiynol o asiantau gorfodi;
- dulliau gwell ac offer arbenigol, gan gynnwys cysylltiadau â Chyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu a chronfa ddata asiantaeth gwirio credyd ar gyfer staff rheng flaen.

2.34 Rydym wedi newid y gyfraith eisoes i sicrhau pan fydd **troseddwr yn torri amodau gorchymyn cymunedol**, bod yn rhaid i ddedfrydwyr wneud rhywbeth ynghylch hynny. Nid yw rhoi cyfle arall i'r troseddwr gyflawni ei gosb gymunedol na dirwy (fel y gwnaed yn y gorffennol) yn opsiwn mwyach. Ym mhob achos lle nad yw troseddwr wedi cydymffurfio â'i orchymyn, mae'n **rhaid** i'r ynad neu'r barnwr ei gosbi bellach, naill ai drwy gosb gymunedol ychwanegol (er enghraifft, mwy o oriau o waith di-dâl) neu drwy gyfnod yn y carchar, hyd yn oed os nad oedd modd cosbi'r ddedfryd wreiddiol drwy roi dedfryd o garchar.

2.35 Gan weithio gyda'i gilydd, mae staff prawf a staff y llysoedd yn ymdrin yn well â throseddwyr nad ydynt wedi cydymffurfio â'u gorchmynion. Ond mae anfon troseddwyr i'r llys i gael eu dedfrydu am beidio â chydymffurfio â'u gorchymyn llys yn broses lafurus. Mae'n gwastraffu adnoddau'r llysoedd ac yn gadael i droseddwyr fynd heb eu cosbi am rhy hir.

2.36 Dylai bob amser fod yn agored i'r swyddog goruchwylio ddychwelyd rhywun i'r llys y mae ei achos o beidio â chydymffurfio â'i orchymyn yn golygu bod angen ei gosbi'n llawer mwy llym. Ond dylai staff prawf proffesiynol fod yn gallu ymdrin â'r rhan fwyaf o achosion o ddiffyg cydymffurfio eu hunain. Felly byddwn yn ymgynghori ar roi'r pŵer i reolwyr troseddwyr – o fewn fframwaith a bennir gan y llys ar adeg y ddedfryd – amrywio'r gosb y mae troseddwr yn ei bwrw gan ddibynnu ar eu hymddygiad, heb orfod dychwelyd i'r llys.

2.37 Rydym hefyd am sicrhau yr ymdrinnir â phobl sy'n **ffoi dan fechnïaeth**, drwy fethu â mynd i'r llys, yn gyflym ac yn effeithiol. Rydym wedi gostwng nifer y gwarantau heb ymddangos nas ymdriniwyd â hwy dros 43 y cant o 65,321 i 37,339 ers mis Awst 2004 ac mae gennym darged i ostwng hyn i 33,598 erbyn mis Mawrth 2007. Hysbysir yr heddlu bellach o ryw 90 y cant o warantau heb fynychu gan y llysoedd o fewn diwrnod gwaith o gymharu â dim ond 61 y cant ym mis Ebrill 2005.

2.38 Rydym hefyd wedi bod yn annog pobl i gymhwyso Cyfarwyddyd Arfer yr Arglwydd Brif Ustus ar Fechnïaeth. Mae'r cyfarwyddyd arfer yn hyrwyddo'r defnydd o dreialon yn absenoldeb y diffynnydd lle nad yw'n dod, fel nad yw absenoldeb y diffynnydd yn peri anghyfleuster i'r dioddefwyr a'r tystion neu fel nad yw'n golygu eu bod yn teimlo'n rhwystredig, ac mae hefyd yn annog erlyn trosedd y Ddeddf Mechnïaeth lle nad yw'r diffynnydd wedi ymddangos. Ond, cyhoeddwyd dros 160,000 o warantau y llynedd am na fynychodd diffynyddion y llys ac felly mae gormod o bobl nad ydynt yn ymddangos o hyd ac mae'n cymryd gormod o amser o hyd i'w dal ac ymdrin â hwy.

2.39 Mae angen i ni gyfleu neges glir i bobl nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau mechnïaeth y gallant ddisgwyl:

- cael eu dal yn gyflym;
- gorfod dychwelyd i'r llys yn gyflym;
- cael triniaeth gadarn gan y llysoedd yn hytrach na rhoi mechnïaeth iddynt eto.

2.40 Mae ardaloedd cyfiawnder troseddol lleol bellach yn casglu data o ran pa mor gyflym y mae'r rhai sy'n torri amodau mechnïaeth yn dychwelyd i'r llys. Byddwn yn pennu targedau lleol a chenedlaethol ar gyfer cyflymder rhoi gwarantau mewn ymgynghoriad ag ardaloedd lleol, er mwyn eu gweithredu o fis Ebrill 2007. Bydd y targedau hyn yn blaenoriaethu sicrhau bod y troseddwyr mwyaf difrifol a mwyaf cyson yn dychwelyd i'r llys yn gyflym.

2.41 Unwaith y bydd yr heddlu wedi dod o hyd i rywun sy'n torri amodau mechnïaeth, mae'n hollbwysig y gall gymryd camau effeithiol. Ar hyn o bryd, gall y llysoedd gyhoeddi 'gwarant gyda mechnïaeth' neu 'warant heb fechnïaeth' pan na fydd rhywun ar fechnïaeth yn mynychu. Ond mae gwarantau gyda mechnïaeth ond yn golygu y caiff y person nad yw wedi mynychu ddarn arall o bapur yn dweud wrtho am ymddangos yn y llys ar ryw ddyddiad yn y dyfodol. Felly byddwn yn cyfyngu ar y defnydd o warantau gyda mechnïaeth, fel y gall unrhyw un nad yw'n ymddangos yn y llys mewn ymateb i fechnïaeth, ac eithrio'r rhai sydd wedi cyflawni mân droseddau, ddisgwyl cael ei roi yn y ddalfa cyn gynted ag y deuir o hyd iddo hyd nes y gall ymddangos gerbron y llys.

2.42 Byddwn hefyd yn defnyddio technoleg newydd i sicrhau ymateb cyflymach a mwy effeithiol i'r rhai nad ydynt yn ymddangos yn y llys. Er enghraifft, rydym yn gweithio gyda Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Llundain i gyflwyno cysylltiadau teledu byw rhwng canolfannau cyhuddo'r heddlu a'r llysoedd, ac i ehangu oriau gwaith y llysoedd fel y gallant ymdrin ag achosion ar unwaith drwy gysylltiad teledu byw. Byddwn yn deddfu er mwyn sicrhau y gellir defnyddio'r ymagwedd hon ar gyfer y rhai sy'n torri amodau mechnïaeth.

2.43 Pan fydd rhywun sy'n torri amodau mechnïaeth yn ymddangos gerbron y llysoedd, mae'n hanfodol bod gan ddedfrydwyr yr amrywiaeth o bwerau sydd eu hangen i gymryd camau effeithiol i'w atal rhag torri amodau mechnïaeth eto. Rydym wedi cyflwyno system tagio electronig ar gyfer y rhai ar fechnïaeth lle y mae'r llysoedd o'r farn y byddai hyn yn ffordd effeithiol o atal rhywun rhag torri amodau mechnïaeth eto, a chaiff gorchmynion newydd eu cyhoeddi eisoes ar gyfradd o dros 100 o ddiffynyddion yr wythnos.

2.44 A byddwn yn gweithredu Adrannau 14 a 15 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn raddol yn genedlaethol gan ddechrau gyda throseddau mwy difrifol erbyn mis Rhagfyr 2006. Wedyn bydd yn ofynnol i'r llysoedd weithredu yn ôl rhagdybiaeth newydd y caiff troseddwyr nad ydynt yn ymddangos yn y llys pan fo'n ofynnol iddynt wneud hynny neu sy'n cyflawni trosedd arall tra eu bod ar fechnïaeth eu cadw yn y ddalfa.

2.45 Byddwn hefyd yn sicrhau **y caiff troseddwyr sy'n torri eu trwyddedau eu hailalw yn**

gyflym ac yn effeithlon. Gwneir penderfyniadau ailalw bellach yn llawer cyflymach nag yn y gorffennol ond, unwaith y gwnaed y penderfyniad, mae'n dal i gymryd gormod o amser mewn rhai ardaloedd i droseddwyr ddychwelyd i'r carchar. Byddwn yn ymgynghori â Byrddau Cyfiawnder Troseddol lleol ac asiantaethau gorfodi ar gyflwyno targed ar gyfer canran y troseddwyr a gaiff eu hailalw sy'n dychwelyd i'r carchar o fewn pedwar diwrnod ac, ar gyfer y troseddwyr mwyaf difrifol, o fewn 24 awr.

Byddwn yn:

- cyflwyno gwasanaeth gorfodi integredig yn genedlaethol erbyn 2007/08;
- cyflymu'r broses o ailalw troseddwyr sy'n torri amodau eu trwydded i'r carchar, gan gynnwys targed llym newydd ar gyfer troseddwyr difrifol;
- dechrau proses weithredu genedlaethol fesul cam o ran rhagdybiaeth yn erbyn mechnïaeth i'r rhai sy'n dianc neu'n troseddu tra eu bod ar fechnïaeth, gan ddechrau gyda throseddwyr mwy difrifol;
- cyflymu'r broses o ddychwelyd diffynyddion ar fechnïaeth nad ydynt yn ymddangos i'r llys drwy gyfyngu ar y defnydd o 'warantau â mechnïaeth'. Byddwn yn ymgynghori ar sut i wneud hynny;
- ymgynghori ar roi'r pŵer i staff prawf amrywio'r gosb y mae troseddwr yn ei chael gan ddibynnu ar ei ymddygiad, heb orfod dychwelyd i'r llys;
- ymgynghori ar dargedau newydd ar gyfer dychwelyd y rhai sy'n torri mechnïaeth i'r llys yn gyflymach, a defnyddio cysylltiadau teledu byw rhwng yr heddlu a'r llys i wneud hynny'n haws.

Cyfiawnder cymunedol

2.46 Yn ogystal â sicrhau bod gan y cyhoedd fwy o hyder yn y broses ddedfrydu ac y caiff y dedfrydau hynny eu gorfodi'n fwy effeithiol, mae angen i ni ymdrin â'r canfyddiad ehangach nad yw'r system cyfiawnder troseddol yn cyd-fynd â realiti bywyd modern mwyach, a'i bod yn bell o'r cymunedau sydd fwyaf tebygol o ddioddef troseddu. Yn aml, mae'r cymunedau hynny yn gweld troseddwyr yn gwneud difrod ac yn tarfu ar gymunedau, ac efallai y cânt eu harestio, ond ymddengys na chymerir unrhyw gamau yn eu herbyn cyn eu bod yn dychwelyd i'r gymuned, gan wneud yr un pethau ag o'r blaen.

2.47 Mae'n hanfodol nid yn unig ein bod yn gwneud mwy i ddwyn troseddwyr gerbron y llys, ond bod y gymuned yn ymwneud yn fwy â'r broses gyfan. Yn arbennig, mae'n hollbwysig bod barnwyr ac ynadon yn ymwneud llawer mwy â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae Canolfan Cyfiawnder Cymunedol Gogledd Lerpwl a Menter Cyfiawnder Cymunedol Salford yn dangos y gall hyn gael ei wneud.

Cyfiawnder Cymunedol yng Ngogledd Lerpwl

Yng Ngogledd Lerpwl, mae'r Barnwr Fletcher yn cyfarfod yn rheolaidd â thrigolion lleol drwy'r Grŵp Cyfeirio Cymunedol a'r Grŵp Cyfeirio Pobl Ifanc. Mae'r grwpiau hyn yn ystyried y rhestr o droseddau y mae'r Ganolfan Cyfiawnder Cymunedol yn rhoi blaenoriaeth iddynt, ac yn awgrymu tasgau o fewn yr ardal i'w hychwanegu at y rhestr i droseddwyr eu gwneud fel gwaith di-dâl. Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus 'cyfarfod â'r barnwr' hefyd lle y gallai pobl glywed am y gwaith y mae'r Ganolfan yn ei wneud, gofyn cwestiynau, a chynnig awgrymiadau.

Mewn cyfarfod o'r fath, nododd y gymuned fod problem o ran puteiniaid mewn stryd leol. Nid oedd trigolion am gerdded ar hyd y stryd honno ac roedd hyn yn golygu ei fod yn rhannu'r gymdogaeth yn ddwy. Addawodd y barnwr wneud rhywbeth i helpu. Yn sgîl ymagwedd tîm y Ganolfan, lansiodd yr heddlu ymgyrch i arestio puteiniaid a phlagwyr pen ffordd, a dygwyd y diffynyddion gerbron y llys yn gyflym. Fel rhan o'u dedfryd, cafodd trwyddedau gyrru'r plagwyr pen ffordd eu hatal fel na allent droseddu mewn ardaloedd eraill.

2.48 Byddwn yn cyflwyno mwy o fentrau cyfiawnder cymunedol o'r math hwn mewn ardaloedd o Gymru a Lloegr a ddewisir ar sail dadansoddiad o ffactorau troseddu ac amddifadedd cymdeithasol ac, ar ôl ymgynghori, bydd yr Arglwydd Ganghellor yn cyhoeddi'r ardaloedd hyn maes o law.

2.49 Byddwn hefyd yn gwneud mwy ledled y wlad i ddatblygu cyfiawnder adferol – lle y mae troseddwyr yn gwneud iawn i'r dioddefwyr neu'r gymuned am y niwed y maent wedi'i achosi. A byddwn yn adeiladu ar ymagweddau megis Panelau Troseddau Ieuenctid – lle y mae aelodau o'r gymuned yn llunio contractau gyda throseddwyr ifanc o ran yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud fel rhan o'u dedfrydau am droseddau y maent yn eu cyflawni am y tro cyntaf.

2.50 Byddwn yn parhau i ehangu ein menter Addalu Cymunedau lwyddiannus. Mae hyn yn sicrhau bod y 5 miliwn o oriau o waith di-dâl gorfodol a wneir gan droseddwyr yn fwy gweladwy i'r cyhoedd, ac yn rhoi'r cyfle i bobl leol (gan gynnwys dioddefwyr troseddau) nodi pa waith y dylai troseddwyr ei wneud yn y gymuned, gyda thaflenni a gwefannau yn annog pobl i ddewis cynlluniau penodol. Mae logo Addalu Cymunedol gweladwy iawn yn dangos lle y mae gwaith wedi'i wneud gan droseddwyr. Yn Ipswich, mae troseddwyr wedi glanhau graffiti o waliau parciau ac adeiladau a glanhau maes chwarae i blant.

2.51 Mae angen i'n system wneud mwy i drin pob cymuned yn gyfartal. Rydym wedi gwneud llawer o gynnydd wrth sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am gyflawni cyfraith a threfn yn hyrwyddo cydraddoldeb, nad ydynt yn gwahaniaethu, eu bod yn mynd i'r afael â hiliaeth a throseddu hiliol. Ond mae pobl dduon yn parhau i fod chwe gwaith yn fwy tebygol o gael eu stopio a'u chwilio a thair gwaith yn fwy tebygol o gael eu harestio na phobl wyn. Mae'n debygol bod y diffyg cydbwysedd hwnnw yn deillio o amrywiaeth o ffactorau, ond nid yw ein data presennol yn nodi'n ddigon manwl lle yn ein system y mae hynny'n digwydd, nac i ba raddau y mae'n deillio o wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol, sy'n golygu ei bod yn anos mynd i'r afael ag ef. Byddwn yn diwygio'r ystadegau ethnigrwydd presennol a gesglir o dan Adran 95 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1991 yn sylfaenol, a'u defnyddio i wella perfformiad. Byddwn hefyd yn ymgynghori'n eang â phob cymuned ar beth arall y gallwn ei wneud; a byddwn yn gweithredu'r adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Dasglu Race for Justice ar sut i wella'r ffordd y caiff troseddau â chymhelliad casineb hiliol a chasineb crefyddol eu trin.

Byddwn yn:

- cyflwyno'r ymagwedd cyfiawnder cymunedol i fwy o ardaloedd;
- ehangu'r cynllun Ad-dalu Cymunedol, sy'n rhoi'r cyfle i gymunedau ddewis pa waith di-dâl y mae troseddwyr yn ei wneud;
- diwygio'r ffordd y dygir y system cyfiawnder troseddol i gyfrif am y ffordd y mae'n trin pobl o bob cymuned ethnig, a byddwn yn gweithredu rhaglen waith i wella'r ymateb i droseddau a ysgogir gan gasineb hiliol a chasineb crefyddol.

Plismona gweladwy, ymatebol ac atebol

2.52 Mae gan yr heddlu ran hollbwysig i'w chwarae i sicrhau bod y system cyfiawnder troseddol yn ymateb i anghenion lleol yn effeithiol. Yr heddlu sy'n gwarchod y system cyfiawnder troseddol a dyma'r asiantaeth y mae'r cyhoedd yn fwyaf tebygol o ddod i gysylltiad â hi. Rydym wedi gwneud llawer eisoes i sicrhau ei fod yn fwy ymatebol, yn atebol yn lleol ac yn canolbwyntio fwy ar y dinesydd. Rydym wedi dechrau cyflwyno plismona cymdogaeth ledled Cymru a Lloegr, a bydd gennym dîm penodedig ym mhob ardal erbyn mis Ebrill 2008. Mae a wnelo plismona cymdogaeth â thimau lleol yr heddlu sy'n wirioneddol weladwy ac ymatebol i bobl, ac sy'n ymdrin â'r troseddu a'r ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n peri pryder iddynt yn effeithiol. Mae'r Llywodraeth, yr heddlu ac awdurdodau'r heddlu wedi cychwyn ar raglen fawr i ddiwygio a moderneiddio gweithlu'r heddlu i ategu plismona gwell.

2.53 Er mwyn helpu'r heddlu i fod yn weladwy ac er mwyn rhoi'r sicrwydd hwn yn lleol, rydym yn cynyddu nifer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i 16,000 erbyn 2007. Y nod fydd cynyddu'r nifer i 24,000 mewn ymgynghoriad â gwasanaethau'r heddlu ac mewn ffordd sydd wedi'i theilwra i adlewyrchu amgylchiadau lleol.

2.54 Rydym hefyd yn cyflwyno cyfres o safonau gwasanaeth a fydd ar waith ym mhob heddlu erbyn mis Tachwedd 2006, er mwyn sicrhau y caiff pawb sy'n dod i gysylltiad â'r heddlu eu trin cystal ag y dylent gael eu trin. Gwyddom mai un o'r profion allweddol yw pa mor dda a pha mor gyflym y mae'r heddlu yn ymdrin â chysylltiadau cychwynnol gan y cyhoedd. Byddwn yn codi'r safonau drwy ei gwneud yn haws cysylltu â'r heddlu dros y ffôn neu drwy e-bost, a sicrhau, os nad yw'r digwyddiad yn un o argyfwng ond y mae angen cynnal ymweliad, y caiff amser addas ei drefnu'n gyflym. Ar y cyd â heddluoedd, byddwn yn gweithio i wella boddhad, gan fesur pa mor fodlon y mae pobl ar eu cysylltiad â'r heddlu. Rydym wedi cyflwyno safonau clir eisoes o ran sut y mae'r heddlu a'r system cyfiawnder troseddol yn trin dioddefwyr, a byddwn yn ymestyn y rhain i dystion drwy Siarter y Tyst.

2.55 Rydym yn treialu '101' – rhif ffôn ar gyfer galwadau nad ydynt yn rhai brys – mewn pum ardal, er mwyn i bobl gychwyn camau gweithredu, a chael gwybodaeth a chyngor ar faterion o ran diogelwch y gymuned ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu cymdogaeth yn hawdd ac yn gyflym.

2.56 Lle y bydd pobl yn teimlo nad yw'r heddlu yn gwrando arnynt, bwriadwn roi mwy o bŵer iddynt wneud i'r heddlu ddal sylw. Rydym wrthi'n deddfu i gyflwyno 'Galwad Gymunedol i Weithredu' i alluogi cymunedau lleol i ysgogi camau gweithredu gan yr heddlu ac asiantaethau lleol eraill lle nad ydynt wedi llwyddo i fynd i'r afael â throsedd lleol mynych neu broblem o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol.

2.57 Mae'n amlwg bod bwlch yng ngallu heddluoedd i ddarparu 'gwasanaethau diogelu' – gan fynd i'r afael â throseddu cyfundrefnol, terfysgaeth, a throseddau mawr eraill sy'n croesi ffiniau. Mae hyn yn golygu nad heddluoedd bach yn gweithio ar eu pen eu hunain yw'r dyfodol. Yn dilyn trafodaethau helaeth â Phrif

Gwnstabliaid ac awdurdodau'r heddlu, credwn y gellir gwneud gwelliannau allweddol heb orfodi heddluoedd i uno. Yn lle hynny, rydym yn gofyn i heddluoedd ac awdurdodau'r heddlu ddangos i ni sut y gallant wella eu gwasanaethau diogelu a sicrhau plismona cymdogaeth, yn enwedig drwy gynyddu gweithio ar draws heddluoedd yn sylweddol a manteisio ar y cyfleoedd pwysig i sicrhau effeithlonrwydd gwell megis rhannu swyddogaethau swyddfa gefn a moderneiddio'r gweithlu. Byddwn hefyd yn ystyried pa ryddid a hyblygrwydd gwell y gallwn eu rhoi i heddluoedd sy'n perfformio'n dda.

Byddwn yn:

- rhoi tîm plismona cymdogaeth penodedig ym mhob ardal erbyn mis Ebrill 2008;
- rhoi safonau gwasanaeth gwell ar waith ym mhob heddlu erbyn mis Tachwedd 2006 (er enghraifft, bydd hyn yn ei gwneud yn haws cysylltu â'r heddlu);
- cyflwyno 'Galwad Gymunedol i Weithredu', er mwyn ysgogi ymateb gan yr heddlu (neu asiantaethau eraill) lle nad yw cymunedau o'r farn yr ymdrinnir â'u pryderon;
- ymgynghori â heddluoedd ac awdurdodau'r heddlu ar y ffordd orau o ddiwygio heddluoedd er mwyn sicrhau y gallant ddarparu plismona lleol gweladwy, atebol ac ymatebol, a chamau gweithredu effeithiol yn erbyn troseddu difrifol a chyfundrefnol, terfysgaeth a masnachu mewn cyffuriau; a sut y gall heddluoedd sy'n perfformio'n dda gael mwy o ryddid a hyblygrwydd.

12 ganol dydd, Dydd Mercher 12 Gorffennaf, Vernon Coaker, yr Is-ysgrifennydd dros Blismona, Diogelwch a Diogelwch Cymunedol, yn cyfarfod â swyddogion timau plismona cymdogaeth New Parks a Beaumont Leys yng Nghaerlŷr i drafod eu gwaith gyda'r gymuned leol

Pennod 3:

Mynd i'r afael â throseddwyr er mwyn gostwng troseddu, lleihau aildroseddu, a diogelu'r cyhoedd

3.1 Ein nod canolog, wrth i ni gydbwyso'r system o'r newydd, yw parhau i ostwng troseddu. Mae angen i ni fynd i'r afael â phob math o droseddu, ond canolbwyntio'n fwy ar y troseddau a'r troseddwyr mwyaf difrifol a threisgar, er mwyn cadw'r cyhoedd yn ddiogel.

3.2 Ar hyn o bryd, mae gennym darged o leihau pob math o droseddu 15 y cant erbyn 2008, a mwy mewn ardaloedd lle y ceir llawer o droseddu. Mae gennym darged hefyd o ddwyn mwy o droseddau gerbron y llys. Er bod y targedau hyn yn cydnabod bod y cyhoedd yn pryderu am bob math o droseddu, mae risg eu bod yn annog heddluoedd i fynd i'r afael â niferoedd mawr iawn o fân droseddau, yn hytrach na sicrhau eu bod yn rhoi blaenoriaeth i droseddau difrifol. Mae angen i ni weithio'n llawer doethach, gan sylweddoli nad oes rhaid i ni ymdrin â phob math o droseddu yn yr un ffordd.

3.3 Mae angen ymatebion cadarn, cyflym i fân droseddau nad ydynt yn mynd â llawer o amser ein llysoedd; camau gweithredu penodol i fynd i'r afael â'r troseddwyr mwyaf mynych, sy'n achosi'r gofid mwyaf; a ffocws clir ar y troseddau mwyaf difrifol. Bydd mabwysiadu'r ymagwedd ddoethach hon yn golygu y gallwn fynd i'r afael â phob math o droseddu, heb adael i'n hawydd i ostwng troseddu'n gyffredinol ein hatal rhag blaenoriaethu'r troseddau a'r troseddwyr mwyaf difrifol.

Atal troseddu

3.4 Rydym yn cydweithio'n agos â chydweithwyr ar draws y Llywodraeth, ac yn enwedig â Hilary Armstrong, Gweinidog newydd y Cabinet dros Allgáu Cymdeithasol, i ymdrin ag achosion troseddu ac aildroseddu. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi Cychwyn Cadarn ac wedi cynyddu Budd-dal Plant ar y Fargen Newydd; yn ogystal â buddsoddi llawer mwy mewn gwaith adfywio canol dinasoedd er mwyn sicrhau y caiff pawb y cyfleoedd mewn bywyd sydd eu hangen i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas.

3.5 Mae gwaith gyda phobl ifanc yn ganolog i'n hymdrechion i atal troseddu. Rydym wedi adolygu'r system cyfiawnder ieuenctid yn llwyr ers 1998, gan greu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Thimau Troseddau Ieuenctid aml-asiantaeth, a sefydlwyd i weithio cymaint â'r rhai sydd mewn perygl o droseddu â'r rhai sydd wedi troseddu eisoes.

3.6 Rydym wedi buddsoddi £45 miliwn ychwanegol mewn rhaglenni atal penodol. Ymhlith y rhain mae Rhaglenni Cynnwys Ieuenctid ar sail gweithgareddau i bobl ifanc 13 i 16 mlwydd oed sydd â'r perygl mwyaf o droseddu mewn cymdogaethau difreintiedig. Yn ôl gwaith gwerthuso annibynnol, gostyngodd cyfraddau arestio ymhlith pobl ifanc ar Raglenni Cynnwys Ieuenctid 65 y cant. Mae'r arian ychwanegol hwn yn golygu y caiff ein hymrwymiad i gynyddu nifer y mathau hyn o raglenni 50 y cant erbyn 2008 ei wireddu.

Troseddu lefel isel, anhrefn cyhoeddus ac ymddygiad gwrthgymdeithasol

3.7 Nid yw troseddu lefel isel yn golygu troseddu blaenoriaeth isel. Gall troseddu lefel isel dirwystr arwain at droseddu mwy difrifol ac achosi llawer o ddifrod, niwsans a niwed ynddo'i hun. Mae angen ymatebion cyflym sy'n mynd i'r afael â'r broblem yn gyflym, heb ddefnyddio adnoddau diangen system y llysoedd.

Ymddygiad gwrthgymdeithasol a Pharch

3.8 Ers 1999 rydym wedi rhoi pwerau newydd arloesol – gan gynnwys Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO), gorchmynion cau tai crac a phwerau gwasgaru – i'r heddlu ac awdurdodau lleol er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac anhrefn cyhoeddus. Rydym hefyd wedi sefydlu rhwydwaith o erlynwyr a chydgysylltwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol arbenigol i roi cyngor cyfreithiol arbenigol. Mewn llawer o ardaloedd, defnyddir y pwerau yn helaeth a chyda dychymyg i ymdrin ag ymddygiad gwael cyn iddo waethygu. Mae canfyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn lleihau, o 21

y cant o bobl yn ystyried bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broblem yn eu hardal yn 2002/03 i 17 y cant yn 2005/06, yn ôl Arolwg Troseddu Prydain. Dangosodd Cynllun Gweithredu Parch, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2006, sut y byddem yn datblygu'r gwaith hwn yn ehangach, yn fanylach ac ymhellach. Byddwn yn:

- gweithio er mwyn sicrhau y defnyddir y pwerau yn dda ym mhobman, a bod gan bob Cytundeb Ardal Leol ddangosyddion o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol a Pharch erbyn mis Medi 2006. Bydd Sgwad Parch yn cyflymu'r camau gweithredu lle y mae angen cymorth ychwanegol ar asiantaethau lleol;
- parhau â'n gwaith o ymyrryd â theuluoedd â phroblemau, a sefydlu Prosiectau Ymyriadau Teuluoedd mewn 50 o ardaloedd erbyn diwedd 2006. Mae'r Llywodraeth hefyd yn darparu £70 miliwn i gynyddu argaeledd rhaglenni rhianta o safon a sicrhau y manteisir ar y rhain drwy gontractau a gorchmynion rhianta;
- hyrwyddo sesiynau 'wynebu'r bobl' lle y bydd y rhai sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol – er enghraifft, yr heddlu ac awdurdodau'r heddlu – yn cyfarfod â'u cymunedau lleol i bennu blaenoriaethau lleol a monitro perfformiad.

11am, Dydd Iau 13 Gorffennaf, Tony McNulty, Gweinidog dros Blismona, Diogelwch a Diogelwch Cymunedol, yn cyfarfod â swyddogion heddlu Gwent ar Ystad Llysweri, ynghyd â Nick Ainger, Is-ysgrifennydd Cymru

Pwerau newydd

3.9 Byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd newydd o fynd i'r afael ag ymddygiad gwael. Byddwn bellach yn cyflwyno **Gorchmynion Iawndal Rhieni** mewn deg ardal, sy'n golygu y gall fod yn ofynnol i rieni dalu iawndal am ddifrod a achosir gan ymddygiad gwrthgymdeithasol plant o dan 10 oed (na ellir rhoi Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol iddynt), gan olygu bod rhieni yn fwy cyfrifol am y difrod y mae eu plant yn ei achosi.

3.10 Rydym hefyd yn ystyried pa bwerau ychwanegol a allai fod yn ddefnyddiol wrth fynd i'r afael â throseddu lefel isel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

3.11 Mae'r ymyriadau mwyaf effeithiol yn gweithio'n benodol oherwydd cânt eu cyflawni'n gyflym ac yn gymesur. Mae cosbau diannod gweladwy yn cyfleu neges i gymdeithas ehangach yr aed i'r afael â'r ymddygiad ac na chaiff ei oddef.

3.12 Mae pwerau diannod yn cynnig ffordd gyflym o fynd i'r afael â mân achosion o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol na chaiff ei herio, gan roi'r cyfle i'r unigolion wneud iawn, ymddiheuro ac unioni'r sefyllfa, tra'n cadw hawl unigolyn i apelio i lys, pe bai'n herio'r ffaith ei fod yn euog.

3.13 Mae'n rhaid i ni newid y cydbwysedd hefyd er mwyn peri anghyfleuster i'r sawl sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol, yn hytrach nag i'r mwyafrif sy'n ufudd i'r gyfraith. Felly, er enghraifft, yn ddiweddarach eleni y byddwn yn ymgynghori ar bŵer newydd i gau safleoedd lle y ceir ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol a mynych, waeth beth fo deiliadaeth y deiliad/deiliaid.

3.14 Ar y cyd â phartneriaid busnes, byddwn hefyd yn ystyried sut i atgyfnerthu pwerau diannod presennol yn erbyn busnesau sy'n masnachu'n anghyfreithlon ac sy'n tanseilio busnesau cyfreithlon a diogelwch y cyhoedd. Mae ein nod yn syml – achosi anghyfleuster i'r busnesau

hynny nad ydynt yn dilyn y rheolau, yn hytrach na'r rhai sy'n ufuddhau iddynt.

3.15 Mae Hysbysiadau Cosb Benodedig wedi bod yn bŵer effeithiol ac mae'n rhaid i ni sicrhau y'u defnyddir yn fwy ledled y wlad. Byddwn yn ystyried sut i annog defnydd ehangach o gosbau penodedig gan amrywiaeth o bobl mewn awdurdod, lle y maent yn rhoi ymateb cymesur a phriodol i ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddau rheoleiddio, gydag atebion arbennig o hyblyg ar gyfer troseddau megis difrod troseddol a thaflu sbwriel.

3.16 Fel rhan o'n cynlluniau plismona cymdogaeth, byddwn yn datblygu ffyrdd newydd i'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron ddatrys mân achosion o gamymddwyn gan bobl ifanc lle y byddai ymyrraeth cyfiawnder troseddol ffurfiol yn anghymesur. Mae sicrhau bod pobl ifanc yn cydnabod bod eu hymddygiad yn anghywir, ymddiheuro a gwneud iawn yn rhan bwysig o'u haddysg. A bwriadwn ddeddfu er mwyn cyflwyno fersiwn ieuenctid o'r Rhybuddiad Amodol i oedolion, er mwyn atgyfnerthu pwerau'r heddlu ac erlynwyr i ymateb yn fwy cadarn i droseddu ieuenctid sy'n haeddu mwy na rhybudd ysgrifenedig neu rybuddiad. Fel gydag oedolion, byddai pobl ifanc yn cael y cyfle i wneud iawn ac i gael help neu gael eu herlyn.

3.17 Byddwn yn parhau i weithio gydag Uned Strategaeth y Prif Weinidog ar y materion hyn a byddwn yn cyhoeddi cynigion yn ddiweddarach eleni.

Defnydd gwell o ddirwyon

3.18 Pan gaiff troseddwr ei ddirwyo gan y llys, dylai dalu'r ddirwy. Rydym wedi gwneud llawer o gynnydd ond mae angen i ni wneud mwy. Mae'r gyfradd talu dirwyon wedi gwella o 55 y cant yn 2002/03 i 83 y cant yn 2005/06.

3.19 Rydym am wneud mwy i sicrhau y caiff dirwyon eu casglu – a dyna pam yr ydym yn ystyried ei gwneud yn haws didynnu dirwyon yn awtomatig o incwm neu fudd-daliadau (ar hyn o bryd dim ond ar ôl i rywun beidio â thalu, neu gyda'i ganiatâd, y gallwn wneud hyn).

3.20 Dylai mwy o hyder bod dirwyon yn gosb ystyrlon i bawb helpu i sicrhau nad yw'r llysoedd yn defnyddio dedfrydau cymunedol lle y gallai dirwyon fod yr un mor effeithiol – gan ryddhau adnoddau prawf i roi dedfrydau cymunedol gwell lle y bo eu hangen yn wirioneddol, ac er mwyn diogelu'r cyhoedd.

Byddwn yn:

- cynyddu'r graddau y manteisir ar bwerau ymddygiad gwrthgymdeithasol, a lleihau'r amrywiadau o ran perfformiad lleol, gan gael dangosyddion ymddygiad gwrthgymdeithasol a Pharch ym mhob ardal leol;
- cyflwyno Gorchmynion Iawndal Rhieni mewn deg ardal o haf 2006 ymlaen er mwyn sicrhau bod rhieni yn cymryd cyfrifoldeb dros y difrod y mae eu plant yn ei achosi;
- cyhoeddi cynigion o ran pa bwerau newydd a allai ein helpu i ostwng troseddu lefel isel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhellach byth;
- ymgynghori ynghylch ei gwneud yn haws casglu dirwyon yn uniongyrchol o incwm neu fudd-daliadau, gan gynnwys ymgynghori ar ddidyniadau gorfodol yn ogystal â didyniadau gwirfoddol wrth ddedfrydu troseddwr.

Lleihau aildroseddu, a mynd i'r afael â phobl sy'n troseddu dro ar ôl tro a phobl sy'n defnyddio cyffuriau

3.21 Mae'n hanfodol lleihau aildroseddu er mwyn i ni ostwng troseddu. Cyflawnir tua hanner yr holl droseddau gan bobl sydd wedi bod yn rhan o'n system o'r blaen.

3.22 Mae angen i ni sicrhau bod y system cyfiawnder troseddol gyfan yn cymryd cyfrifoldeb dros leihau aildroseddu, o'r heddlu a dedfrydwyr i'r carchar a'r gwasanaeth prawf. Byddwn yn ystyried pa un a ddylai ein hamcan o leihau aildroseddu fod yn darged ffurfiol a rennir yn y system cyfiawnder troseddol gyfan a'i phartneriaid allweddol, fel rhan o'n hystyriaeth ehangach o dargedau ar gyfer yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant.

3.23 Rydym yn datblygu tair cynghrair gref – y Gynghrair Gorfforaethol, y Gynghrair Cymdeithas Ddinesig a'r Gynghrair Ffydd a'r Sector Gwirfoddol – er mwyn hyrwyddo ac annog cyfranogiad mwy gan gyflogwyr, awdurdodau lleol, a sefydliadau gwirfoddol a sefydliadau ffydd wrth leihau aildroseddu. Dylai pawb fod yn gysylltiedig â lleihau aildroseddu – gan fanteisio i'r eithaf ar yr hyn sydd gan sectorau a grwpiau gwahanol i'w gynnig i sicrhau bod cyn-droseddwyr yn ailintegreiddio â'r gymdeithas a'u cynnwys mewn gweithgareddau pwrpasol yn y gymuned leol. Ac rydym yn dechrau gweld llwyddiant. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae cyfran y troseddwyr a ryddhawyd â llety addas wedi cynyddu 16 y cant; mae nifer y cymwysterau addysgol y mae troseddwyr wedi'u cyflawni wedi cynyddu 11 y cant; ac mae nifer y rhai sy'n cwblhau cwrs triniaeth cyffuriau yn y carchar neu Orchymyn Trin a Phrofi Cyffuriau yn y gymuned wedi cynyddu dros hanner.

Mynd i'r afael â throseddwyr cyson, gan gynnwys y rhai sy'n camddefnyddio cyffuriau

3.24 Mae lleiafrif bach o droseddwyr yng Nghymru a Lloegr yn gyfrifol am nifer anghymesur o droseddau. Mae angen i ni fynd i'r afael â'r troseddwyr mwyaf cyson, gan roi dewisiadau anodd iddynt, ond gan anelu bob amser at eu hatal rhag aildroseddu (ac, ar gyfer y niferoedd mawr iawn sy'n defnyddio cyffuriau, mynd i'r afael â'u harfer). Mae mynd i'r afael â'r troseddwyr mwyaf cyson yn rhan o'n hymagwedd 'ddoethach' tuag at droseddu – gan sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y rhai sy'n achosi'r niwed mwyaf.

3.25 Ar hyn o bryd, rydym yn mynd i'r afael â'r rhai sy'n troseddu amlaf drwy amrywiaeth o strategaethau. Mae gennym raglen 'troseddwyr cyson a throseddwyr eraill â blaenoriaeth' lwyddiannus, sy'n dod â'r heddlu, erlynwyr a gwasanaethau prawf ac eraill at ei gilydd i fynd i'r afael â throseddwyr, eu 'dal a'u collfarnu', ond hefyd eu 'hadsefydlu a'u hymsefydlu', gan gynnig dewisiadau anodd rhwng derbyn cymorth i newid, a dychwelyd i'r carchar yn gyflym. Caiff 10,000 o droseddwyr eu rheoli gan y cynllun, gyda thua 40 y cant ohonynt yn y carchar ar unrhyw adeg. Mae gennym raglen ymyriadau cyffuriau hefyd, ac mae dros 700 o droseddwyr yr wythnos bellach yn dechrau triniaeth. Os byddant yn cael canlyniad cadarnhaol am gyffuriau Dosbarth A mewn prawf, mae'n ofynnol iddynt gael eu hasesu; ac mae'r rhai sy'n gwrthod yn wynebu cosbau llym newydd. Mae'r rhaglen yn llwyddiannus; ond un o'r prif bryderon yw pa un a yw ei hymdrechion yn targedu'r bobl sy'n defnyddio cyffuriau sy'n troseddu fwyaf ac sy'n achosi'r niwed mwyaf. Gwyddom hefyd fod y ddwy raglen yn gorgyffwrdd â'i gilydd, am fod cymaint o droseddwyr sy'n defnyddio cyffuriau yn cyflawni llawer o droseddau.

3.26 Byddwn yn ail-lansio'r rhaglen troseddwyr cyson a throseddwyr eraill â blaenoriaeth yn ystod hydref 2006, a byddwn yn dod â'r rhaglen honno a'n Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau at ei gilydd er mwyn sicrhau y caiff y rhai sy'n defnyddio cyffuriau sy'n troseddu mwyaf eu nodi a'u targedu. Byddwn yn parhau â'n huchelgais i sicrhau bod 1,000 o droseddwyr yr wythnos yn dechrau triniaeth a byddwn yn

cynyddu'r amrywiaeth o droseddau lle y mae prawf cyffuriau yn orfodol. Byddwn yn gweithredu pŵer newydd o Ddeddf Cyffuriau 2005. Bydd hyn yn golygu bod yn rhaid i'r troseddwyr hynny sy'n camddefnyddio cyffuriau sydd wedi cael canlyniad cadarnhaol am gyffuriau Dosbarth A mewn prawf ac y nodir bod angen ymyrraeth arall arnynt fynychu asesiad dilynol neu wynebu dirwy neu gyfnod yn y carchar.

3.27 Rydym am wneud mwy hefyd i ffrwyno troseddu'r rhai na fyddant yn derbyn cymorth, ac sy'n parhau i droseddu. Rydym wedi newid y gyfraith eisoes fel bod yn rhaid i ddedfrydwyr ystyried collfarnau blaenorol, a rhoi dedfrydau mwy llym i'r rhai sydd â chofnodion hir. Ond nid yw hyn yn eu hatal rhag troseddu eto pan gânt eu rhyddhau.

3.28 Rydym am roi mwy o bŵer i'r llysoedd orfodi amodau llym ar nifer fach o'r troseddwyr mwyaf cyson, i'w hatal rhag achosi niwed yn y dyfodol. Byddwn yn ymgynghori ar gynnig i gael 'dedfrydau estynedig' i'r troseddwyr mwyaf cyson. Byddai hynny'n golygu, ar ôl dedfryd gychwynnol lem o garchar oherwydd ei drosedd, y gallai'r llys orchymyn cyfnod ychwanegol ar ôl iddo gael ei ryddhau lle y gellir gwahardd y troseddwr rhag gwneud unrhyw beth a ddisgrifir yn y gorchymyn. Felly, er enghraifft, gellid gwahardd bwrlger mynych sy'n defnyddio cyffuriau a oedd wedi cyflawni cannoedd o droseddau rhag mynd i ardaloedd lle y maent wedi troseddu yn y gorffennol, neu rhag mynd allan gyda'r nos.

Y Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau yn ymarferol

Yn ôl i'r gwaith a'r teulu

Mae gan John, sy'n 30 mlwydd oed, hanes o chwistrellu heroin. Troseddodd yn fynych er mwyn ariannu ei arfer cyffuriau ac wrth wneud hynny, ymddieithriodd oddi wrth ei deulu. Ym mis Rhagfyr 2004, daeth i sylw'r Tîm Atgyfeirio ar ôl Arestio ar ôl bwrgleriaeth a chafodd ganlyniad cadarnhaol am gyffuriau Dosbarth A mewn prawf. Cafodd ei gyfeirio at y Tîm Ymyrraeth Cyfiawnder Troseddol lleol a chafodd ei olrhain a'i gefnogi gan gydgysylltydd yr achos drwy bob cam o'r driniaeth. Erbyn mis Ionawr 2005, roedd John mewn swydd eto.

Nid yw John wedi troseddu ers dechrau'r rhaglen. Mae'n dal i weithio ac mae wedi adnewyddu ei berthynas â'i bartner a'i ferch. Dywed na chafodd gymaint o help erioed o'r blaen.

Mynd i'r afael â chyffuriau, mynd i'r afael â throseddu

Mae bywyd i drigolion Tameside wedi gwella'n sylweddol yn ystod y tair blynedd diwethaf, o ganlyniad i strategaeth gwrth-droseddu aml-asiantaeth sydd â chyffuriau fel ffocws allweddol. Gan weithio gyda'i gilydd, mae Prosiect Troseddwyr Cyson a Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau'r Fwrdeistref wedi gostwng troseddu gan droseddwyr lleol bron 80 y cant. Mae'r effaith ar droseddu'n gyffredinol wedi bod yn fawr: mae lladrata cerbydau wedi gostwng 49 y cant, mae ysbeiliadau personol wedi gostwng 35 y cant; ac mae bwrgleriaethau yn y cartref wedi gostwng 34 y cant.

Gwella perfformiad prawf

3.29 Er mwyn ategu ein gwaith o leihau aildroseddu, mae angen i ni wella dedfrydau cymunedol. Mae ymchwil ryngwladol yn awgrymu bod rhaglenni yn y gymuned yn sicrhau canlyniadau mwy cadarnhaol na chyfnod yn y carchar ar y cyfan; ond o gofio'r hyn a wyddom am effaith cyflogaeth, tai, a chysylltiadau teuluol, dylent fod yn llawer mwy effeithiol wrth adsefydlu troseddwyr nag y maent.

3.30 Yn gyntaf, rydym am sicrhau na chaiff gwasanaethau prawf eu llethu gan droseddwyr llai difrifol, a beichiau enfawr o ran ysgrifennu adroddiadau. Gwyddom fod nifer gynyddol o droseddwyr sydd wedi cyflawni mân droseddau yn cael dedfrydau cymunedol (gan gynnwys pobl a allai fod wedi cael dirwy yn y gorffennol). Ac mae'r llysoedd hefyd yn mynnu cael nifer gynyddol o adroddiadau gan y gwasanaeth prawf cyn iddynt ddedfrydu. Mae angen gwasanaeth prawf arnom a all ganolbwyntio ar y bobl y mae angen eu goruchwylio'n ddwys mewn gwirionedd, naill ai am eu bod yn beryglus, neu oherwydd eu risg fawr iawn o aildroseddu. Byddwn yn gweithio gyda'r Arglwydd Brif Ustus a chyda dedfrydwyr i ddod o hyd i ffyrdd o sicrhau y caiff adnoddau prawf eu targedu at y rhai sydd eu hangen fwyaf, y caiff mwy o droseddwyr sydd wedi cyflawni mân droseddau ddirwy yn hytrach na dedfrydau cymunedol lefel isel, ac nad yw'r llysoedd yn mynnu cael gormod o adroddiadau.

3.31 Yn ail, rydym am sicrhau bod amrywiaeth ehangach o bartneriaid yn ymwneud â'r gwaith o reoli troseddwyr a lleihau aildroseddu. Ar hyn o bryd, dim ond byrddau prawf sy'n darparu gwasanaethau prawf. Dim ond tua 3 y cant o waith prawf a wneir gan y sector gwirfoddol a chymunedol, mewn partneriaeth â byrddau prawf. Credwn fod mwy o ddarparwyr ar gael a allai ein helpu i wella'r ffordd yr ydym yn rheoli troseddwyr yn y gymuned; ac y byddai caniatáu i eraill ddarparu gwasanaethau hefyd yn helpu i wella safonau yn gyffredinol, fel sydd wedi digwydd yn y Gwasanaeth Carchardai.

3.32 Felly, byddwn yn deddfu i'w gwneud yn bosibl i ddarparwyr eraill ddarparu gwasanaeth prawf, a dim ond i'r rhai a all brofi y byddant yn lleihau aildroseddu, a chadw'r cyhoedd yn ddiogel, y byddant yn rhoi contractau. Er mwyn cyflymu'r broses hon, rydym yn cyflwyno **mesurau i wella perfformiad ar unwaith**. Byddant yn canolbwyntio yn gyntaf ar y Byrddau Prawf hynny y mae eu perfformiad yn llawer is na safonau'r rhai sydd â'r perfformiad gorau. Rydym wedi'i gwneud yn ofynnol eisoes i chwe Bwrdd gynhyrchu cynlluniau gwella ar unwaith. Byddwn yn sicrhau bod yr holl Fyrddau hyn wedi gwneud cynnydd mesuradwy, amlwg, erbyn mis Mawrth 2007.

Byddwn yn:

- cyfuno ein rhaglen troseddwyr cyson a throseddwyr â blaenoriaeth â'n Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau a gwella ein hymagwedd tuag at y rhai sy'n defnyddio cyffuriau sy'n achosi llawer o niwed, drwy gael amodau llymach, gorfodi llymach ac asesiadau dilynol newydd;
- gweithio gyda'r Arglwydd Brif Ustus a dedfrydwyr i sicrhau y caiff adnoddau prawf eu hanelu at y troseddwyr hynny sydd eu hangen mwyaf;
- manteisio ar arbenigedd gan y sector preifat a'r sector gwirfoddol er mwyn gwella ansawdd a pherfformiad cosbau cymunedol;
- ymgynghori ar bŵer newydd er mwyn i'r llysoedd osod dedfrydau estynedig gydag amodau llym ar y troseddwyr mwyaf mynych, er mwyn eu hatal rhag achosi mwy o niwed yn y dyfodol.

Diogelu'r cyhoedd rhag troseddwyr difrifol, treisgar a pheryglus

3.33 Mae angen i ni wneud mwy i ymdrin â throseddwyr difrifol, treisgar a pheryglus. Er bod troseddu wedi gostwng, a'n bod yn dwyn mwy o droseddau gerbron y llys, nid yw troseddu treisgar wedi gostwng mor gyflym â throseddu cyffredin iawn megis bwrgleriaeth neu droseddau'n ymwneud â cherbydau. Mae angen i ni ddefnyddio ein dulliau 'doethach' o ymdrin â throseddu ac anhrefn lefel isel er mwyn rhyddhau amser ac adnoddau i'w neilltuo i droseddau difrifol a threisgar.

Atal troseddu treisgar

3.34 Mae'n rhaid i ni wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau ein bod yn atal troseddau treisgar difrifol rhag digwydd yn y lle cyntaf. Byddwn yn gofyn i'n hasiantaethau weithio mewn partneriaeth lawer agosach er mwyn atal troseddu treisgar, ac yn benodol er mwyn rhannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth.

3.35 Byddwn yn adeiladu ar y Rhaglen Mynd i'r Afael â Throseddu Treisgar, sy'n rhoi cymorth dwys i ardaloedd lleol lle y ceir y lefelau uchaf o droseddu treisgar. Mae'n gweithio gyda'r ardaloedd hyn i nodi, datblygu a rhannu arferion da y gellir eu lledaenu'n genedlaethol wedyn. Mae'r rhaglen yn cynnwys plismona gweladwy iawn mewn ardaloedd lle y ceir problemau o ran troseddu, ymyrraeth gynnar er mwyn atal trais rhag gwaethygu, a gwella'r broses o ymchwilio i ddigwyddiadau lle y ceir trais yn y cartref.

3.36 Gwyddom fod angen i ni barhau i fynd i'r afael ag anhrefn yn gysylltiedig ag alcohol, sy'n troi yn drais yn aml. Rydym wedi gweld canlyniadau da gan yr Ymgyrch Gorfodi Camddefnyddio Alcohol er mwyn mynd i'r afael â throseddu ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol. Fodd bynnag, ni ddefnyddir dulliau'r Ymgyrch Gorfodi ym mhob ardal; ac erys llawer mwy i'w wneud i atal siopau, barrau a chlybiau rhag torri'r gyfraith fel mater o drefn a gwerthu alcohol i blant, a'r rhai sy'n feddw eisoes. Byddwn yn:

- cynnwys camau gweithredu ar alcohol yn rhan o'r blaenoriaethau a bennwn i'r heddlu, ac adlewyrchu hynny yn eu fframwaith perfformiad;
- cymryd camau llawer llymach yn erbyn y rhai sy'n gwerthu alcohol i blant a'r rhai sy'n feddw, gan gyhoeddi canlyniadau 'prynu i brofi' yn rheolaidd er mwyn enwi a chywilyddio; cymorth i awdurdodau trwyddedu osod amodau ar drwyddedau neu

Tueddiadau mewn troseddu 1997 i 2005/06



Ffynhonnell: Arolwg Troseddu Prydain

dynnu trwyddedau; a phwerau newydd i swyddogion safonau masnach roi Hysbysiadau Cosb Benodedig i'r rhai sy'n gwerthu alcohol yn anghyfreithlon. Byddwn yn ystyried deddfwriaeth bellach os nad yw'r camau hyn yn sicrhau gwelliannau;

- gweithio gyda'r Adran Iechyd i annog mwy o ymyriadau (megis atgyfeiriadau ar ôl arestio a rhybuddiadau amodol) wedi'u cynllunio ar gyfer y rhai sy'n cyflawni troseddau lefel isel sy'n gysylltiedig ag alcohol, a allai gynnwys rhywfaint o orfodaeth yn y dyfodol. Er enghraifft, gallai'r heddlu gyfarwyddo troseddwr i fynychu sesiwn fer ar arferion yfed yn gyfrifol fel dull amgen i Hysbysiad Cosb am Anhrefn. Byddwn hefyd yn ystyried pa un a ddylem gyflwyno 'rhaglen ymyriadau alcohol', yn debyg i'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau lwyddiannus, er mwyn rhoi atgyfeiriadau penodedig i droseddwyr, gan gynnwys rhaglenni adsefydlu.

3.37 Mae gostwng trais yn y cartref yn rhan hollbwysig o'n strategaeth gyffredinol, am ei fod yn cyfrif am 15 y cant o'r holl droseddu treisgar (Arolwg Troseddu Prydain 2005/06), ac mae mwy o ddioddefwyr yn ei wynebu eto nag ar gyfer unrhyw drosedd arall. Bydd canolbwyntio ar y troseddau hyn yn y cartref yn gynharach yn helpu i atal troseddau difrifol (gan gynnwys llofruddiaethau) yn y dyfodol.

Llysoedd arbenigol trais yn y cartref

Roedd Caerffili yng Ngwent yn un o'r llysoedd arbenigol trais yn y cartref gwreiddiol. Rhwng dechrau'r cyfnod peilot ym mis Ionawr 2004 a mis Medi 2005:

- cynyddodd pledion euog o 21 y cant i 61 y cant;
- cynyddodd cyfraddau collfarnu o 8 y cant i 32 y cant;
- gostyngodd datgyffesiadau dioddefwyr o 53 y cant i 17 y cant;
- cynyddodd nifer gyffredinol y troseddwyr a ddygwyd gerbron y llys i 73 y cant;
- gostyngodd nifer yr achosion lle na chynigiwyd tystiolaeth o 46 y cant i 4 y cant.

Gostwng y gyfradd llofruddiaethau drwy ganolbwyntio ar drais yn y cartref

Bu Caerdydd yn Ne Cymru yn cynnal cynadleddau asesu risg aml-asiantaeth arloesol i ddioddefwyr trais yn y cartref risg uchel. Drwy rannu gwybodaeth, caiff asiantaethau ddarlun gwell o sefyllfaoedd dioddefwyr ac maent yn datblygu ymatebion sydd wedi'u teilwra at eu hanghenion. Mae prosesau rhannu gwybodaeth diogel hefyd yn galluogi asiantaethau i reoli'r troseddwr mewn ffyrdd sy'n lleihau risg.

Yn Ne Cymru yn 2001, cafwyd 11 o ddynladdiadau yn gysylltiedig â thrais yn y cartref. Ers cyflwyno'r system asesu risg aml-asiantaeth ledled y rhanbarth, mae llofruddiaethau yn gysylltiedig â thrais yn y cartref wedi gostwng i ddim ond un yn 2005. Yn ogystal, ni wynebodd 42 y cant o ddioddefwyr trais yn y cartref achos arall o drais yn y cartref ac ni alwodd yr heddlu o gwbl yn y 12 mis ar ôl i'w hachos gael ei wrando yn y gynhadledd asesu risg aml-asiantaeth.

Dwyn troseddwyr difrifol gerbron llys

3.38 Rhaid mai gostwng troseddu treisgar difrifol yw ein nod cyntaf. Ond lle y cyflawnir troseddau difrifol, mae'n bwysig bod gan y system cyfiawnder troseddol y pwerau sydd eu hangen i ymdrin â'r troseddwyr hyn yn effeithiol.

3.39 Mae'r Mesur Gostwng Troseddu Treisgar sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd yn cynnwys amrywiaeth eang o fesurau i wrthsefyll troseddu â chyllyll a drylliau. Mae'n cynnwys pwerau newydd i wahardd drylliau ffug realistig rhag cael eu gweithgynhyrchu, eu mewnforio a'u gwerthu; cynyddu dedfrydau am gario drylliau ffug; a chodi'r terfyn oedran ar gyfer prynu cyllell o 16 i 18 oed.

3.40 Byddwn yn gwneud mwy, drwy ddeddfu er mwyn:

- cynyddu'r gosb fwyaf am gario cyllell neu offeryn miniog mewn man cyhoeddus neu ysgol, heb reswm da, i uchafswm o bedair blynedd;
- cyflwyno Gorchmynion Troseddwyr Treisgar a fydd yn galluogi'r llys i osod gofynion ar y rhai a gollfernir o droseddau treisgar – er enghraifft, gosod cyfyngiadau o ran lle y gall y troseddwr fyw, neu ei atal rhag cysylltu â sefydliadau neu unigolion penodol. Byddwn yn gallu eu cymhwyso i bobl a gollfarnwyd cyn cyflwyno ein dedfrydau anghyfyngedig newydd, a byddwn yn targedu'r troseddwyr mwyaf peryglus. Bydd torri'r gofynion yn drosedd â chosb o hyd at bum mlynedd yn y carchar.

Ffocysu'r carchar ar gadw'r cyhoedd yn ddiogel

3.41 Lle y mae'r llysoedd yn dedfrydu troseddwr i'r carchar neu'n ei gadw yn y ddalfa, mae'n rhaid i ni ddarparu'r lle angenrheidiol yn y carchar. Mae troseddwyr treisgar a difrifol bellach yn llawer mwy tebygol o gael dedfryd o garchar a chael ei anfon i'r carchar am gyfnod hwy nag yn 1997. Mae gennym 19,000 yn fwy o leoedd mewn carchardai yn awr nag a oedd gennym yn 1997, ac mae tua 7,000 o droseddwyr treisgar mwy difrifol yn y carchar, gan ddiogelu'r cyhoedd rhag miloedd o droseddau'r flwyddyn a allai fod wedi digwydd fel arall.

3.42 Mae gwariant ar garchardai wedi cynyddu mwy na 35 y cant mewn termau real ers 1997, ac mae record dda gennym o hyd o ran y bobl sy'n dianc o garchar, ac nid oes unrhyw garcharorion Categori A o gwbl wedi dianc o'n carchardai ers 1996. Ac rydym hefyd wedi cyflwyno dedfrydau anghyfyngedig i droseddwyr peryglus er mwyn cadw'r cyhoedd yn ddiogel.

3.43 Dylai nifer y lleoedd mewn carchardai gael ei phennu gan yr angen am leoedd. Os bydd angen i bobl fod yn y carchar, caiff y lleoedd eu neilltuo. Mae newidiadau polisi yn y ddogfen hon a fydd yn cynyddu'r angen am leoedd – er enghraifft, gwneud ein hymateb i achosion o dorri amodau mechnïaeth yn llymach; gorfodi dedfrydau cymunedol yn well; a chynigion eraill o ran troseddwyr difrifol a chyson. Er mwyn bodloni effaith y newidiadau hyn, byddwn yn chwilio am ffyrdd mwy effeithiol o ganolbwyntio'r ystad carchardai bresennol ar y rhai a ddylai fod yn ein system carchardai (er enghraifft, drwy wneud rhagor i sicrhau bod carcharorion tramor yn dychwelyd i'w gwlad). A byddwn yn adeiladu lleoedd newydd. Mae 900 o leoedd ychwanegol yn cael eu hadeiladu eisoes y bwriedir iddynt fod ar gael yn ystod hydref 2007 ac a fydd yn cynyddu nifer y lleoedd i 80,400. Ar ben hyn, byddwn nawr yn adeiladu 8,000 o leoedd ychwanegol a byddwn yn parhau i ystyried yn fanwl a oes angen rhagor.

Peidio â rhyddhau carcharorion hyd nes ei bod yn ddiogel gwneud hynny

3.44 Ar gyfer carcharorion sy'n bwrw dedfryd o garchar am oes neu ddedfrydau anghyfyngedig, neu sydd wedi dychwelyd i'r carchar am eu bod wedi torri amodau eu trwydded, mae'n rhaid i fwrdd parôl ystyried eu bod yn ddiogel cyn y gellir eu rhyddhau.

3.45 Wrth ystyried rhyddhau carcharorion, mae'r bwrdd parôl mewn panelau o dri. Ar hyn o bryd, lle y ceir gwahaniaeth barn, barn y mwyafrif sy'n ennill. Fel dull diogelu ychwanegol, rydym yn mynd i drosglwyddo i system penderfyniadau unfrydol, gyda throseddwyr yn aros yn y carchar os bydd un aelod o'r bwrdd yn anfodlon ar y risg y maent yn ei pheri i'r cyhoedd.

Ailffocysu'r ffordd rydym yn defnyddio'r carchar

Yn ogystal â darparu 8,000 o leoedd ychwanegol mewn carchardai, rydym am wneud mwy i ffocysu'r adnoddau ychwanegol hyn a'r lleoedd presennol ar y troseddwyr hynny y mae angen iddynt fod yn y carchar fwyaf.



1 Poblogaeth carchardai wedi'i haddasu yn ôl y tymor

Yn gyntaf, mae angen i ni sicrhau ein bod yn alltudio **carcharorion tramor**, er mwyn eu hatal rhag mynd â llawer o amser y system, drwy gynyddu ein cytundebau trosglwyddo carcharorion â gwledydd eraill, a thrwy eu symud yn gynharach yn eu dedfrydau (a fydd hefyd yn sicrhau na chânt eu rhyddhau heb ystyried eu halltudio).

Yn ail, mae angen i ni fabwysiadu **ffyrdd gwell o ymdrin â throseddwyr llai difrifol nad ydynt yn dreisgar** gyda dedfrydau cymunedol llym sy'n mynnu llawer ganddynt. Ar gyfer troseddwyr nad ydynt yn dreisgar sy'n cael dedfryd o garchar, byddwn yn disgwyl i'r llysoedd barhau â'r arferion presennol o ran hyd dedfrydau er mwyn gallu ffocysu adnoddau carchardai ychwanegol ar ddedfrydau hir ar gyfer y troseddwyr mwyaf difrifol.

Rydym yn parhau i garcharu gormod o bobl nad ydynt yn beryglus â **phroblemau iechyd meddwl**. Gellir trin y mwyafrif o droseddwyr ag anhwylderau lefel is yn y gymuned heb beri unrhyw risg i'r cyhoedd ac mae angen i ni archwilio sut y gallwn eu gwyro'n fwy effeithiol i driniaethau priodol ar gam cynnar o'r broses cyfiawnder troseddol.

Mae amrywiad amlwg rhwng ardaloedd gwahanol yng nghyfran y diffynyddion a gaiff eu **cadw yn y ddalfa** (hyd yn oed pan fo proffil y troseddau yn eithaf tebyg) ac nid yw hanner y rhai a gaiff eu cadw yn cael dedfryd o garchar yn y pen draw (Ystadegau Gwaith Achosion Rheoli Troseddwyr y Swyddfa Gartref). Byddwn yn ffocysu lleoedd mewn carchardai i garcharorion ar remand ar y rhai sydd â'r risg fwyaf o aildroseddu a byddwn yn sicrhau bod gan ddedfrydwyr y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau ynghylch remand, ac ynghylch dedfrydu'n gyffredinol. Felly, byddwn yn ymgynghori ar fesurau i sicrhau bod cost remand a phenderfyniadau dedfrydu yn fwy tryloyw i lysoedd lleol.

O gofio'r angen i flaenoriaethu adnoddau carchardai a gwasanaethau prawf ar droseddwyr mwy difrifol, ni fyddwn yn gweithredu dedfryd newydd Carchar a Mwy (cyfnod byr yn y carchar wedi'i ddilyn gan gosb gymunedol hwy) yn ystod hydref 2006.

Goruchwylio troseddwyr difrifol yn well

3.46 Mae digwyddiadau gwarthus diweddar lle y mae troseddwyr a oedd o dan ein goruchwyliaeth wedi cyflawni troseddau difrifol wedi dangos bod angen i ni gymryd camau pendant ar unwaith i wella'r ffordd rydym yn rheoli troseddwyr difrifol, treisgar a pheryglus ar ôl eu rhyddhau o'r carchar.

3.47 Ni chollfernir pob troseddwr y gellid ystyried eu bod yn peri risg i'r cyhoedd o droseddau difrifol iawn. Efallai fod rhai wedi dod i sylw'r system cyfiawnder troseddol oherwydd trosedd bach iawn, ac felly ni ellir eu carcharu am gyfnod amhenodol.

3.48 Felly, er na allwn ddileu'r risg yn gyfan gwbl, mae'n rhaid i ni wneud ein gorau glas i'w rheoli'n effeithiol. Rydym wedi gosod dyletswydd eisoes ar yr heddlu, y gwasanaeth prawf, carchardai a sefydliadau lleol i gyfnewid gwybodaeth am droseddwyr a allai fod yn beryglus, a gweithio gyda'i gilydd i reoli'r risg y maent yn ei pheri. Gelwir y trefniadau yn Drefniadau Amlasiantaeth ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA).

3.49 Byddwn yn gwella'r trefniadau, drwy weithdrefnau adolygu achosion llym er mwyn sicrhau ein bod yn ymdrin ag achosion yn gyson, ac yn asesu risgiau yn dda, a byddwn yn sicrhau bod pob awdurdod cyfrifol yn gweithredu yn ôl safonau cenedlaethol wrth asesu a rheoli troseddwyr treisgar a throseddwyr rhyw.

3.50 Byddwn hefyd yn ymgynghori ar sut y gallwn adlewyrchu ein ffocws ar droseddu pellach difrifol o fewn ein targed cyffredinol i leihau aildroseddu. Bwriedir i Fyrddau Cyfiawnder Troseddol lleol rannu'r targed hwn, er mwyn sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o asiantaethau cyfiawnder troseddol yn cymryd rhan.

Troseddu difrifol a chyfundrefnol

3.51 Rydym wedi cymryd camau i fynd i'r afael â throseddwyr mawr drwy lansio'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol (SOCA). Bydd yr Asiantaeth yn mynd i'r afael â masnachu mewn cyffuriau, troseddu mewnfudo cyfundrefnol, gwyngalchu arian a thwyll hunaniaeth drwy ddatblygu darlun cudd-wybodaeth o droseddu cyfundrefnol, mynd ar drywydd troseddwyr a grwpiau allweddol, torri ar draws marchnadoedd troseddol ac ymosod ar asedau troseddol. Yn ddiweddar, rydym wedi rhoi pwerau newydd eang i bawb sy'n mynd i'r afael â throseddu cyfundrefnol er mwyn:

- gorfodi unigolion i ateb cwestiynau mewn cyfweliadau gydag erlynwyr a chynhyrchu dogfennau ar gais;
- taro bargen gyda hysbyswyr a throseddwyr a gollfarnwyd i dystio dros y Goron;
- defnyddio pwerau atafaelu ychwanegol mewn perthynas ag elw ymchwiliadau troseddol, a defnyddio Gorchmynion Adroddiadau Ariannol, sy'n caniatáu i'r llysoedd osod rhwymedigaethau ar bobl a gollfernir o droseddau penodol i gyflwyno adroddiad am agweddau penodol ar eu materion ariannol.

3.52 Rydym yn ymgynghori ar bwerau pellach yn erbyn troseddu cyfundrefnol ac ariannol, gan gynnwys:

- creu troseddau statudol newydd er mwyn helpu i erlyn mwy o bobl ar ymylon cynllwynion cymhleth ac ystyried newid y gyfraith gynllwynio ei hun;
- mathau newydd o orchmynion sifil, un yn erbyn unigolion, y llall yn erbyn cwmnïau neu endidau eraill, gan gwmpasu amrywiaeth eang o waharddiadau neu ofynion – er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau peirianneg hysbysu'r awdurdodau os gofynnir iddynt adeiladu adrannau cudd mewn lorïau.

3.53 Bydd carchardai yn gweithio gyda'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol a Difrifol i sicrhau na all troseddwyr cyfundrefnol reoli gweithgarwch na datblygu rhwydweithiau y tu mewn i garchardai ac y gallwn drosglwyddo'r wybodaeth sydd gennym sy'n helpu i fynd i'r afael â throseddu cyfundrefnol y tu allan i garchardai. Y cam cyntaf yw nodi unigolion diddorol sydd yn y carchar eisoes. Mae hyn wedi dechrau ac wedi gwella darlun cudd-wybodaeth yr Asiantaeth a dylai wella gallu carchardai i reoli eu risg eu hunain. Byddwn yn mynd ymhellach er mwyn atal troseddwyr difrifol rhag parhau i droseddu yn y ffordd hon. Problem ryngwladol yw hon a bydd angen cyfuniad o'r canlynol:

- treialu sganwyr cyrff er mwyn atal pobl rhag mynd â ffonau symudol a chardiau SIM i mewn i garchardai yn y lle cyntaf;
- ystyried cosbau llym newydd yn erbyn y rhai sy'n llwyddo i fynd â hwy i mewn;
- y defnydd tactegol o dechnoleg blocio ffonau symudol lle yr amheuwn fod hynny wedi digwydd;
- gwneud defnydd gwell o'r gudd-wybodaeth a gawn gan y rhai sy'n hysbys i ni;
- gweithio gyda chwmnïau technoleg i ymaddasu i'r farchnad ffonau symudol newidiol;
- cynhyrchu cynllun gweithredu ar y cyd erbyn hydref 2006 gyda'r holl asiantaethau perthnasol er mwyn gwrthsefyll hyn.

3.54 Lle y bydd yn helpu i leihau niwed, byddwn yn cadw troseddwyr cyfundrefnol mewn carchardai penodol, er enghraifft heb fod gyda'u cyd-droseddwyr. Byddwn yn gwneud mwy o ddefnydd o sesiynau ôl-drafod, o'r rhai a gedwir yn y carchar a'r rhai sydd mewn cysylltiad â hwy, er mwyn defnyddio'r darpariaethau tystio dros y Goron neu'r darpariaethau hysbysiadau

datgelu yn Neddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005, neu gychwyn camau gweithredu ehangach yn erbyn busnesau troseddol a nodir. Lle y byddwn yn nodi unigolion sy'n cefnogi ymddygiad busnesau troseddol oddi mewn i'r carchar, byddwn yn ystyried defnyddio'r pwerau newydd a nodir isod. Ochr yn ochr â hynny, byddwn yn parhau i bwyso'n galed ar gyllid troseddol, gan gynnwys cyllid y rhai sydd yn y carchar, drwy ymagwedd 'atafaelu llwyr', lle y mae troseddwyr yn ad-dalu elw eu troseddau i'r gymdeithas, gan osod Gorchmynion Adroddiadau Ariannol lle y bo'n briodol.

3.55 Rydym am gynyddu'r risgiau y mae troseddwyr cyfundrefnol yn eu hwynebu wrth gynnal eu busnes. Byddwn yn adolygu effaith lefelau dedfrydu yn ofalus, gan gynnwys drwy weithio gyda'r Cyngor Canllawiau Dedfrydu a'r Panel Cynghori Dedfrydu. Byddwn yn meddwl mewn ffordd arloesol ynghylch y fframwaith dedfrydau, gan ystyried (er enghraifft) potensial opsiynau megis dirwyon enfawr (mewn miliynau o bunnoedd) i sicrhau bod llawer mwy o risg yn gysylltiedig â gweithgarwch anghyfreithlon.

Atafaelu arian gan droseddwyr

3.56 Mae troseddwyr yn ariannu eu ffordd o fyw ac yn cyflawni rhagor o droseddau gyda'r arian y maent wedi'i ddwyn o ddioddefwyr diniwed a'r gymuned gyfan. Mae atafaelu asedau troseddwyr – eu harian parod, eu tai moethus, eu ceir – yn ddull allweddol o orfodi'r gyfraith. Mae'n gostwng troseddu, yn rhoi adnoddau yn ôl yn nwylo'r mwyafrif sy'n ufudd i'r gyfraith ac yn sicrhau (ac yn dangos) nad yw troseddu yn dwyn elw.

3.57 Ers pasio'r Ddeddf Elw Troseddau yn 2002, rydym wedi gwneud yn dda i gynyddu'r symiau a gaiff eu hadennill:

3.58 Credwn fod potensial i'r system fynd llawer ymhellach. Rydym am bennu targedau llawer llymach ar gyfer y system cyfiawnder troseddol, gyda chodiadau mawr o flwyddyn i flwyddyn gan gyflymu tuag at nod o ganfod hyd at £1 biliwn, wedi'i ategu gan ymgais fawr i wella hyfforddiant asiantaethau rheng flaen ym maes

Asedau troseddol a atafaelwyd (£ miliwn)



Ffynhonnell: Data Adennill Asedau ar y Cyd (JARD) (2004/05–2005/06) a data Gwasanaeth Llysoedd EM a goladwyd gan RDS

adennill asedau a gorfodi. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i ni sicrhau bod y broses ar gyfer rhewi asedau mor syml â phosibl.

3.59 Ar ôl ymgynghori â gweithwyr proffesiynol rheng flaen, byddwn yn:

- pennu targedau llym newydd o flwyddyn i flwyddyn, gan ddyblu'r targed presennol i o leiaf £250 miliwn y flwyddyn erbyn 2010;
- mynd ar drywydd troseddwyr sydd wedi cuddio eu hasedau dramor drwy lunio mwy o gytundebau rhannu asedau gyda'n partneriaid Ewropeaidd a rhyngwladol;
- ymgynghori ar ffyrdd o'i gwneud yn haws i asiantaethau gorfodi'r gyfraith rewi asedau yr awgrymir mai elw troseddau ydynt;
- ymgynghori ar rôl i'r sector preifat drwy orfodi gorchmynion y llysoedd i atafaelu asedau'n fwy cyflym ac effeithiol, ac ar bwerau a mesurau newydd i wella'r broses adennill asedau;
- adeiladu ar y cynlluniau cymell presennol fel bod asiantaethau rheng flaen yn cael budd ar y cyd o'u gwaith.

3.60 Ond mae a wnelo adennill asedau â mwy na dim ond cael symiau mawr o arian o'r troseddwyr mwyaf cyfoethog. Mae a wnelo hefyd â tharfu ar y bobl hynny y mae eu busnesau anghyfreithlon yn peri gofid i rai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig, ac yn cynddeiriogi'r rhai sy'n gweithio'n galed ac yn ufuddhau i'r gyfraith. Felly byddwn yn adlewyrchu hyn yn ein cyfundrefn perfformiad, gan sicrhau bod atal niwed i'r gymuned yn cyfrif, yn ogystal â'r arian a atafaelir.

Byddwn yn:

- cynyddu'r gosb fwyaf am gario cyllell heb reswm da i bedair blynedd;
- cyflwyno Gorchmynion Troseddwyr Treisgar er mwyn rhoi pwerau llym newydd i'r llysoedd reoli troseddwyr treisgar peryglus ar ôl i gyfnod eu dedfryd ddod i ben gyda chosbau o hyd at bum mlynedd am dorri amodau;
- cymryd camau llym ar alcohol, gyda phwerau newydd i swyddogion safonau masnach gymryd camau yn erbyn y rhai sy'n gwerthu alcohol i blant neu'r rhai sy'n feddw; ac ystyried cyflwyno 'rhaglen ymyriadau alcohol';
- cymryd camau llym newydd i atal troseddwyr rhag parhau â'u gweithgareddau anghyfreithlon yn y carchar;
- newid y rheolau ar gyfer penderfyniadau parôl, er mwyn sicrhau bod yn rhaid i unrhyw benderfyniad i ryddhau troseddwr i'r gymuned fod yn unfrydol;
- ymgynghori ar fesurau i sicrhau bod cost penderfyniadau remand a dedfrydu yn fwy tryloyw i lysoedd lleol;
- ymgynghori ar darged newydd uchelgeisiol ar gyfer atafaelu asedau troseddwyr a chynyddu cyfranogiad y sector preifat wrth atafaelu asedau.

Pennod 4:

System symlach, cyflymach a thecach â gorfodi cryf er mwyn ategu'r gwaith cydbwyso o'r newydd

4.1 Er mwyn i ni gyflwyno'r newidiadau yr ydym wedi'u nodi uchod, i gydbwyso'r system o'r newydd, a mynd i'r afael â throseddwyr yn well, mae angen i ni sicrhau bod gennym y prosesau sylfaenol a'r ffyrdd o weithio a fydd yn ein galluogi i gyflawni hynny. Mae angen system gynyddol gydgysylltiedig a symlach arnom lle nad yw biwrocratiaeth a phwyntiau technegol yn ein rhwystro; ac mae angen system arnom a gaiff ei pharchu a'i gorfodi.

Biwrocratiaeth yr heddlu

4.2 Mae angen i ni sicrhau bod gan Wasanaeth yr Heddlu yn yr 21ain ganrif y dulliau cywir i fynd i'r afael â heriau'r 21ain ganrif heb gael ei rwystro gan reolau a gwaith papur diangen. Mae Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 a Chodau Ymarfer y Ddeddf wedi rhoi rheolau a gweithdrefnau clir i'r heddlu ar gyfer arestio, cadw ac ymchwilio i droseddau er mwyn sicrhau y caiff troseddwyr eu dwyn gerbron y llys. Ers 1997, rydym wedi cyflwyno newidiadau pwysig i Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol er mwyn gwella'r broses ymchwiliol ac ar yr un pryd lleihau'r baich ar yr heddlu mewn meysydd megis arestio, gwarantau chwilio a chyflwyno mechnïaeth yn y stryd.

4.3 Mae'n bwysig ein bod yn cadw camau diogelu da i'r cyhoedd o ran y ffordd y mae'r heddlu yn gweithio (a ddarperir gan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol). Nid ydym am ddychwelyd i sefyllfa lle y methodd erlyniadau (ac y collfarnwyd pobl ddiniwed) oherwydd methiannau ym mhrosesau casglu a thrin tystiolaeth.

Yr Ysgrifennydd Cartref yn clywed am fiwrocratiaeth yn uniongyrchol

Fel un o'i ymweliadau â'r rheng flaen, dilynodd yr Ysgrifennydd Cartref y broses patrolio, arestio, cyhuddo a chollfarnu pan ymwelodd â gorsaf heddlu Charing Cross a Llys Ynadon Bow Street un nos Wener a bore Sadwrn. Roedd hyn yn ei alluogi i glywed yn uniongyrchol gan swyddogion yr heddlu a swyddogion y llys beth sydd angen i ni ei wneud i wella'r system a hefyd i weld drosto'i hun beth sydd angen ei newid.

- Roedd galwad glir i **leihau gwaith papur**, yn enwedig ffurflenni sy'n ailadrodd gwybodaeth (enw, dyddiad geni, ac ati) a **ffurflenni hir** (megis y rhai ar gyfer profi cyffuriau). Roedd galwad glir hefyd i **wella llif gwybodaeth** rhwng yr heddlu a'r llysoedd a sicrhau bod y **bobl gywir yn gallu ei gweld**.
- Yn Llys Ynadon Bow Street, clywodd yr Ysgrifennydd Cartref adborth ar **leihau oedi mewn prosesau** a manteision **cysylltiadau teledu byw rhwng carchardai a llysoedd** er mwyn peidio â gorfod cludo carcharorion.

4.4 Ond er bod angen i'r prosesau hyn fod yn ddigon cadarn, mae'n rhaid i ni sicrhau hefyd nad ydynt yn rhy fiwrocrataidd. Byddwn yn lansio papur ymgynghori yn ystod haf 2006 i geisio barn ar ba un a oes angen i ni ddiwygio Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol er mwyn cadw'r camau diogelu angenrheidiol ond lleihau biwrocratiaeth. Bydd y papur hwn yn cwmpasu meysydd megis:

- holi ar ôl cyhuddo;
- newidiadau i gloc cadw'r heddlu er mwyn gallu gwneud mwy o ddefnydd o'r broses gadw i ymchwilio a holi;
- sicrhau bod y Codau Ymarfer yn adlewyrchu arferion da gweithredol yn well.

4.5 Gwyddom y gall y dulliau presennol o olrhain perfformiad fod yn llafurus i'r heddlu. Rydym yn mynd ati i symleiddio prosesau monitro

perfformiad a byddwn yn cyflwyno un fframwaith cyffredin yn lle'r tri fframwaith presennol (y Fframwaith Perfformiad Cyffuriau, System Asesu a Darparu Partneriaeth (PADS) a Fframwaith Perfformiad ac Asesu'r Heddlu (PPAF)). Y nod yw symleiddio a ffocysu partneriaid ar y canlyniadau allweddol, gan leihau biwrocratiaeth a gwneud prosesau yn gliriach, fel rhan o'n bargen â'r heddlu i roi mwy o ryddid iddynt yn gyfnewid am berfformiad da. Bwriadwn gyflwyno'r fframwaith newydd yn 2007/08.

4.6 Byddwn hefyd yn croesawu awgrymiadau eraill gan yr heddlu ac eraill ynghylch sut y gallwn leihau biwrocratiaeth a gwella effeithiolrwydd.

Gwella ein prosesau drwy ddysgu o'r rheng flaen

4.7 Rydym am wneud mwy i wella ein prosesau a'n systemau drwy ddysgu o'r rhai sy'n gwybod orau sut i wella'r hyn y maent yn ei wneud – gweithwyr proffesiynol rheng flaen.

4.8 Buom yn cynnal cyfres o raglenni peilot er mwyn troi syniadau o'r rheng flaen yn ffyrdd gwell o weithio ar lawr gwlad. Ymhlith y rhain mae heddluoedd a byrddau cyfiawnder troseddol lleol, a bu'r canlyniadau yn addawol hyd yma. Mae enghreifftiau o ddau o'r prosiectau yn cynnwys:

Ymateb i'r cyhoedd gan yr heddlu yn Suffolk

Mae swyddogion a staff yr heddlu o Ardal Ddeheuol Heddlu Suffolk wedi bod yn gweithio ar brosiect chwe mis i droi eu syniadau ar gyfer gwella yn realiti ar lawr gwlad. Gyda chefnogaeth y Swyddfa Gartref, maent wedi bod yn dadansoddi prosesau sylfaenol ac yn datblygu ffyrdd o weithio'n fwy effeithiol ac mewn ffordd symlach. Ymhlith y llwyddiant cynnar mae'r ffordd y mae anfonwyr a swyddogion yn ymateb i alwadau gan y cyhoedd.

Pan ddechreuodd y prosiect yn gyntaf, nid ymdriniwyd â thua 130 o alwadau llai difrifol gan y cyhoedd ar yr un diwrnod, ac roedd angen gwaith dilynol wedyn. Roedd hynny'n rhoi pwysau mawr ar swyddogion, a oedd yn ceisio clirio'r gwaith a oedd wedi cronni drwy'r amser; ac nid oedd yn bodloni'r cyhoedd ychwaith. Mae swyddogion a staff yr heddlu wedi cynllunio a gweithredu system well ar gyfer ymateb i alwadau nad ydynt yn rhai brys, gan ryddhau timau ymateb a phatrolio i ymdrin â galwadau brys yn fwy effeithiol.

Er enghraifft, creodd yr Ardal Ddeheuol 'ddyddiadur digwyddiadau', gydag apwyntiadau wedi'u hamseru ar gyfer aelodau'r cyhoedd sy'n gofyn i'r heddlu fynd i ddigwyddiadau nad ydynt yn rhai brys. Mae hyn yn golygu bod y galwr yn gwybod pryd i ddisgwyl swyddog, sy'n well iddynt hwy, ac mae hefyd yn osgoi teithiau seithug i'r heddlu, am fod y person gartref ac yn barod i gael yr alwad.

O ganlyniad i waith yr Ardal Ddeheuol, cododd boddhad dioddefwyr â'r heddlu lleol dros 10 y cant i dros 84 y cant ym mis Mehefin 2006, o gymharu â lefelau boddhad o 74 y cant yn ystod 2005/06 gyfan.

Cysylltiadau teledu byw fel ffordd gost-effeithiol o osgoi cludo carcharorion

Mae cludo carcharorion yn ôl ac ymlaen o'r llys yn ddiangen yn gostus iawn ac yn amharu ar allu swyddogion carchar i redeg rhaglenni ymddygiad troseddu effeithiol. Mae staff carchardai a llysoedd yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, Dorset a Llundain yn gweithio ar brosiect chwe mis i'w gwneud yn haws defnyddio cysylltiadau cynadledda teledu byw presennol yn lle symud carcharorion. Amcangyfrifwn y gallai cyflwyno eu gwaith yn genedlaethol arbed mwy na £50 miliwn y flwyddyn. Maent wedi bod yn:

- nodi'r hyn sy'n ei gwneud yn anodd i lysoedd a charchardai restru achosion i ddefnyddio'r cysylltiad teledu byw ac archebu'r cyfleuster;
- helpu i gynllunio dull archebu syml ar y rhyngrwyd er mwyn galluogi swyddogion mewn adeiladau gwahanol i archebu'r cyfleuster;
- cadarnhau sut i nodi'n hawdd pa rannau o ba achosion sy'n fwyaf addas i ddefnyddio'r cysylltiad teledu byw;
- ailgynllunio eu prosesau trin carcharorion fel bod carcharor mewn lle i gadw eu hapwyntiadau llys drwy'r cysylltiad teledu byw, ac nid eir â hwy i'r llys o reidrwydd.

4.9 Byddwn yn ymestyn y cynlluniau peilot hyn ac yn adeiladu arnynt, gan gynnwys drwy waith yr Asiantaeth Gwella Plismona Genedlaethol newydd, gan roi'r dulliau a'r cymorth i staff rheng flaen nodi ac wedyn datrys yr anawsterau sylfaenol y maent yn eu hwynebu'n lleol, sy'n meithrin eu sgiliau hefyd.

Byddwn yn:

- cyflwyno fframwaith perfformiad symlach newydd ar gyfer troseddu, cyffuriau a phlismona erbyn 2007/08, gan symleiddio'r tri fframwaith i wneud un;
- dechrau a chefnogi nifer gynyddol o brosiectau gwella prosesau â ffocws lleol, sy'n dysgu gan y rheng flaen ac sy'n rhoi sgiliau newydd i'r staff;
- cyhoeddi papur ymgynghori yn ystod haf 2006 i geisio barn ar welliannau i Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol, er mwyn gwella arferion a lleihau biwrocratiaeth.

2pm, Dydd Mercher 5 Gorffennaf, Gerry Sutcliffe, yr Is-ysgrifennydd dros Gyfiawnder Troseddol a Rheoli Troseddwyr, yn cyfarfod â staff y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol yn Sheffield

Syml, Cyflym, Diannod

4.10 Mae llawer yn ein system gyfreithiol bresennol y dylem ymfalchïo ynddo, yn gywir ddigon: yr hawl i sefyll prawf, barnwriaeth gwbl annibynnol a'r egwyddor y rhagdybir eich bod yn ddieuog hyd nes y profir eich bod yn euog. Yn sgîl cyflwyno swyddogion dilyniant achosion a gwaith rheoli achosion mwy effeithiol, mae nifer y treialon aneffeithiol yn y llysoedd wedi gostwng. Ers mis Medi 2002, mae treialon aneffeithiol yn Llys y Goron wedi gostwng o 28 y cant i 12.5 y cant erbyn mis Mai 2006 ac yn y llys ynadon maent wedi gostwng o 30.9 y cant ym mis Medi 2002 i

20.0 y cant ym mis Mai 2006, sef gwelliant mawr yn y gwasanaethau a ddarperir i ddioddefwyr a thystion.

4.11 Fodd bynnag, gall prosesau'r llys fod yn hirfaith ac mae'r amser yn llysoedd y Goron a llysoedd ynadon bob blwyddyn lle y gellir gwrando achosion yn gyfyngedig. Ar hyn o bryd, caiff gormod o amser ei dreulio yn prosesu llwyth o waith cyffredin iawn ar lefel gymharol isel yn y llysoedd ynadon; amser y byddai'n well ei dreulio yn ymdrin ag achosion mwy difrifol sydd o bwys i ddioddefwyr a chymunedau lleol. Fel yr ydym wedi'i ddweud yn y penodau blaenorol, mae angen i ni sicrhau bod ein system yn addas ar gyfer mathau gwahanol o droseddwyr a throseddau – gan ymdrin â mân droseddau yn gyflym, ond gan neilltuo mwy o amser i ymdrin â throseddau difrifol a sicrhau bod cyfiawnder yn llawer agosach at y gymuned.

4.12 Mae'r *Adolygiad o Gyfiawnder Troseddol – Syml, Cyflym, Diannod* yn canolbwyntio ar fesurau ymarferol a nodwyd gan ymarferwyr cyfiawnder troseddol. Bydd yr Arglwydd Ganghellor, gan weithio gyda'r Ysgrifennydd Cartref a'r Twrnai Cyffredinol, yn nodi cynigion manwl ar gyfer cyflawni cyfiawnder sydd yn:

- **Syml:** gan ymdrin â rhai achosion penodol yn dryloyw drwy rybudd, rhybuddiad neu ateb effeithiol arall er mwyn atal aildroseddu heb broses y llysoedd.
- **Cyflym:** yr achosion hynny y mae angen i broses y llysoedd ymdrin â hwy yn deg ond mor gyflym â phosibl.
- **Diannod:** ymagwedd lawer mwy cymesur – er enghraifft, gan ymdrin ag achosion priodol y diwrnod ar ôl cyhuddo neu yn ystod yr un wythnos (a fyddai'n newid sylweddol yn y ffordd yr ymdrinnir ag achosion ar hyn o bryd yn y llys ynadon).

4.13 Cynhaliwyd dau adolygiad o hynt achosion drwy'r llysoedd ar y cyd ag ymarferwyr cyfiawnder troseddol, gan ystyried y ffordd yr oedd y system cyfiawnder troseddol yn gweithredu, y rhwystrau i wella'r system a'r atebion y gellir eu datblygu i sicrhau gwelliannau sylweddol. Mae'r adolygiadau wedi gweithio gyda'r holl asiantaethau cyfiawnder troseddol a'r farnwriaeth i ystyried y mesurau ymarferol y gellir eu cymryd i wella prosesau paratoi cyn mynd i'r llys a phrosesau yn y llys.

4.14 Ar hyn o bryd, mae'n cymryd dros 21 wythnos ar gyfartaledd o ddechrau i ddiwedd achos yn y llys ynadon, sy'n cwmpasu'r gwaith a wneir gan asiantaethau cyfiawnder troseddol a'r amddiffyniad yn ogystal â phrosesau'r llys. Mae hynny'n rhy hir. Mae'r un peth yn wir am yr achosion mwy cymhleth a difrifol. Ni chaiff ein targed amser aros presennol o ddechrau 78 y cant o achosion a gynhelir yn Llys y Goron o fewn 16 wythnos ei chyrraedd ym mhob llys. Mae angen canolbwyntio'n fwy ar wella cyflymder ac effeithiolrwydd achosion yn y llys ynadon a Llys y Goron, ac ystyried ffyrdd gwahanol o wneud pethau.

4.15 Ymhlith y mesurau ymarferol a weithredir, gan weithio gyda'r farnwriaeth, i wella cyflymder ac effeithiolrwydd achosion yn y llys ynadon mae:

- cyflwyno strwythur rheoli gwell yn y llysoedd ynadon er mwyn cymryd cyfrifoldeb dros reoli llwyth achosion a pherfformiad y llys yn farnwrol;
- gweithdrefnau rheoli achosion symlach mewn pedair ardal er mwyn lleihau'r amser rhwng arestio a diwedd achos;
- treialu cysyniad 'cyfiawnder drannoeth' er mwyn herio'r syniad bod cyfiawnder yn araf, gan ganolbwyntio ar ddwyn troseddau priodol a phenodol megis lladrata o siopau, troseddau ansawdd bywyd, trais yn y cartref a thorri gorchmynion llysoedd gerbron llys rhwng 24 a 72 awr;
- cysylltiadau teledu byw rhwng gorsaf yr heddlu a'r llys er mwyn ymdrin â phledion euog am droseddau lefel isel wrth gyhuddo'r troseddwr, yn amodol ar ddeddfwriaeth;

- treialu'r cysyniad o 'lysoedd yn symud', gan fynd â llysoedd yn ôl i gymunedau, er enghraifft drwy drefnu llysoedd achlysurol yn neuadd y dref neu adeilad cymunedol i ddechrau am droseddau ansawdd bywyd megis graffiti/difrod troseddol/niwsans sŵn.

4.16 Yr uchelgais yw y bydd y rhain dros amser yn sicrhau:

- gostyngiad yn nifer y gwrandawiadau yn y rhan fwyaf o achosion, o gyfartaledd o rhwng pump a chwech i ddisgwyliad y caiff un ei gynnal (am bledion euog) a dau (am achosion a gaiff eu herio);
- y mwyafrif o achosion syml yn cymryd rhwng diwrnod a 6 wythnos o gyhuddo i'r diwedd, yn wahanol i'r system bresennol, lle y mae'n cymryd dros 21 wythnos ar gyfartaledd.

4.17 Ymhlith y mesurau a weithredir, gan weithio gyda'r farnwriaeth, i wella gwrandawiadau Llys y Goron mae:

- gweithredu arferion gorau ar gyfer gwrandawiadau rheoli achosion cychwynnol mwy effeithiol;
- ymdrin â phledion euog cynnar yn fwy effeithiol;
- dileu gwrandawiadau cyn treial diangen yn Llys y Goron.

4.18 Yr uchelgais yw y bydd hyn dros amser yn sicrhau:

- gostyngiad yn yr amser a gymerir fel y caiff y rhan fwyaf o achosion eu cychwyn ac yr ymdrinnir â hwy o fewn 16 wythnos;
- gostyngiad yn nifer y gwrandawiadau cyn treial o chwech ar gyfartaledd i ddim mwy na dau (h.y. y gwrandawiad cychwynnol a gwrandawiad rheoli'r achos a'r ple) yn y rhan fwyaf o achosion, ac eithrio achosion cymhleth ac anodd.

Achosion costus

4.19 Yn ogystal â sicrhau bod y system cyfiawnder troseddol yn deg ac yn effeithiol, mae'n rhaid iddi sicrhau gwerth am arian. Mae'r 1 y cant mwyaf costus o achosion Llys y Goron yn defnyddio cyfran anghymesur o adnoddau (gan gyfrif, er enghraifft, am hanner y gwariant cymorth cyfreithiol perthnasol). Mae asiantaethau cyfiawnder troseddol, y farnwriaeth, a Bwrdd Adolygu Achosion Costus wedi rhoi mesurau ar waith i fynd i'r afael â chost uchel iawn yr achosion hyn (sy'n para dros 40 o ddiwrnodau), gan sicrhau y caiff achosion eu rheoli'n effeithiol a'u goruchwylio'n weithredol yn unigol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

4.20 Ymhlith y mesurau a gynigir i ymdrin ag achosion costus iawn mae:

- ymgynghori ar gynigion Adolygiad Carter ar reoli gwaith amddiffyn yn yr achosion hyn – gan eithrio ymarferwyr amddiffyn o ansawdd gwael o waith achosion costus iawn;
- atgyfnerthu pŵer y farnwriaeth i reoli treialon hir a chymhleth – byddwn yn ystyried cyflwyno pwerau newydd ar gyfer barnwyr treialon mewn treialon hir a chymhleth er mwyn cyfarwyddo newid cynrychiolydd pan fyddant o'r farn bod gwrthdaro buddiannau neu faterion o ran adnoddau yn bygwth cwblhau treial;
- gweithio gyda'r farnwriaeth er mwyn sicrhau bod yr asiantaethau cyfiawnder troseddol a'r amddiffyniad yn glynu wrth brotocolau barnwrol diweddar ar ddatgelu tystiolaeth a deunydd heb ei ddefnyddio, terfysgaeth, a rheoli Twyll Cymhleth, mewn achosion costus;
- gwella'r hyfforddiant a roddir i farnwyr sy'n rheoli treialon hir a chymhleth, a chefnogi barnwyr sy'n gwrando achosion costus iawn drwy roi hyfforddiant rheoli achosion a threialon ychwanegol gan y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol;
- monitro cynnydd achosion costus iawn parhaus yn agos – er mwyn ategu'r gwaith o oruchwylio achosion hir a chymhleth a restrir ar gyfer treial neu yn y llys yn well, drwy'r Bwrdd Adolygu Achosion Costus, panelau o dan arweiniad cyfarwyddwyr gan asiantaethau

erlyn, cofrestr y System Cyfiawnder Troseddol gyfan o achosion costus. Bydd hyn yn galluogi uwch reolwyr i wneud penderfyniadau cyflym o ran sut y dylai achosion ddatblygu, a rheoli adnoddau yn effeithiol.

4.21 Ar ôl gweithredu'r mesurau hyn, caiff eu heffaith ei monitro. Mae'n hanfodol sicrhau bod asiantaethau a phartïon ym mhroses y llysoedd yn cydymffurfio â gorchmynion llys. Cynigir ymdrin â hyn drwy amrywiaeth well o gosbau, drwy ymgynghori ar gosbau ariannol yn y gyfundrefn gontractio a thrwy roi pŵer i'r farnwriaeth wneud gorchmynion i newid cynrychiolaeth yr amddiffyniad o dan amgylchiadau penodol. Byddai'r cynigion hyn yn rhoi dulliau newydd o fonitro a yw'r amddiffyniad yn cydymffurfio â gorchmynion llys mewn achosion costus iawn. Bydd gwaith yn parhau gyda'r farnwriaeth i asesu pa mor effeithiol y mae'r mesurau newydd hyn, gan ddatblygu mesurau pellach os gofynnir amdanynt gan y farnwriaeth, cynrychiolwyr y proffesiynau cyfreithiol a'r asiantaethau cyfiawnder troseddol.

4.22 Bydd y Bwrdd Adolygu Achosion Costus yn gweithio gyda'r farnwriaeth i archwilio ffyrdd o ddatblygu elfennau datganiad achos amddiffyniad angenrheidiol ac ystyried sut i sicrhau bod y rhain yn fwy effeithiol. Gallai hyn gynnwys newidiadau i'r gyfundrefn gontractio er mwyn cysylltu datganiadau achos yr amddiffyniad yn fwy agos â gwaith cyflogedig o dan gontract.

4.23 Byddwn hefyd yn bwrw ymlaen â'n cynigion i newid y system ar gyfer treialon twyll difrifol a chymhleth, fel y gellir eu gwrando heb reithgor pan fo angen hynny i gyflawni cyfiawnder – mae baich hyd a chymhlethdod rhai achosion twyll yn ormod. Mae treialon yn chwalu neu nid ydynt yn dechrau o gwbl ac mae gormod o dwyllwyr nad ydynt yn cael eu cosbi.

Ymdrin â mwy o fân achosion cyn iddynt gyrraedd y llys

4.24 Yr uchelgais yw ymdrin â thua 500,000 o achosion cyn iddynt gyrraedd y llys (dros chwarter o lwyth gwaith y llysoedd ynadon yn ôl nifer), drwy gyflwyno amrywiaeth o fesurau. Caiff y rhan fwyaf o hyn ei gyflawni drwy gyflwyno swmpbrosesu ar gyfer achosion na chânt eu herio megis trwyddedau teledu a rhai mân droseddau modurol dogfennol. Bydd hyn yn rhyddhau adnoddau llysoedd i ymdrin â throseddau sydd o bwys i gymunedau lleol yn gyflymach, megis niwed corfforol difrifol neu ymosodiad cyffredin a anogwyd gan hil.

4.25 Fel yr ydym wedi'i ddweud ym Mhennod 3, gall camau gan yr heddlu neu erlynwyr sy'n wynebu mân droseddwr ar unwaith fod yn bwerus iawn, yn enwedig i'r rhai sy'n troseddu am y tro cyntaf. Rydym eisoes wedi newid y system i'w gwneud yn haws gwneud hyn, ond rydym am wneud mwy. Fel cam nesaf, byddwn yn cyflwyno rhybuddiadau amodol, gan ganiatáu i amodau cosbol (er enghraifft, dirwyon penodedig a gwaith di-dâl) gael eu hychwanegu at rybuddiadau erbyn mis Ebrill 2008 (yn amodol ar ddeddfwriaeth), a byddwn yn deddfu i greu cynllun cyfatebol i droseddwyr ifanc (nas cwmpesir ar hyn o bryd). Fel y nodwyd ym Mhennod 3, byddwn yn cyflwyno cynigion ar ba bwerau diannod newydd eraill a allai ein helpu i fynd i'r afael â throseddu lefel isel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

4.26 Mae'n bwysig bod y cynlluniau hyn yn agored ac yn dryloyw i'r cyhoedd, a bod y cyhoedd yn hyderus y cânt eu gweithredu'n deg. Fel rhan o'r broses o ddatblygu hyn, byddwn yn cynnal trafodaethau gyda'r farnwriaeth a'r ynadaeth, yr heddlu, erlynwyr, y llysoedd a'r cyhoedd o ran lle y dylid gwahaniaethu rhwng achosion lle y gallwn ddefnyddio'r pwerau diannod hyn, a'r rhai sy'n mynd gerbron y llys yn llawn.

Byddwn yn:

- gweithio gyda'r fawrnwriaeth i gyflwyno mesurau ymarferol i gyflymu prosesau llysoedd ynadon a Llys y Goron, gan gynnwys mwy o ddefnydd o gysylltiadau teledu byw a mesurau i gyflawni 'cyfiawnder drannoeth';
- ehangu'r defnydd o Rybuddiadau Amodol – gan gyflwyno darpariaethau sy'n galluogi amodau cosbol ym Mesur yr Heddlu a Chyfiawnder sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd;
- datblygu 'swmpbrosesu' gan y llys ar gyfer achosion na chânt eu herio am droseddau rheoleiddio megis trwyddedau teledu, er mwyn rhyddhau adnoddau llysoedd lleol;
- gweithio gyda'r farnwriaeth i gymryd camau i leihau hyd a chostau'r achosion costus iawn yn Llys y Goron ac rydym yn ymgynghori ar gosbau i ymdrin ag achosion lle nad yw'r amddiffyniad yn dilyn gorchmynion llys.

Technoleg well i helpu i gydgysylltu pethau

4.27 Mae'r sefydliadau sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol yn defnyddio amrywiaeth o systemau gwybodaeth sydd wedi'u cynllunio i ddiwallu eu hanghenion lleol, ond ni chynlluniwyd y rhain yn wreiddiol i rannu gwybodaeth gyda chydweithwyr mewn sefydliadau eraill. Dros y blynyddoedd, mae hyn wedi arwain at system TG ddarniog sy'n heneiddio. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, sefydlwyd rhaglen Technoleg Gwybodaeth y System Cyfiawnder Troseddol yn ystod haf 2002. O ganlyniad i hyn:

- mae gan bob defnyddiwr ar draws y llysoedd, carchardai a'r gwasanaeth prawf fynediad i seilwaith TG wedi'i ddiweddaru;
- ers mis Ebrill 2004, bu gan bob sefydliad cyfiawnder troseddol yr adnoddau i anfon negeseuon e-bost diogel at ei gilydd ac at asiantaethau eraill y tu allan i Rwydwaith Diogel y Llywodraeth;
- mae nifer o systemau TG wedi'u cyflwyno, gan gynnwys COMPASS, sy'n rheoli achosion ar ran Gwasanaeth Erlyn y Goron, ac OASys, sy'n galluogi staff prawf i rannu data ar droseddwyr.

4.28 Caiff cam cyntaf rhaglen TG y System Cyfiawnder Troseddol ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2008, pan fydd y broses o gyflwyno rhaglen Cadwraeth a Pharatoi Achosion NSPIS a System Rheoli Achosion y llysoedd ynadon yn llawn wedi'i chwblhau. Mae Cyfnewidfa'r System Cyfiawnder Troseddol yn sail i'r gwaith hwn i gydgysylltu'r system cyfiawnder troseddol a'r systemau rheoli achosion amrywiol hyn, sydd wedi'i chynllunio i gludo data rhwng sefydliadau, gan drawsnewid y data lle y bo angen.

4.29 Rydym hefyd yn defnyddio technoleg fideo i wella'r ffordd rydym yn cyflawni cyfiawnder – gan ddefnyddio tystiolaeth deledu fyw i leihau'r straen a deimlir gan ddioddefwyr a thystion; rhoi cysylltiadau teledu byw rhwng gorsafoedd yr heddlu a llysoedd er mwyn cyflawni cyfiawnder yn gyflymach; a chan defnyddio cysylltiadau teledu byw rhwng carchardai a llysoedd i leihau'r costau a'r oedi yn sgîl cludo carcharor lle y bo carcharor yn dyst.

Cronfa ddata DNA

4.30 Rydym hefyd wedi arwain y ffordd o ran datblygu technoleg DNA. Ar hyn o bryd, y DU sy'n arwain y byd o ran cymhwyso technoleg DNA i nodi troseddwyr ac mae ganddi'r gronfa ddata DNA blismona weithredol fwyaf yn y byd. Ar ddiwedd mis Mai 2006, roedd gan y gronfa ddata dros 3.39 miliwn o broffiliau o unigolion wedi'u samplu, gan gynnwys y mwyafrif helaeth o droseddwyr gweithredol hysbys yn y DU. Rhwng 2000 a 2005, cafodd dros 2.25 miliwn o bobl eu samplu ac

ychwanegwyd eu proffiliau at y gronfa ddata, sef tair gwaith nifer y proffiliau a lwythwyd yn ystod y pum mlynedd flaenorol.

4.31 Mae'r gronfa ddata yn un o ddulliau cudd-wybodaeth allweddol yr heddlu sy'n helpu i: nodi troseddwyr yn gyflymach; diystyru troseddwyr a amheuir yn gynharach yn yr ymchwiliad; arestio troseddwyr yn gynharach; a sicrhau mwy o gollfarnau. Mae'n rhoi llwybrau ymchwilio hollbwysig i ymchwiliadau'r heddlu ac mae'n cyfrannu at tua 45 y cant o droseddau a gaiff eu datrys lle y mae DNA yn rhan o'r ymchwiliad ac yn cael ei lwytho i'r gronfa ddata. Byddwn yn parhau i weithio i sicrhau y caiff y rhai sy'n dechrau troseddu eu samplu ac y caiff eu proffil DNA ei gadw ar y gronfa ddata DNA, gan gynnwys drwy:

- rhannu arferion gorau a straeon newyddion da o ran defnyddio'r gronfa ddata DNA rhwng heddluoedd;
- cynnal adolygiadau penodol o heddluoedd i asesu perfformiad a nodi a datrys unrhyw broblemau technegol o ran cymhwyso a defnyddio'r gronfa ddata.

Byddwn yn:

- datblygu'r defnydd o Gyfnewidfa'r System Cyfiawnder Troseddol ymhellach er mwyn datblygu ffyrdd arloesol o rannu gwybodaeth am droseddwyr ar draws y system cyfiawnder troseddol gyfan;
- cynyddu'r defnydd o gysylltiadau teledu byw er mwyn gwella effeithlonrwydd a lleihau straen i ddioddefwyr a thystion;
- parhau i wella'r defnydd o dechnoleg DNA wrth ddatrys troseddau.

Pennod 5:

Cynllun gweithredu: beth a wneir erbyn pryd

5.1 Yn y ddogfen hon, rydym wedi nodi amrywiaeth o gamau gweithredu y byddwn yn eu cymryd, er mwyn cydbwyso ein system o'r newydd. Mae'r tabl hwn yn nodi'n glir yr hyn a wneir erbyn pryd; a sut y byddwn yn mesur ein llwyddiant.

Ein hamcan	Yr hyn y bwriadwn ei gyflawni…			
	Erbyn mis Rhagfyr 2006	**Erbyn mis Ebrill 2007**	**Erbyn mis Ebrill 2008**	**Erbyn mis Ebrill 2009**
Rhoi pobl a chymunedau sy'n ufudd i'r gyfraith yn gyntaf	• Byddwn yn ymgynghori ar newidiadau eang i'r fframwaith dedfrydu • Byddwn yn cyflwyno cyngor ar ddehongli'r Ddeddf Hawliau Dynol i ymarferwyr • Byddwn yn ymgynghori ar ba un a allwn wneud i droseddwyr dalu mwy er mwyn talu costau meddygol; ac adfachu taliadau yn ddiweddarach mewn bywyd os bydd troseddwr yn cael llawer o arian • Byddwn yn cyflwyno cyfres o safonau gwasanaeth i'r heddlu er mwyn sicrhau y caiff pawb sy'n dod i gysylltiad â'r heddlu ei drin yn dda • Byddwn yn ymgynghori ar dargedau newydd o ran torri mechnïaeth, sut i gyfyngu ar y defnydd o warantau gyda mechnïaeth a phwerau newydd i swyddogion prawf ymdrin ag achosion o dorri amodau Gorchmynion Cymunedol heb ddychwelyd i'r llys • Byddwn wedi dechrau proses weithredu fesul cam o ran rhagdybiaeth yn erbyn mechnïaeth mewn rhai achosion	• Byddwn yn sicrhau bod gan farnwyr fwy o ddisgresiwn o ran yr 'amser i ffwrdd' y dylid ei roi i droseddwyr am bledio'n euog • Byddwn yn newid y ffordd y mae'r Cyngor Canllawiau Dedfrydu yn gweithio er mwyn iddo fod yn symlach • Byddwn yn sefydlu llinell gymorth gyfreithiol ar y we i ymarferwyr ym maes hawliau dynol	• Bydd gennym dîm plismona cymdogaeth penodedig ym mhob ardal • Byddwn yn newid y gyfraith i atal collfarnau'r rhai y mae'n amlwg eu bod yn euog rhag cael eu dileu oherwydd pwynt technegol • Byddwn yn atal troseddwyr a ailddedfrydir ar ôl apêl yn erbyn dedfryd ysgafn rhag cael gostyngiad yn eu dedfryd oherwydd y trallod o gael eu dedfrydu eto • Byddwn yn cyflwyno Siarter y Tyst • Byddwn yn cyflwyno 'Galwad Gymunedol i Weithredu' • Byddwn yn cyflwyno Gwasanaeth Gorfodi Cenedlaethol	• Byddwn yn cwblhau'r broses o gyflwyno'r ymagwedd cyfiawnder cymunedol

Pennod 5:
Cynllun gweithredu: beth a wneir erbyn pryd

Ein hamcan	Yr hyn y bwriadwn ei gyflawni… Erbyn mis Rhagfyr 2006	Erbyn mis Ebrill 2007	Erbyn mis Ebrill 2008	Erbyn mis Ebrill 2009
Mynd i'r afael â throseddwyr er mwyn gostwng troseddu, lleihau aildroseddu, a diogelu'r cyhoedd	• Byddwn yn cyflwyno Gorchmynion Iawndal Rhieni mewn deg ardal • Byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth i gynyddu'r gosb fwyaf am gario cyllell i bedair blynedd • Byddwn yn cyflwyno rhaglen gwella perfformiad prawf • Byddwn yn cyflwyno cynigion o ran pa bwerau newydd a allai ein helpu i ostwng troseddu lefel isel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhellach byth • Byddwn yn ymgynghori ar fesurau i sicrhau bod cost penderfyniadau remand a dedfrydu yn fwy tryloyw i lysoedd lleol	• Byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth i ddarparu ar gyfer newidiadau i'r ffordd y mae'r bwrdd parôl yn gwneud penderfyniadau • Byddwn wedi gweld gwelliant mesuradwy mewn ardaloedd prawf sy'n tanberfformio • Byddwn yn cymryd camau llym o ran alcohol, gan gynnwys pwerau newydd i swyddogion safonau masnach atal y rhai sy'n gwerthu alcohol i blant; ac ystyried cyflwyno 'rhaglen ymyriadau alcohol' • Byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth i ddarparu ar gyfer Gorchmynion Troseddwyr Treisgar	• Byddwn yn cyflwyno'r gallu i herio a phrofion perfformiad i wella perfformiad gwasanaethau prawf wrth leihau aildroseddu • Byddwn yn cyflwyno treialon barnwyr yn unig ar gyfer achosion twyll difrifol • Byddwn yn newid y rheolau ar gyfer penderfyniadau parôl, er mwyn sicrhau bod yn rhaid i unrhyw benderfyniad i ryddhau troseddwr i'r gymuned fod yn unfrydol • Byddwn yn cyflwyno Gorchmynion Troseddwyr Treisgar • Byddwn wedi lleihau aildroseddu o leiaf 5 y cant rhwng 2002/03 a 2007/08 • Byddwn yn darparu 900 o leoedd ychwanegol mewn carchardai (hydref 2007)	• Byddwn wedi gostwng troseddu 15 y cant (a mwy mewn ardaloedd lle y ceir llawer o droseddu) rhwng 2002/03 a 2007/08
System symlach, cyflymach â gorfodi cryf er mwyn ategu'r gwaith cydbwyso o'r newydd	• Byddwn yn ymgynghori ar wella Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol • Byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth i ganiatáu cysylltiadau teledu byw rhwng gorsaf yr heddlu a'r llys er mwyn ymdrin â phledion euog lefel isel wrth gyhuddo • Byddwn wedi dechrau treialu 'cyfiawnder drannoeth'	• Byddwn yn dechrau ac yn cefnogi nifer gynyddol o brosiectau gwella prosesau â ffocws lleol, sy'n dysgu gan y rheng flaen ac sy'n rhoi sgiliau newydd i staff • Byddwn yn ehangu'r defnydd o Rybuddiadau Amodol, gan gynnwys o ran galluogi amodau cosbol	• Byddwn yn cyflwyno fframwaith perfformiad symlach, newydd ar gyfer troseddu a phlismona • Byddwn yn datblygu 'swmpbrosesu' ar gyfer troseddau rheoleiddio megis trwyddedau teledu, er mwyn rhyddhau amser y llysoedd ar gyfer troseddau mwy difrifol, gan olygu na fydd tua 500,000 o achosion nad ydynt yn ddifrifol yn cyrraedd y llysoedd	

Pennod 6:

Ymgynghori

6.1 Drwy gydol ein hadolygiad, rydym wedi nodi amrywiaeth o gamau gweithredu a fydd, yn ein barn ni, yn dechrau'r broses o gydbwyso'r system cyfiawnder troseddol o'r newydd, gan sicrhau ei bod yn agosach i'r hyn y mae'r mwyafrif sy'n ufudd i'r gyfraith yn ei ddisgwyl yn gywir ddigon. Ond ni ellir cyflawni'r math hwn o newid mawr i'r system ar unwaith, drwy fandad canolog. Mae'r system cyfiawnder troseddol o bwys i bob un ohonom. Felly, yn ogystal â chynnig rhai camau gweithredu clir, rydym hefyd wedi nodi amrywiaeth o feysydd pwysig lle yr ydym am ymgynghori â'r cyhoedd a chydweithio'n agosach ag ymarferwyr. Mae'r Bennod hon yn crynhoi'r meysydd ar gyfer ymgynghori, ac yn nodi sut y byddwn yn casglu barn.

Rydym am ymgynghori ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys:

- **y ffordd orau o ddiwygio heddluoedd er mwyn sicrhau y gallant ddarparu plismona lleol gweladwy, atebol ac ymatebol, a chamau gweithredu effeithiol yn erbyn troseddu difrifol a chyfundrefnol, terfysgaeth a masnachu mewn cyffuriau; a sut y gall heddluoedd sy'n perfformio'n dda gael mwy o ryddid a hyblygrwydd;**
- **cynyddu'r iawndal y mae troseddwyr yn ei dalu, gan ei gwneud yn ofynnol i droseddwyr treisgar dalu treuliau meddygol dioddefwyr a chreu pwerau newydd i ganiatáu i'r llys ailagor achosion ar ôl cyfnodau cyfyngiadau presennol gan ganiatáu i ddioddefwyr ddwyn achos, er engraifft, pe bai'r troseddwr yn cael arian annisgwyl yn ddiweddarach;**
- **sut y gallwn wneud y broses ddedfrydu yn gliriach;**
- **dod â'r arfer i ben y dylai barnwyr haneru'r cyfnod lleiaf yn awtomatig i'r rhai sy'n bwrw dedfrydau anghyfyngedig; ac opsiynau eraill o ran sut y dylent bennu'r dyddiad posibl cyntaf ar gyfer parôl;**
- **pa un a ddylid rhoi mwy o ddisgresiwn ynghylch cadw rhai carcharorion sy'n bwrw dedfrydau hyd penodedig yn y carchar ar ôl hanner ffordd drwy eu dedfryd, lle y ceir risgiau clir ac arwyddocaol i'r cyhoedd;**
- **pŵer newydd i'r llysoedd osod dedfrydau estynedig gydag amodau llym ar y troseddwyr mwyaf mynych, er mwyn eu hatal rhag achosi niwed yn y dyfodol;**
- **mesurau i sicrhau bod cost remand a phenderfyniadau dedfrydu yn fwy tryloyw i lysoedd lleol er mwyn anelu adnoddau cywirol at y troseddwyr sy'n peri'r risg fwyaf;**
- **sut i gynnwys y sector preifat mewn gwaith atafaelu asedau a newidiadau deddfwriaethol i wella'r broses o adennill asedau;**
- **sut i leihau biwrocratiaeth yn yr heddlu (a byddwn yn cyhoeddi papur ymgynghori yn ystod yr haf eleni i geisio barn ar welliannau i Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol);**
- **pa bwerau newydd a allai ein helpu i ostwng troseddu lefel isel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhellach byth;**
- **sut i gyfyngu'n fawr ar 'warantau gyda mechnïaeth' i ddiffynyddion ar fechnïaeth nad ydynt yn ymddangos yn y llys;**
- **rhoi'r pŵer i staff prawf amrywio'r gosb y mae troseddwr yn ei gwneud gan ddibynnu ar ei ymddygiad, heb orfod dychwelyd i'r llys;**
- **targedau newydd ar gyfer dychwelyd y rhai sy'n torri mechnïaeth i'r llys yn gyflymach.**

6.2 Bydd yr Ysgrifennydd Cartref a'r Gweinidogion yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori yn ystod y chwe mis nesaf i ymgynghori ar y cynigion a amlinellir yma. Y bwriad fydd cynnal digwyddiadau a fydd yn galluogi prosesau trafod ac ymgysylltu ystyrlon. Byddwn hefyd yn cyhoeddi dogfennau ymgynghori llawnach ar rai o'r meysydd hyn, a chroesawn ymatebion ysgrifenedig neu ar ffurf e-bost i naill ai'r dogfennau manwl hynny, neu i'r papur hwn, y dylid eu hanfon i rebalancingthecjs@cjs.gsi.gov.uk

Cynhyrchwyd gan COI ar ran y Swyddfa Gartref, Gorffennaf 2006. Cyf: 275921